Dadansoddi ar gyfer Polisi

Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth

Government Social Research

Analysis for Policy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Rhif Ymchwil Cymdeithasol:
56/2021

Dyddiad cyhoeddi:
02/09/2021

# Gwerthusiad o Raglen Lleoedd Lleol ar gyfer Natur: Blwyddyn Un (2020–2021)

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN digidol 978-1-80195-831

Gwerthusiad o Raglen Lleoedd Lleol ar gyfer Natur: Blwyddyn Un (2020–2021)

Awdur(on):
Dyfan Powel (Wavehill)
Anna Burgess (Wavehill)
Andy Parkinson (Wavehill)

Adroddiad Ymchwil Llawn: Powel, D., Burgess, A., Parkinson A., (2021). *Gwerthusiad o Raglen Lleoedd Lleol ar gyfer Natur: Blwyddyn Un (2020–2021)*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, rhif adroddiad GSR 56/2021.>

Ar gael yn: https://llyw.cymru/gwerthusiad-o-raglen-lleoedd-lleol-ar-gyfer-natur-blwyddyn-un-2020-i-2021

Safbwyntiau'r ymchwilydd a fynegir yn yr adroddiad hwn, ac nid rhai Llywodraeth Cymru o reidrwydd

Am wybodaeth bellach, cysylltwch â:
Isabella Malet-Lambert
Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
0300 628250
YmchwilDyfodolCynaliadwy@llyw.cymru

## Cynnwys

1. Cyflwyniad/Cefndir.......................................................................................................... 7

2. Methodoleg........................................................................................................................ 14

3. Canfyddiadau: Partneriaethau Natur Lleol..................................................................16

4. Canfyddiadau: Grantiau Cyfalaf Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol................ 29

5. Canfyddiadau: Pecynnau Rhagdaledig Cadwch Gymru'n Daclus................................41

6. Safbwyntiau Rhanddeiliaid............................................................................................ 61

7. Casgliadau .........................................................................................................................66

Atodiad A: Crynodeb o Gynlluniau LNP...............................................................................78

Atodiad B: Holl brosiectau NLHF a Gymeradwywyd ......…..................................................82

**Rhestr o'r tablau**

Tabl 1.1: Cyllideb y rhaglen........................................................................................ 9
Tabl 5.1: Cyflawniad prosiectau, erbyn 28 Chwefror 2021............................................... 41

**Rhestr o'r ffigurau**


Ffigwr 5.1: Faint o bobl sy'n rhan o'ch grŵp?.................................................................. 42
Ffigwr 5.2: Beth yw oedran cyfartalog aelodau'r grŵp?.................................................. 43
Ffigwr 5.3: I ba raddau yr ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno bod y gwaith wedi helpu i greu lleoedd newydd i fanteisio ar, profi a mwynhau byd natur yn lleol?.......................... 45
Ffigwr 5.4: Gan ddefnyddio graddfa o 1 i 5 (lle y mae 1 yn cynrychioli “Heb fod yn bosibl o gwbl” a 5 yn cynrychioli “Digon o fyd natur i fanteisio arno a'i fwynhau”), pa mor hawdd yw hi i fanteisio ar a mwynhau byd natur lle'r ydych yn byw?................................................ 46
Ffigwr 5.5: Sut glywodd eich grŵp chi am raglen LPfN?.....................................................50
Ffigwr 5.6: Pa mor hawdd neu anodd oedd hi i'ch grŵp gael gwybodaeth am y rhaglen/pecyn?.............................................................................................................50
Ffigwr 5.7: Pa mor heriol fu'r broses o wneud cais am y cyllid?.........................................51
Ffigwr 5.8: Pa mor heriol fu cyflawni/cwblhau'r prosiect?................................................. 51
Ffigwr 5.9: Pa rai o'r materion canlynol, os o gwbl, oedd wedi effeithio ar eich gallu i gyflawni/cwblhau'r prosiect?...............................................................................................52
Ffigwr 5.10: Effaith ar unigolion ..........................................................................................57
Ffigwr 5.11: Effaith ar y grŵp ac ar y gymuned .................................................................58

**Geirfa**

| **Acronym/Llythrenw/Gair allweddol** | **Diffiniad** |
|---|---|
| CAVO | Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Ceredigion |
| Ha | Hectar |
| KWT | Cadwch Gymru'n Daclus |
| ALI | Awdurdod Lleol |
| LNP | Partneriaeth Natur Leol |
| LPfN | Lleoedd Lleol ar gyfer Natur |
| NGO | Corff Anllywodraethol |
| NLHF | Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol |
| Ardaloedd o gwmpas trefi | Mae'n cyfeirio at ardaloedd gerllaw dinas neu ardal drefol |
| CGGC | Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru |
| MALIC | Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru |

## 1. Cyflwyniad/Cefndir

### Cefndir

1.1 Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod yr amgylchedd a bioamrywiaeth yn cynnig sylfaen ar gyfer lles economaidd, cymdeithasol a diwylliannol Cymru. At hynny, cydnabyddir y bygythiadau i fyd natur a'r pwysau a roddir ar fyd natur gan arferion amaethyddol, llygredd, gweithgarwch rheoli dŵr a choetiroedd, trefoli a'r newid yn yr hinsawdd.

1.2 Nododd "Adroddiad o Gyflwr Adnoddau Naturiol (2016)" Cyfoeth Naturiol Cymru nad oedd Cymru wedi cyflawni targedau bioamrywiaeth rhyngwladol a chenedlaethol 2010 .[1] Mae'r Adroddiad ar Gyflwr Byd Natur (2019) mwyaf diweddar yn dynodi, o blith y 3902 o rywogaethau (yr oedd data digonol ar gael amdanynt), bod dros 600 (17 y cant) ohonynt dan fygythiad o fod yn ddiflanedig yng Nghymru. Mae 73 (dau y cant) arall eisoes yn ddiflanedig.[2] Felly mae bygythiad colli bioamrywiaeth yn fygythiad real ac yn fater brys.

1.3 Er bod Llywodraeth Cymru wedi ymateb trwy basio deddfwriaeth sy'n ceisio diogelu ac ymateb i'r bygythiadau a'r sialensiau hyn, efallai y bydd yn cymryd sawl blwyddyn cyn y bydd modd gweld unrhyw effaith. Mae Llywodraeth Cymru yn pryderu am yr angen i weithredu ar fyrder ac mae wedi bod yn ymwneud â nifer o fentrau er mwyn mynd i'r afael â'r bygythiad i fyd natur.

### Cyd-destun Polisi

1.4 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 yn gosod trywydd eang ac arloesol er mwyn integreiddio cynaliadwyedd amgylcheddol a diogelu bioamrywiaeth o fewn holl weithgareddau a meysydd gwaith y sector cyhoeddus yng Nghymru.[3] Mae gofyn ar a bydd gofyn ar gyrff cyhoeddus i roi ystyriaeth briodol i effaith hirdymor eu gweithgareddau ar sawl maes, gan gynnwys yr amgylchedd a bioamrywiaeth.

---

[1] Adroddiad o Gyflwr Adnoddau Naturiol 2016
[2] Adroddiad ar Gyflwr Byd Natur 2019
[3] Gweler gwefan Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol

1.5 Yn ogystal, mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn ceisio rhoi sylw i'r sialensiau mewn ffordd fwy uniongyrchol trwy amlinellu cynllun i reoli adnoddau naturiol mewn ffordd fwy cynaliadwy a chydgysylltiedig. Mae'r Ddeddf yn ceisio cyfannu'r uchelgais am economi werdd, carbon isel sy'n gallu addasu i effeithiau'r newid yn yr hinsawdd.[4]

1.6 Cytunwyd ar raglen Lleoedd Lleol ar gyfer Natur (LPfN) ym mis Rhagfyr 2019, gyda'r nod o dreialu ymyriadau bychain sy'n cynorthwyo byd natur a lles. Ym mis Mai 2020, ar ôl i raglen Lleoedd Lleol ar gyfer Natur gychwyn, sefydlwyd grŵp gorchwyl a gorffen gan Lywodraeth Cymru i nodi blaenoriaethau ar gyfer ei Chynllun Adfer yn dilyn COVID-19.[5] Gofynnwyd yn benodol i'r grŵp ddatblygu datrysiadau y byddent yn cysylltu gweithredu ynghylch y newid yn yr hinsawdd a chreu swyddi, gan symud tuag at yr economi werdd, carbon isel sydd wrth wraidd gweledigaeth y llywodraeth. Aeth y grŵp ati i nodi a blaenoriaethu nifer o gamau gweithredu, gan gynnwys dadwneud y dirywiad o ran bioamrywiaeth a chysylltu pobl a byd natur.

1.7 O ganlyniad, mae rhaglen Lleoedd Lleol ar gyfer Natur yn cydredeg â'r prif flaenoriaethau strategol a nodir mewn deddfwriaeth, ac yn eu cynorthwyo. Yn ogystal, mae'r rhaglen yn cyflwyno ffordd o ymgysylltu a gweithredu ynghylch yr uchelgais a'r blaenoriaethau a nodwyd.

**Lleoedd Lleol ar gyfer Natur**

1.8 Roedd maniffesto y Prif Weinidog (2018) yn gwneud ymrwymiad i stopio a dadwneud y dirywiad ym myd natur er budd cenedlaethau'r dyfodol. Ffocws pennaf Lleoedd Lleol ar gyfer Natur (LPfN) yw ymgysylltu gyda chymunedau er mwyn iddynt gymryd rhan yn y broses o greu lleoedd ar gyfer byd natur, nid i gymunedau fod yn arsylwyr neu'n dderbynwyr goddefol natur. Yn ogystal, nod yr ymyrraeth yw bod yn rhywbeth bach a lleol, er yn amlwg, er mwyn ceisio sicrhau bod pobl yn gweld yr effaith gadarnhaol ar amrywiaeth a helaethrwydd 'byd natur ar eu stepen drws':

> *'Canolbwyntio ar y pethau bychain sy'n gallu creu mannau gwyrdd hygyrch lleol: plannu blodau gwylltion; awdurdodau lleol yn gwneud newidiadau i arferion torri porfa; creu gweirgloddiau ar dir llethrog.'*[6]

---

[4] Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016
[5] Cynllun Adfer ar ôl COVID
[6] Maniffesto Llafur Cymru (2018)

1.9 Rhesymeg y rhaglen yw, os bydd pobl yn gallu ymgysylltu gyda byd natur yn y man lle y maent yn byw, yn gweithio ac yn manteisio ar wasanaethau, maent yn fwy tebygol o'i werthfawrogi. Os bydd pobl yn gwerthfawrogi byd natur, maent yn fwy tebygol o gefnogi camau gweithredu, mentrau a gwariant er mwyn cynorthwyo ymdrechion i ddadwneud y dirywiad a gwella byd natur. Yn ogystal, ceir cred y bydd modd sicrhau mwy o fanteision anuniongyrchol o ymgysylltu gyda byd natur, megis lles corfforol a meddyliol gwell.

1.10 Cyhoeddwyd cronfa gyfalaf o £5m i sefydlu Lleoedd Lleol ar gyfer Natur yn y gyllideb ddrafft ar 12 Rhagfyr 2019. Defnyddiodd y rhaglen gyllid ychwanegol yn ystod y flwyddyn a chynyddwyd y gyllideb i £6.9m.

**Tabl 1.1: Cyllideb y rhaglen**

| | KWT | CGGC / LNP | NLHF | Gwyrddu | **Cyfanswm (£)** |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyllideb Rhaglen LPfN (£) | 1,872,000 | 2,725,222 | 2,300,000 | 30,000 | **6,922,156** |

1.11 Prif nod y rhaglen yw creu 'natur ar eich stepen drws', gan wella ac adfer byd natur lle y mae pobl yn byw, yn gweithio ac yn manteisio ar wasanaethau cyhoeddus. Trwy wneud hynny, mae'r rhaglen yn ceisio cyfrannu at nodau bioamrywiaeth, amgylcheddol a lles.

1.12 Mae rhaglen LPfN yn ceisio annog ac ariannu grwpiau cymunedol i ymgysylltu gyda gwaith tyfu ar raddfa fach mewn mannau yn eu cymunedau. Mae'r dull yn cynrychioli ffordd gymharol newydd o ariannu a gweithio. Bwriad y raglen oedd bod yn brosiect arddangos, gan beilota gwahanol ddulliau. Y bwriad yw bod y prosiectau yn bodloni ymrwymiad y Prif Weinidog i 'fesurau cymedrol', pethau sy'n cael effaith yn lleol, sef:

- Cynyddu gweithgarwch plannu blodau gwylltion.
- Cynyddu peillwyr.
- Cynyddu gweirgloddiau ar dir llethrog.
- Lleihau'r defnydd a wneir o blaleiddiaid.
- Newid arferion torri porfa er mwyn annog blodau gwylltion a gwella bioamrywiaeth.
- Gwella mynediad y cyhoedd i ddŵr yfed.

- Cynyddu gweithgarwch plannu coed yn lleol, gan gynnwys coed stryd, perllannau a choetiroedd bychain, gan gynnwys coedwigoedd bychain.
- Cynyddu cyfleoedd i dyfu bwyd mewn ffordd gymunedol, gan gynnwys darparu rhandiroedd.

1.13 Mae'r rhaglen yn gweithio tuag at y mesurau cymedrol trwy dargedu ardaloedd trefol ac ardaloedd o gwmpas trefi a mannau cyhoeddus heb fynediad i fyd natur.

1.14 Yn ogystal, mae'r rhaglen yn ceisio targedu cymunedau difreintiedig a dan anfantais yn arbennig. Fodd bynnag, mae'r diffiniad o amddifadedd, er ei fod yn manteisio ar fesuriadau a diffiniadau safonol, yn parhau i fod yn gymharol hyblyg. Mae'r diffiniad a ddefnyddir yn ceisio ystyried bod diffyg mynediad i safleoedd natur yn fath pwysig a pherthnasol o amddifadedd.

1.15 Trwy gynnal ac annog camau y maent yn rhai lleol a bach yn anad dim, credir y bydd yr unigolion a'r cymunedau sy'n rhan o hyn yn meithrin gwerthfawrogiad dyfnach o fyd natur, a fydd yn arwain at fwy o gefnogaeth ac ymyrraeth weithredol er mwyn ei ddiogelu a'i wella yn y tymor hir. Yn ei dro, bydd hyn yn cynnig budd o ran iechyd a lles unigol ac wrth gryfhau cymunedau i weithredu mewn ffordd bendant ac ar y cyd.

*Meysydd penodol LPfN*

1.16 Gweithredir y rhaglen trwy gyfrwng tri rheolwr cynllun a reolir gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC), Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol (NLHF) a Chadwch Gymru'n Daclus (KWT). Mae pob cynllun yn cynrychioli cynnig penodol.

1.17 Mae CGGC yn gweinyddu grantiau (£2.7m at ei gilydd) i 25 o Bartneriaethau Natur Lleol (LNPs) i ddarparu cynlluniau lleol er mwyn adfer a gwella byd natur. Yn ogystal, caiff sefydliadau o'r sector Cyhoeddus ym mhob ardal Partneriaeth Natur Leol eu cynorthwyo i adfer neu wella byd natur ar eu “hystad” nhw trwy wyrddio eu tir a/neu eu hadeiladau.

1.18 Mae NLHF yn cynnig grantiau cyfalaf (£2.3m at ei gilydd) o £10–50,000 ar gyfer ymyriadau mwy pwrpasol ac wedi'u teilwra. Mae NLHF yn cyfrannu 15 y cant o'r cyllid ar gyfer costau refeniw, gan weithredu amserlen wahanol i amserlen y cynlluniau eraill, a gwelwyd tua pum prosiect yn cychwyn yn 2020, ond disgwylir i'r rhan fwyaf ohonynt ddechrau cyflawni mor hwyr â mis Chwefror 2021 (gan ddibynnu ar y cyfyngiadau oherwydd y pandemig). Mae NLHF yn cyfrannu 15 y cant o'r grant, ac mae Llywodraeth Cymru yn cyfrannu 85 y cant.

1.19 Mae KWT yn cynnig pecynnau cychwyn a datblygu rhagdaledig o asedau cyfalaf i gymunedau (£1.8m at ei gilydd). Mae tri math o becyn ar gael: Gerddi Glöynnod Byw, Gerddi Ffrwythau, a Gerddi Bywyd Gwyllt. Roedd gan bob cyngor tref a chymuned yng Nghymru yr hawl i gael pecyn cychwyn i gymunedau. Gweinyddwyd y rhain fel ceisiadau mynediad agored, a ystyrir ar sail y galw ac ar sail meini prawf.

1.20 Yn ogystal, trefnwyd a darparwyd pecynnau datblygu mwy uchelgeisiol gan KWT. Mae'r pecynnau datblygu fel a ganlyn: Ardaloedd Tyfu Bwyd Cymunedol gyda Pharthau Bioamrywiaeth; Systemau Draenio Trefol Cynaliadwy (SUDS) ar gyfer Natur; a Lleoedd Natur (gerddi gwylltion). Unwaith eto, gweinyddwyd y rhain fel ceisiadau mynediad agored, a ystyriwyd ar sail y galw ac ar sail meini prawf.

**Gwerthusiad**

1.21 Mae'r gwerthusiad hwn yn ceisio asesu'r cynnydd a sicrhawyd wrth i'r rhaglen hon gynnig budd i fyd natur 'ar eich stepen drws' o bersbectif rheolwyr cynllun a chyfranogwyr erbyn diwedd y cyfnod gweithredol ym mis Mawrth 2021. Dylid nodi na ystyrir effeithiau ar yr adeg hon, oherwydd y bernir ei bod yn rhy gynnar yn y rhaglen i unrhyw rai fod yn amlwg. At hynny, nod y gwerthusiad yw ystyried os a sut y byddai modd darparu'r cynllun mewn ffordd fwy effeithlon er mwyn cynyddu neu gynnal unrhyw fanteision yn deillio ohono. Ac yn fwy, mae'n ceisio pennu a yw'r cynllun cyffredinol yn cynnig gwerth am arian o ran yr asedau a gaiff eu creu a'r graddau y caiff y gymuned ei chynnwys.

1.22 Yn arbennig, nod y gwerthusiad hwn o'r broses a'r canlyniadau fydd archwilio pa wahaniaeth y mae'r cynllun wedi ei wneud i fyd natur 'ar eich stepen drws' a sut y gellir darparu'r cynllun mewn ffordd fwy effeithlon. Yn fwy penodol, ei nod yw gwneud hynny trwy archwilio'r cwestiynau ymchwil allweddol canlynol a nodwyd yn y fframwaith gwerthuso:

- A yw'r rhaglen wedi helpu i greu 'natur ar eich stepen drws' mewn ardaloedd trefol ac mewn ardaloedd o gwmpas trefi? Ac os felly, ym mha ffyrdd?
- Pa effaith y mae'r rhaglen wedi'i chael ar yr unigolion a'r grwpiau a fu'n cymryd rhan?
- Pa mor gynaliadwy yw gweithgarwch ymgysylltu y grwpiau gyda byd natur lleol?

### Pandemig y Coronafeirws

1.23 Cymeradwywyd a datblygwyd y cynllun a fyddai'n para blwyddyn yn hwyr yn 2019 ac yn gynnar yn 2020, a bwriadwyd dechrau cyflawni rhai cynlluniau ym mis Mawrth 2020. Digwyddodd pandemig y coronafeirws ar yr un pryd, ynghyd â'r cyfnod clo cysylltiedig, gofynion cadw pellter cymdeithasol a mesurau iechyd cyhoeddus ehangach a weithredwyd gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU.

1.24 Isod, trafodir manylion effaith y pandemig ar y rhaglen. Yn fyr, bu'r effaith yn sylweddol ar brif agweddau ar y rhaglen. Yn fwyaf perthnasol, mae'r pandemig, a mesurau'r cyfnod clo yn arbennig, wedi cyfyngu ar y graddau y gall gwirfoddolwyr gyfarfod ac ymgysylltu gyda lleoedd. Bu'n rhaid i wirfoddolwyr aros gartref yn ystod y cyfnodau clo, roedd y niferoedd yr oedd modd iddynt gyfarfod ar safleoedd pan godwyd y cyfyngiadau yn gyfyngedig iawn o hyd, a chredir bod nifer o wirfoddolwyr yn gwarchod neu'n dewis cyfyngu ar eu gweithgarwch ymgysylltu cymdeithasol. At hynny, effeithiwyd ar y gwaith o gyflawni'r prosiect gan bod swyddogion mewn awdurdodau lleol a'r rhai yn sefydliadau rheolwyr y cynllun wedi cael eu hadleoli i gyflawni rolau eraill, roeddent yn sâl a/neu roeddent yn gofalu am ddibynyddion. Effeithiwyd ar weithgarwch caffael a chadwyni cyflenwi hefyd, ac fel y nodir yn yr adroddiad hwn, gwthiwyd nifer o brosiectau LNP yn ôl er mwyn iddynt gyflawni yn ystod y pedwaredd chwarter (Ionawr-Mawrth 2020).

1.25 Fel rhaglen a gynlluniwyd yn benodol i ymgysylltu gwirfoddolwyr a chymunedau, ni ellir ystyried y flwyddyn gychwynnol hon yn un nodweddiadol o'r effaith y gallai'r rhaglen fod wedi'i chael ar weithgarwch ymgysylltu gwirfoddolwyr fel arall. Mae'r gwerthusiad hwn wedi ceisio ystyried yr amhariad hwn wrth iddo drafod y prif ganfyddiadau a'r cwestiynau ymchwil.

1.26 Yn ogystal, mae'r pandemig wedi cael effaith ar natur y gwerthusiad. Cynhaliwyd yr holl weithgarwch ymgysylltu gyda chyfranwyr a'r gwaith maes o bell. Ni fu modd i'r tîm gwerthuso ymweld â mannau a phrosiectau, ac ni fu modd iddynt gymryd rhan yn y trafodaethau anffurfiol a'r ymgysylltu ar y safleoedd hyn, sy'n cyfoethogi ac yn cynorthwyo'r gweithgarwch casglu data a'r offerynnau gwerthuso ffurfiol.

1.27 Mae'r ffaith na fu modd canfasio gwirfoddolwyr ar y safle wedi cyfyngu ar y graddau y bu modd archwilio eu safbwyntiau a'u profiadau hefyd. Yn lle hynny, mae'r gwerthusiad wedi ceisio canolbwyntio ar arweinwyr pecyn neu brosiect, gan ystyried eu safbwyntiau a'u tybiaethau nhw o'r effaith ar eu grwpiau o wirfoddolwyr. Yn ddelfrydol, byddai'r tîm gwerthuso wedi ymgysylltu gyda phrofiadau'r holl wirfoddolwyr, gan geisio crisialu corff mwy cynrychioliadol o ddata mewn perthynas â phrofiadau gwirfoddolwyr.

## 2. Methodoleg

2.1 Cynlluniwyd LPfN fel cronfa arddangos a fyddai'n para blwyddyn, gyda'r nod uchelgeisiol o gyflawni cannoedd o brosiectau lleol trwy gyfrwng tri rheolwr cynllun. Felly, mae'r gwerthusiad yn archwilio rhaglen a gyflawnir am y tro cyntaf. Tasg allweddol ar gyfer y gwerthusiad oedd casglu data ynghylch tair elfen y rhaglen er mwyn cyfrannu at benderfyniadau yn y dyfodol ynghylch unrhyw barhad o'r rhaglen neu ei hehangu, yn ogystal â chynnig argymhellion ynghylch ei darpariaeth a'i rheolaeth yn y dyfodol.

2.2 At hynny, fel y nodwyd uchod, mae'n anochel bod pandemig COVID-19 a'r cyfnodau clo a'r canllawiau cysylltiedig i bobl aros gartref wedi effeithio ar allu swyddogion a grwpiau cymunedol i gyflawni. Tasg allweddol ar gyfer y gwerthusiad hwn oedd asesu'r effaith ac ystyried y cyflawniad o fewn y cyd-destun hwn.

2.3 Yn gyffredinol, roedd y gwerthusiad wedi ceisio dibynnu ar ddata ansoddol ac arolwg i gyd-fynd â'r gwaith monitro meintiol a'r data ynghylch allbynnau a gasglwyd gan y rhaglen ei hun. Cynhaliwyd gwaith maes rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2021, ac roedd yn cynnwys y dulliau canlynol:

- Arolwg ar-lein gydag ymgeiswyr am becyn “rhagdaledig” KWT. Dosbarthwyd yr arolwg i'r holl ymgeiswyr am becyn. Cafwyd cant pedwar deg chwech o ymatebion cyflawn ac fe'u dadansoddwyd. Roedd y rhif hwn yn cynnwys 124 o “becynnau cychwyn” ac 20 o “becynnau datblygu”.[7] Gyda'i gilydd, mae'r ymatebion yn creu sampl hunanddewisol o 28 y cant o'r holl becynnau a ddarparwyd adeg ysgrifennu hwn.[8]
- Grŵp ffocws a gynhaliwyd gyda chwe ymgeisydd am becyn KWT.
- Cyfweliadau lled-strwythuredig gydag 13 o gydlynwyr LNP. At ei gilydd, cysylltwyd gyda a gwahoddwyd 19 o gydlynwyr LNP; fodd bynnag, roedd yr amserlen dynn, y llwyth gwaith sylweddol ar yr adeg y cynhaliwyd y gwaith maes, ac effaith pandemig y coronafeirws wedi cyfyngu ar allu rhai cydlynwyr i ymgysylltu gyda'r gwaith ymchwil.

[7] Nid oedd dau ymatebydd wedi ymateb i'r cwestiwn hwn, gan awgrymu nad oeddent yn gwybod neu eu bod wedi cael y ddau.

[8] Cafwyd un ymateb gan ymgeisydd aflwyddiannus, ond roedd yr arolwg wedi symud ymlaen i set wahanol o gwestiynau yn yr achos hwn, ac nid yw'r ymateb yn bresennol yn y data a gyflwynir yn yr adroddiad.

- Cynhaliwyd cyfweliadau lled-strwythuredig gyda phum swyddog prosiect grantiau cyfalaf NLHF. Newydd gael cadarnhad o'u dyfarniad yr oedd y prosiectau eraill, neu nid oeddent wedi gwneud cynnydd arwyddocaol o ganlyniad i'r pandemig ac nid oeddent yn debygol o fod mewn sefyllfa i gyfrannu i'r gwerthusiad.
- Cysylltwyd â deuddeg rhanddeiliad, a chyfwelwyd saith ohonynt. Nodwyd y rhanddeiliaid gan Lywodraeth Cymru a'r gwerthuswyr fel rhai y mae ganddynt ddiddordeb yng nghynnydd y rhaglen. Gwrthododd sawl rhanddeiliad gymryd rhan oherwydd eu bod dan yr argraff nad oedd ganddynt wybodaeth fanwl am y rhaglen. Roedd y rhai a gyfwelwyd wedi cyfyngu eu sylwadau i agweddau strategol yn bennaf.
- Cynhaliwyd cyfweliadau lled-strwythuredig gyda phum personél rheoli a chyflawni o'r tri chorff cyflawni a Llywodraeth Cymru.

2.4 Cynigiwyd y dewis yn Gymraeg ac yn Saesneg i'r holl rai a ymatebodd i'r arolwg ac a gyfwelwyd i gymryd rhan yn Gymraeg yn yr ymchwil.

2.5 Mae amseriad y gwerthusiad, rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2021, wedi creu sialensiau wrth gasglu data. Roedd personél cyflawni yn arbennig o brysur yn ystod y cyfnod ymchwil gan ei fod tuag at ddiwedd y flwyddyn ariannol, yn ogystal â'r flwyddyn gyflawni gyntaf, ac roedd yn gyfnod hefyd lle'r oedd cynlluniau yn cael eu cyflwyno ar gyfer ail flwyddyn o weithgarwch arfaethedig. Awgrymodd sawl cydlynydd LNP eu bod wedi ei chael hi'n anodd neilltuo amser ar gyfer y gwerthusiad. Yn ddelfrydol, ni ddylai gwerthusiadau yn y dyfodol ddigwydd yn ystod cyfnodau o'r fath pan fo modd, ac yn ddelfrydol, ar ôl i brosiectau grantiau cyfalaf NLHF, sy'n rhedeg ar sail amserlen wahanol, sicrhau mwy o gynnydd. At hynny, dim ond cynllun KWT oedd wedi cyflawni prosiectau adeg y gwerthusiad hwn, ac roedd cynlluniau dan reolaeth CGGC ac NLHF yn mynd rhagddynt o hyd. Mae'r canfyddiadau ynghylch y cynlluniau olaf hyn yn rhai rhagarweiniol felly, ac fe allent fod yn wahanol i werthusiadau a gynhelir yn y dyfodol o'r un gwaith ar ôl iddo gael ei gyflawni.

## 3. Canfyddiadau: Partneriaethau Natur Lleol

*Disgrifiad*

3.1 Nod y Partneriaethau Natur Lleol (LNPs) yw creu rhwydwaith adfer natur ar draws Cymru, gan ymgysylltu pobl, cymunedau, busnesau a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau gyda gweithredu ymarferol a chynllunio strategol er mwyn sicrhau Cymru iach, cydnerth a chyfoethog o ran ei byd natur. Ariannir y rhain gan Lywodraeth Cymru ac fe'u cydlynir gan CGGC fel rhan o brosiect tair blynedd a fydd yn rhedeg tan fis Ebrill 2022. Mae'r partneriaethau yn cynnwys awdurdodau lleol, Awdurdodau Parc Cenedlaethol, Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru, CGGC, a Chanolfannau Cofnodion Amgylcheddol Lleol (LERCs).

3.2 Mae cyllid LPfN (£2.7m at ei gilydd) yn cynorthwyo gweithrediadau'r LNPs, ac yn arbennig, mae'n ariannu newidiadau i drefniadau torri porfa, gwella cynefinoedd a bioamrywiaeth, trawsnewid lleoedd a safleoedd er mwyn gwella bioamrywiaeth a hygyrchedd, rheoli gwrychoedd, a phlannu blodau gwylltion. Mae Atodiad A yn cynnig crynodeb o gynlluniau a gweithgareddau LNPs.

**Rhesymeg, Cynllunio a Chyflawni**

*Cyfansoddiad yr LNPs*

3.3 Mae'r profiadau a'r sgiliau yn yr LNPs yn amrywio'n sylweddol, ac mae rhai partneriaethau wedi bodoli ers dros 10-20 mlynedd ac mae eraill newydd gael eu sefydlu, neu mewn rhai achosion, heb gydlynydd ar ddechrau'r rhaglen. Fodd bynnag, awgrymodd cydlynwyr, er bod eu LNPs yn gymharol newydd, bod eu staff yn cynnwys unigolion profiadol a sefydliadau a fu'n ymwneud gyda grwpiau'r Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth blaenorol, ac roeddent mewn sefyllfa dda i arwain ar ddarpariaeth weithredol y cyllid.

*Rhesymeg ac ymgysylltu cymunedol*

3.4 Roedd bron pob cydlynydd a oedd wedi cymryd rhan yn y gwerthusiad yn teimlo mai nod craidd neu resymeg y rhaglen oedd gwella mynediad cymunedol i leoedd natur lleol neu wella bioamrywiaeth lleoedd lleol. Roedd rhai o'r rhain wedi gwneud cyfeiriadau amlwg at fesurau cymedrol y Prif Weinidog fel ysgogydd allweddol ar

gyfer y rhaglen.[9] Fodd bynnag, dim ond rhai oedd yn ystyried bod gwella iechyd a lles unigolion yn nod craidd ar gyfer y rhaglen, ac roedd y rhan fwyaf o'r rhain yn teimlo bod y manteision o ganlyniad i greu lleoedd, yn hytrach na'r ffaith bod cynnwys ac ymgysylltu cymunedol yn ysgogydd craidd y rhaglen. Efallai bod hyn yn adlewyrchu ffocws y gwaith hyd yn hyn, fodd bynnag, a bod cynnwys gwirfoddolwyr a'r gymuned wedi bod yn anodd, os nad yn amhosibl yn ystod rhan fwyaf y flwyddyn o ganlyniad i'r pandemig. O ganlyniad, roedd LNPs yn canolbwyntio ar greu'r lleoedd yn unig, yn hytrach nag ar ymgysylltu gyda'r lleoedd.

3.5 Yn y rhan fwyaf o achosion, nododd cydlynwyr y bu cymunedau yn ymwneud gyda'r broses o gynllunio, datblygu a chyflawni prosiectau. Ar gyfer tua hanner y rhai a gyfwelwyd, mae cynnwys y gymuned yn eu prosiectau yn elfen hanfodol o'u model cyflawni ac yn rhan o gynlluniau cyflawni y prosiect. At hynny, amlinellodd rhai cydlynwyr eu bod wedi cynnal ymgynghoriadau a gweithdai gydag aelodau o'r gymuned leol er mwyn sicrhau bod gweledigaethau a nodau prosiectau wedi cyd-fynd ag anghenion pobl leol.

3.6 Roedd rhan fwyaf y cydlynwyr yr oeddent mewn sefyllfa i wneud sylwadau wedi nodi bod cynnwys cymunedau yn gryfder penodol y model cyflawni hefyd:

> *'Mae cael LNPs yn cyflawni hyn wir yn gweithio, oherwydd ein bod yn adnabod ein cymunedau. Y wers orau fu'r un ynghylch pwysigrwydd cael pobl a sefydliadau y maent yn wybodus iawn am fyd natur lleol, y maent yn gallu bod yn barod i wneud y gwaith.'* **(Cyfweliad gydag Arweinydd Partneriaeth Natur Leol, 2021)**

3.7 Roedd pob LNP yn cytuno bod y rhesymeg a'r angen i greu lleoedd er mwyn cael mynediad i ac ymgysylltu gyda byd natur yn berthnasol o hyd, flwyddyn ar ôl i'r rhaglen gychwyn. Yn wir, roedd nifer yn teimlo, o ganlyniad i'r pandemig a'r cyfyngiadau cysylltiedig ar symud y tu hwnt i'ch ardal leol, bod mwy o gyfiawnhad dros fodolaeth y rhaglen.

---

[9] Maniffesto Arwain y Prif Weinidog 2018

3.8 Her gyffredin i gydlynwyr oedd amddifadedd gymharol y cymunedau y mae LNPs yn gweithio ynddynt, sy'n gallu golygu mewn rhai achosion bod cymunedau yn arbennig o anodd i'w cyrraedd ac ymgysylltu gyda nhw, heb ystyried y pandemig. Neu, efallai nad yw cymunedau yn meddu ar y sgiliau neu'r profiad i ymgysylltu mewn ffordd effeithiol. Os yr olaf, efallai y bydd cydlynwyr yn dymuno archwilio eu dulliau neu hyd yn oed eu ffyrdd o ddatblygu eu dulliau ymgysylltu.

3.9 Roedd hi'n gyffredin i gydlynwyr LNP dybio bod sialensiau ynghylch cael mynediad i fyd natur a'i fwynhau, yn ymwneud gyda ffactorau ymddygiadol neu ddiwylliannol. Roedd diwylliant a hanes o allgáu cymdeithasol yn mynd law yn llaw gydag amddifadedd ehangach a diffyg mynediad i leoedd natur. At hynny, yn enwedig mewn ardaloedd lle y gwelir amddifadedd cymdeithasol, roedd rhai cydlynwyr o'r farn ei bod yn arbennig o anodd annog pobl leol i ymgysylltu gyda byd natur ar eu stepen drws:

> *‘Mae cymunedau* [lleol] *yn teimlo bod pobl wedi anghofio amdanynt, ac mae'r her yn ymwneud yn fwy gyda diffyg cynhwysiant cymdeithasol a'r gallu i gael pobl leol ynghyd i greu rhywbeth y byddant yn falch ohono.’* **(Cyfweliad gyda Chydlynydd Partneriaeth Natur Leol, 2021)**

3.10 Mae'n ymddangos bod y dybiaeth hon yn mynd yn groes i ryw raddau i resymeg yr LPfN, sef y gellir cynnwys cymunedau difreintiedig mewn prosiectau natur. Yn ogystal, mae profiadau cynllun KWT yn awgrymu fel arall a bod modd cynnwys cymunedau difreintiedig (gweler paragraff 5.6). Mae'r farn yn awgrymu ymhellach y bydd cydlynwyr yn dymuno ystyried eu dulliau ymgysylltu efallai, gan geisio rhannu a dysgu arfer da o gynllun KWT hyd yn oed.

3.11 O ganlyniad, awgrymodd cydlynwyr, er ei bod yn beth da bod ganddynt unigolion sydd â phrofiad o fyd natur a bioamrywiaeth, ei bod yn bwysig cynnwys arbenigeddau ehangach hefyd. Y rhai mwyaf defnyddiol ar gyfer yr unigolion hyn a gyfwelwyd oedd unigolion sy'n meddu ar brofiad ac arbenigedd mewn perthynas â datblygiad cymunedol a chynhwysiant cymdeithasol. Barnwyd bod y rhain yn gwneud cyfraniad effeithiol yn ystod y cam cynllunio, gan alluogi partneriaethau i sicrhau bod lleoedd natur priodol yn cael eu datblygu.

3.12 Er hyn, dywedodd rhai cydlynwyr nad yw'r gymuned wedi cael unrhyw gyswllt gyda'r broses o gynllunio eu prosiect, er bod hyn yn bennaf oherwydd y bu hynny'n amhriodol yn ystod dyddiau cynnar gweithredu'r prosiect. Roedd y prosiectau hyn yn tueddu i gynnwys elfen o waith a gontractiwyd yn allanol cyn i'r gwaith gwirfoddol gychwyn.

*Cyfraniad i amcanion strategol ehangach*

3.13 Roedd cydlynwyr yn weddol ymwybodol o ffit strategol ehangach y rhaglen, ac roedd personél rheoli yn arbennig o werthfawrogol o'r aliniad rhwng LPfN ac amcanion presennol a'r rhai sy'n dod i'r amlwg. Roedd y prosiect yn cyd-fynd gyda nodau Deddfau Cenedlaethau'r Dyfodol a'r Amgylchedd,[10] ond hefyd gydag Adferiad Gwyrdd,[11] sef sylfaen dull gweithredu Llywodraeth Cymru ar gyfer adfer yn dilyn y pandemig. Roedd y ffactor olaf yn ategu'r farn bod y pandemig wedi amlygu a chynyddu pwysigrwydd a rhesymeg ymdrechion i ddatblygu lleoedd hygyrch ar gyfer byd natur.

> *'Byddwn i'n dweud mai'r un mwyaf diweddar yw elfen waith yr Adferiad Gwyrdd. Ceir cryn orgyffwrdd yno wrth ddangos sut, mewn gwirionedd, y gall pethau weithio pan fyddwch yn gallu ychwanegu adnoddau i'r amgylchedd a'r sector natur. Mae'n cysylltu gyda* [Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol] *a phethau fel hynny, ond mewn gwirionedd, yr Adferiad Gwyrdd sydd wedi cael cyswllt eithaf cryf gyda syniad y Bartneriaeth Natur Leol, mae'n debyg gen i.'* **(Cyfweliad gyda Rheolwr, 2021)**

3.14 Yn fwy cyffredinol, roedd cydlynwyr yn gwerthfawrogi capasiti LNPs i sicrhau newid, e.e. trwy ddiwygio arferion torri porfa ar draws eu hardaloedd lleol. At ei gilydd, roedd yr LNPs mewn sefyllfa i sicrhau newid ar draws cyfran sylweddol o Gymru hefyd.

*Manteisio ar fyd natur a diffinio ardaloedd*

3.15 Gwelwyd safbwyntiau cymysg ynghylch graddau'r mynediad sydd gan bobl leol i fyd natur, wrth i rai unigolion a gyfwelwyd awgrymu bod y mynediad yn hawdd ac ymatebwyr eraill yn awgrymu bod y sefyllfa yn amrywio o un cymuned i'r llall. Yn ogystal, amlygont y ffaith bod rhai ardaloedd gwledig iawn a rhai ardaloedd trefol ac

[10] Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Deddf yr Amgylchedd
[11] Adferiad Gwyrdd

ardaloedd o gwmpas trefi yn eu rhanbarth nhw. Roedd hi'n amlwg, fodd bynnag, nad yw'r gwaith a gyflawnwyd yn ymwneud gydag ardaloedd trefol/ardaloedd o gwmpas trefi nac ardaloedd heb fynediad i fyd natur yn unig.

3.16 Roedd graddau'r gweithgarwch ymgysylltu gydag ardaloedd trefol, ardaloedd o gwmpas trefi neu ardaloedd heb fynediad i fyd natur yn broblem i reolwyr cynllun yr oeddent eisoes wedi nodi'r potensial i'r cynllun gyfyngu ei ffocws i'r ardaloedd targed. Yn ogystal, roedd camau eisoes yn cael eu cymryd i ymwreiddio'r ffocws yn y dull ar gyfer unrhyw estyniad o'r prosiect yn ystod blwyddyn 2021-2022. Barnwyd hefyd y byddai gwneud hynny yn cyd-fynd gyda'r trywydd strategol ehangach. Yn gyffredinol, mae'n awgrymu cylch gwerthuso mewnol effeithiol ar lefel partner cyflawni, yn ogystal ag ar lefel ganolog o fewn Llywodraeth Cymru:

> *'Roedd y gwaith cyflawni eleni yn ffordd o daflu syniadau am yr hyn y gallai fod yn y dyfodol hefyd. Mae'n siŵr bod rhywfaint o'r ffocws hwnnw wedi cael ei fireinio ymhellach. Flwyddyn nesaf, rhoddir mwy o bwyslais ar ardaloedd lle y gwelir amddifadedd neu ardaloedd trefol neu ardaloedd o gwmpas trefi, a mwy o bwyslais ar fesurau cymedrol y* [Prif Weinidog]. [Byddwn] *yn ei fireinio ymhellach ar gyfer blwyddyn nesaf.'* **(Cyfweliad gyda Rheolwr, 2021)**

3.17 Yn fwy cyffredinol, roedd teimlad y gallai diffinio amgylcheddau trefol ac ardaloedd o gwmpas trefi fel ffocws ar gyfer y prosiect fod yn wendid, a bod cwmpas ac angen i lacio'r diffiniad. Awgrymodd cydlynwyr y dylid ystyried y cyd-destun daearyddol, megis yr ardaloedd byw a theithio ehangach sy'n gysylltiedig gyda phreswylwyr a chymunedau gwledig; mewn geiriau eraill, mae preswylwyr gwledig yn teithio llawer yn bellach, y tu hwnt i ardaloedd difreintiedig diffiniedig, at ddibenion a gwasanaethau pob dydd. Yn ogystal, cyfeiriodd cydlynwyr weithiau at natur fwy gwasgaredig gwahanol ffurfiau o amddifadedd mewn ardaloedd gwledig. O ganlyniad, roedd ardaloedd y byddent yn cael budd sylweddol yn heriol i'w cyfiawnhau yn ôl y diffiniad a'r mesuriadau sy'n gysylltiedig â'r rhaglen. At hynny, awgrymodd cydlynwyr ei bod yr un mor bwysig gwella'r fioamrywiaeth a'r mynediad i fyd natur mewn ardaloedd gwledig.

*Neilltuo cyllid*

3.18 Roedd rhai, yn enwedig personél rheoli cynlluniau, yn teimlo bod y ffaith y caiff rhan fwyaf y cyllid ei neilltuo ar ôl cymeradwyo cynlluniau pwrpasol, yn hytrach nag ar ffurf ymarfer ymgeisio cystadleuol, yn un o gryfderau'r rhaglen. O ganlyniad, gallai cydlynwyr a phartneriaid ganolbwyntio ar ddatblygu cynlluniau yr oeddent yn briodol ar gyfer yr ardal leol yn benodol, yn hytrach nag ar y rhai yr oeddent yn ddeniadol i gyllidwyr ac yn cyd-fynd â meini prawf.

*Dyddiadau cau ac amserlenni*

3.19 Barnwyd bod y dyddiadau cau tynn er mwyn creu cynlluniau wedi rhoi pwysau ar bartneriaethau i ddatblygu a chreu eu cynlluniau gweithredu mewn pryd. Roedd hyn am amrywiaeth o resymau. Yn y rhan fwyaf o achosion, nododd LNPs effaith y pandemig ac ymadawiad y DU o'r Undeb Ewropeaidd ar eu cynlluniau 12-mis. Awgrymont nad oeddent wedi cael fawr iawn o amser i sefydlu eu prosiectau o'r cychwyn cyntaf, a bod y pandemig wedi gwneud hyn yn anos. Roeddent yn dadlau bod hyn yn golygu nad ydynt wedi gallu cyflawni llawer o waith ymgysylltu cymunedol, a manteisio ar wirfoddolwyr i yrru prosiectau yn eu blaen, sy'n bwysig.

3.20 At hynny, mae'r dyddiadau cau tynn er mwyn gwario arian ar waith wedi rhoi pwysau pellach ar gydlynwyr, gyda'r perygl y bydd pobl yn rhuthro i wario (er mwyn gwario) yn agos at ddiwedd y flwyddyn:

> *'Nid yw'r dyddiad cau, sef 31 Mawrth, wedi newid, ac yn fy marn i, nid yw hyn yn adlewyrchu'r oedi sydd wedi codi yn sgil pandemig mewn ffordd deg. Ni chyflawnwyd fawr ddim yn ystod Chwarter 1. Mae chwarteri 2, 3 a 4 yn fwy cymysg. Byddai rhywfaint o hyblygrwydd wedi bod yn braf. Rydw i'n deall bod yn rhaid iddo gael ei ddefnyddio o fewn* [y] *flwyddyn oherwydd y cyllid. Ond byddai* [mwy o hyblygrwydd] *wedi eu rhoi mewn llai o banig tuag at ddiwedd y flwyddyn ynghylch cyflawni. Ceir llawer o bwysau ynghylch gwario arian y prosiect erbyn diwedd mis Mawrth. Mae'n ymwneud â sicrhau'r cydbwysedd gofalus hwnnw rhwng sicrhau eich bod yn gwneud yr hyn sy'n fuddiol i fyd natur, nid ei wario yn unig. Gallai gael ei ystyried yn ymarfer gwario. Nid ydw i'n dweud mai hynny ydyw, ond ceir risg.'* **(Cyfweliad gyda Rheolwr, 2021)**

3.21 Yn y pen draw, roedd y pwysau a'r amserlenni byrion yn golygu y bu'n rhaid i gydlynwyr ddibynnu ar gymorth CGGC wrth iddynt gynllunio a datblygu eu prosiectau:

*'Roedd yn ymddangos bod y rhybudd yn fyr ar gyfer hyn, felly nid oedd llawer o amser i gael y wybodaeth i mewn a bu'n rhaid i ni ruthro'r gwaith cynllunio prosiect, felly roeddem yn chwilio am brosiectau y byddent yn cyd-fynd â'r meini prawf, a byddai hi wedi bod yn dda cael amser i gynllunio. Gan ein bod oll yn amhrofiadol wrth ymateb i'r rhaglen hon, bu meddwl am brosiect a gwneud cais yn dipyn o her. Mae CGGC wedi bod yn wych trwy gydol y broses, ac mae wedi bod o gymorth mawr.'* **(Cyfweliad gydag Arweinydd Partneriaeth Natur Leol, 2021)**

3.22 Nodwyd bod amserlenni byrion yn broblem yn ystod y gwaith cyflawni hefyd. Awgrymodd cydlynwyr nad oedd yr amserlen fer yn gydnaws neu nad oedd y cynllun ar ffurf blwyddyn yn ystyried pa mor hir y mae'n ei gymryd i gymryd camau caffael ar lefel awdurdod lleol:

*'Cael peiriannau neu ganiatâd – aeth y pethau hynny yn eithaf anodd i rai partneriaid. Yn fewnol* [o fewn awdurdodau lleol], *mae rhai o'r prosesau yn cymryd mwy o amser. Gall hyd yn oed caffael peiriannau gymryd amser sylweddol, ac mae contractwyr yn gallu cymryd misoedd* […]*.'* **(Cyfweliad gyda Rheolwr, 2021)**

3.23 Mewn rhai achosion, arweiniodd oedi gyda threfniadau caffael at gyfnodau o sawl mis lle na fu modd i brosiectau symud yn eu blaen. Awgrymodd cydlynwyr LNP bod 12 mis ar gyfer rhaglen natur wastad yn mynd i fod yn her, ac fel yr awgrymwyd gan un swyddog arweiniol, gall gyfyngu ar effaith ystyrlon:

*'Mae'r ffaith bod yn rhaid i'r prosiectau fod yn fyr,* [h.y.] *amserlen o 12 mis, yn wendid mawr. Felly ni ellir cynllunio am brosiectau o faint da ac mae'n rhaid i ni ddewis prosiectau sy'n gallu sicrhau canlyniad yn hawdd. Mae bywyd gwyllt wedi bod yn dirywio ers tua 40-50 o flynyddoedd ac ni fyddwn yn gallu dadwneud hynny gyda phrosiectau byrion.'* **(Cyfweliad gyda Chydlynydd Partneriaeth Natur Leol, 2021)**

3.24 Wrth baratoi cynlluniau ar gyfer yr ail flwyddyn, fodd bynnag, mae'n ymddangos bod mesurau cymedrol y Prif Weinidog wedi helpu i roi ffocws i'w datblygiad, gan angori nifer o gynlluniau ar gyfer y rownd gweithgareddau a gynhelir cyn bo hir:

> *'Mae'r mesurau cymedrol ar gyfer* [2021–2022] *mewn gwirionedd. Mae'r mesurau cymedrol yn eithaf clir, ac maent yn rhestr o bethau penodol y mae gofyn blaenoriaethu'r ffocws arnynt wrth adfer natur a delio gydag asedau cyfalaf, cynyddu peillwyr a phlannu coed, ac ati. Ond yr hyn y mae wedi ei ganiatáu yw pan fydd partneriaid wedi cyflwyno eu cynlluniau ar gyfer y flwyddyn nesaf, mae wedi rhoi ffocws iddynt er mwyn sicrhau bod o leiaf un elfen wedi cael ei hymwreiddio yn eu gwaith.'* **(Cyfweliad gyda Rheolwr, 2021)**

*Risg yn y tymor hir*

3.25 Nodwyd un mater allweddol gan gyfranogwyr mewn perthynas â'r cynllun a'r model cyflawni. Ariannir yr LNPs a'r staff cysylltiedig gan Lywodraeth Cymru a CGGC am gyfnod o dair blynedd, a darparir cyllid LPfN yn ychwanegol i'r cyllid craidd ar gyfer gweithgareddau penodol. Er bod blwyddyn arddangos gyfredol LPfN yn dod o fewn oes LNPs, mae capasiti a bodolaeth y partneriaethau dros y tymor hwy yn ddibynnol ar gyllid ehangach – a Llywodraeth Cymru hefyd – yn cael ei gynnal. Mae risg posibl a nodwyd yn bodoli wrth barhau i gyflawni trwy'r LNPs os na fydd y cyllid ehangach yn parhau:

> *'Fel yr wyf i'n deall, y syniad yw ei gadw fel model treigl blynyddol. Ond y broblem gyda hynny yw ei fod yn ddibynnol iawn ar y ffaith bod* [cydlynwyr LNP] *yn eu swyddi. Ni fyddai un yn digwydd heb i'r llall fod yn ei le.'* **(Cyfweliad gyda Rheolwr, 2021)**

*Cryfderau pellach*

3.26 Gan fyfyrio am gyflawniad y prosiect, y prif gryfderau a nodwyd gan gydlynwyr oedd bod y cyllid yn hawdd manteisio arno a bod prosiectau wedi cael eu sefydlu mewn ffordd glir ac effeithiol, a fu'n gyfle i ddatblygu cynlluniau neu weledigaethau yr oeddent yn bodoli eisoes, na fu ganddynt y capasiti i'w cyflawni yn flaenorol.

*Gwendidau a sialensiau pellach*

3.27 Fel y nodwyd yn flaenorol, mae'r sialensiau a wynebwyd wedi cyfyngu graddau'r gwaith cyflawni. Yn fwyaf nodedig, roedd y rhain yn ymwneud ag anawsterau gweithgarwch ymgysylltu gyda gwirfoddolwyr a'r gymuned, os nad ei atal, yn ogystal â'r oedi a ddaeth yn sgil ymadawiad y DU o'r Undeb Ewropeaidd, y pandemig, a materion mewnol sy'n ymwneud â chaffael o fewn awdurdodau lleol.

3.28 Adroddodd rhai cydlynwyr y bu'n rhaid iddynt ofyn i staff ehangach yr awdurdod lleol gymryd rhan yn y prosiectau, hyd yn oed os nad oeddent yn staff LNP. Awgrymodd y cydlynwyr hyn y byddai modd gwneud mwy i gynnwys aelodau o staff uwch mewn awdurdodau lleol er mwyn cael cyswllt gwell gyda blaenoriaethau a gwaith ehangach ar draws yr awdurdodau a chyflymu materion caffael a chyflawni.

3.28 Dechreuodd rhai LNPs weithio heb gydlynydd yn y swydd, a arweiniodd at oedi wrth ddechrau ar y gwaith cyflawni yn ei dro.

3.30 Yn y cyfamser, honnwyd bod y pandemig wedi arwain at gyfnodau lle'r oedd staff allweddol, partneriaid neu bersonél cyflawni ar ffyrlo, gan ychwanegu ymhellach at yr oedi.

3.31 Honnodd cydlynwyr a staff rheoli y bu'r methiant i brynu tir yn wendid. Byddai gallu prynu tir nas defnyddir neu dir segur yn galluogi'r LNPs i ehangu eu gweithrediadau, creu asedau newydd a gwneud gwahaniaeth amlwg mewn rhai cymunedau:

> *'A ydynt yn gallu gweithio ar dir preifat neu brynu tir? Mae'r rhain yn bethau y byddai nifer fawr o LNPs yn dymuno eu gwneud, ond ar hyn o bryd, ni chânt eu hystyried yn bethau ffafriol* [...]. *Maent yn teimlo mai tir segur yn bennaf fyddai'n ffordd ddelfrydol o greu ased naturiol newydd, a'i drawsnewid yn rhywbeth da iawn. Ond mae'r syniad o brynu tir, wel, ceir rhai rhwystrau ynghylch hynny o fewn Llywodraeth Cymru. Rydw i'n gwybod bod ein cyswllt ni gyda'r rhaglen yn ceisio lleihau hynny rhyw ychydig.'* **(Cyfweliad gyda Rheolwr, 2021)**

3.32 Gwelwyd consensws ynghylch y ffaith mai effaith y pandemig ar y cyfan fu oedi wrth gaffael, cyfyngu ar wirfoddoli, rhoi personél ar ffyrlo, ac ychwanegu i lwyth y gwaith i'w gwblhau gan gontractwyr, gan arwain at oedi yn y gwaith a gaiff ei gaffael o ganlyniad.

**Effaith**

3.33 Barnwyd bod dangos tystiolaeth o greu lleoedd ar gyfer natur yn gymharol syml, a'i fod yn cael ei gyflawni'n bennaf trwy gyfrwng y prosesau monitro a gwerthuso sydd eisoes mewn grym. Barnwyd bod mesur yr effaith ar gymunedau, fodd bynnag, yn fwy heriol i rai cydlynwyr.

3.34 Yn wir, nododd mwyafrif helaeth y cydlynwyr (yr oeddent yn teimlo'u bod yn gallu mynegi sylwadau) bod rhaglen LPfN wedi helpu i greu 'natur ar eich stepen drws' mewn ardaloedd trefol ac ardaloedd o gwmpas trefi. Yn y rhan fwyaf o achosion, dangoswyd tystiolaeth o hyn gan gydlynwyr wrth iddynt gyfeirio at y lleoedd ffisegol sydd wedi cael eu creu a'u hadfywiogi neu y byddant yn cael eu creu a'u hadfywiogi o ganlyniad i'w prosiectau. Mae'r data ynghylch allbynnau rheoli yn yr adroddiad hwn yn cefnogi'r gred hon.

3.35 Fel un o nodau allweddol y rhaglen, mae hyn yn awgrymu, er gwaethaf y sialensiau a'r rhwystrau a wynebwyd dros y 12 mis diwethaf, bod LNPs wedi gallu cymryd camau cadarnhaol tuag at gynyddu bioamrywiaeth yn eu hardaloedd lleol.

3.36 Fodd bynnag, ar yr adeg hon yn ystod y gwaith o gyflawni'r prosiectau, nid oedd unrhyw gydlynwyr yn gallu nodi a dangos tystiolaeth o effeithiau cymunedol gwirioneddol sydd wedi digwydd o ganlyniad i raglen LPfN. Er hyn, roedd nifer yn hyderus y byddai effeithiau amlwg a'i bod yn rhy gynnar iddynt allu dweud a/neu fesur y rhain.

3.37 Amlinellodd rhai cydlynwyr ddulliau yr oeddent yn rhagweld y byddent yn mesur effaith y prosiect ar gymunedau. Roedd y rhain yn ymwneud yn bennaf ag adborth ansoddol trwy gyfrwng astudiaethau achos, arolygon, a gweithgarwch ymgysylltu pellach gyda gwirfoddolwyr a chymunedau. Er hyn, nododd rhai cydlynwyr nad ydynt wedi mesur effaith y prosiect ar gymunedau, ac nad ydynt yn rhagweld y byddant yn ei fesur.

3.38 Erbyn diwedd y flwyddyn gyntaf (Mawrth 2021), roedd staff rheoli yn teimlo y byddent mewn sefyllfa well i ddarparu tystiolaeth neu gasglu data a fydd yn dynodi effaith y rhaglen:

> *'Byddwn yn paratoi ein hadroddiad diwedd blwyddyn dros y misoedd nesaf ac yn cael ein crynodeb a'n cronfa ddata asedau hefyd. Bydd gennym fwy o wybodaeth ar yr adeg honno am union fanylion yr hyn a ddefnyddiwyd. Bydd hynny yn gwella yn* [2021–2022] *fel mesur allbwn.'* **(Cyfweliad gyda Rheolwr, 2021)**

3.39 Fodd bynnag, mae'n ymddangos bod diffyg eglurder a chanllawiau ymddangosiadol ynghylch y mesurau effaith wedi cyfyngu ar weithgarwch ymgysylltu LNPs gyda'r dasg o ddangos tystiolaeth o'u heffaith. Awgrymodd rhai cydlynwyr y gallai eu gofynion adrodd fod yn fwy penodol ac y gallent gynorthwyo'r dasg o ddarparu tystiolaeth o'r effaith. Yn ogystal, awgrymodd staff rheoli bod y mesurau effaith priodol wedi dod yn fwy clir yn ystod y flwyddyn gyntaf ac o ganlyniad i ddysgu a gwybodaeth a gasglwyd trwy brofiad:

> *'Am gryn dipyn o'r amser gan* [Lywodraeth Cymru], *roedd y mesur allbwn yn* [2020-2021] *ychydig yn aneglur. Nid oedd wastad yn glir iawn. Roeddent yn gwybod beth oedd y cynlluniau a'r hyn fyddai'r allbwn, ond nid yr hyn a fyddai'r mesur o anghenraid. Ychwanegwyd rhai pethau, ond nid o ddechrau'r rhaglen.'* **(Cyfweliad gyda Rheolwr, 2021)**

**Rheolaeth**

3.40 Roedd cydlynwyr LNP yn gwerthfawrogi cymorth CGGC a diddordeb Llywodraeth Cymru yn yr agweddau gweithredol. Awgrymodd y cydlynwyr a staff rheoli bod y berthynas waith gref ac agos gyda staff rheoli perthnasol Llywodraeth Cymru wedi cyfrannu at gylch gwerthuso mewnol effeithiol, lle y cynigiwyd adborth, gwrandawyd arno a gweithredwyd yn ei gylch:

> *'O bersbectif partneriaeth, roeddent oll yn teimlo bod Llywodraeth Cymru wedi gwrando'n dda arnynt. Mae ein prif gyswllt gyda'r rhaglen honno* [wedi bod] *yn wych ac yn ased go iawn, mi dybiwn i, gan wir ystyried yr adborth hwnnw, a heb y berthynas honno, ni fyddem wedi gallu mireinio pethau fel yr ydym wedi'i wneud.'* **(Cyfweliad gyda Rheolwr, 2021)**

3.41 Yn wir, mae'r gwerth a roddir ar y staff rheoli yn Llywodraeth Cymru yn ymddangos yn rhywbeth arbennig o werthfawr, yn ogystal â bod yn allweddol er mwyn sicrhau bod y rhaglen arddangos yn cael ei datblygu mewn ffordd briodol mewn perthynas â'r profiadau ar lawr gwlad. Mae risg yn dod i'r amlwg o ganlyniad, fodd bynnag, pe byddai aelodau o staff allweddol yn symud swydd ac yn torri eu cyswllt gyda'r rhaglen a'u mewnbwn iddi.

3.42 Er y bu'r pandemig yn her sylweddol wrth geisio cyflawni, er hyn, mae wedi galluogi'r rheolwyr a'r staff cyflawni i gyfarfod yn rheolaidd a chyfrannu at gylch adborth a gwerthuso mewnol rheolaidd ac effeithiol:

*'Er bod* [COVID-19] *wedi gwneud pethau'n anodd, mae rhai o'r manteision o ddefnyddio technoleg ar-lein* [yn cynnwys] *ein bod wedi gallu cyfarfod fel partneriaeth lawer yn fwy rheolaidd nag y byddem fel arfer. Rydym wedi bod yn cyfarfod bob wythnos ac yn cael trafodaeth reolaidd gyda phawb, ac mae* [Llywodraeth Cymru] *wedi bod yn agored iawn, gan fod yn bresennol yn y cyfarfodydd hynny a chyfleu gwybodaeth am y ffordd y gallai'r cyllid hwnnw edrych.'* **(Cyfweliad gyda Rheolwr, 2021)**

**Cynaliadwyedd ar ôl y Cyllid**

3.43 Dywedodd pob cydlynydd (yr oeddent yn teimlo y gallent wneud sylwadau) y bydd gweithgareddau LPfN yn cael eu cynnal mewn rhyw ffordd ar ôl i'r cyllid orffen. Awgrymodd y mwyafrif y caiff yr holl weithgareddau eu cynnal, ac awgrymodd rhai mai dim ond elfennau allweddol fydd yn cael eu cynnal. Yn y rhan fwyaf o achosion, gan bod prosiectau yn cael eu cyflawni gan yr awdurdod lleol a/neu eu bod yn cynnwys mannau cyhoeddus, nododd cydlynwyr y byddai'r prosiectau hyn yn cael eu hymwreiddio o fewn arfer gwaith gwasanaethau lleol; er enghraifft, bydd timau cynnal a chadw Parc Cenedlaethol yn parhau i weithredu a chynnal arferion a lleoedd os bydd cyllid ychwanegol yn cael ei roi neu beidio. Rhagwelwyd hyn wrth gynllunio'r rhaglen.

3.44 Nododd rhai cydlynwyr hefyd bod eu prosiectau yn cael eu cyflawni gan grwpiau lleol o wirfoddolwyr, yr oeddent yn gyfrifol am ac wedi ymrwymo i barhad a chynaladwyedd y gweithgareddau a'r lleoedd hefyd. Roedd y dulliau olaf hyn wedi cynnwys y trosglwyddiad yn eu cynlluniau o'r cychwyn.

*'Bwriedir i'r holl weithgareddau gael eu cynnal* [ar ôl y cyllid] *gan y grwpiau a fu'n eu gweithredu, y mae ganddynt wirfoddolwyr yn barod.'* **(Cyfweliad gydag Arweinydd Partneriaeth Natur Leol, 2021)**

3.45 Nid yw hi'n glir ar yr adeg hon, fodd bynnag, pa effaith y gallai'r pandemig fod wedi'i chael ar wirfoddoli lleol a'r cyswllt gyda phrosiectau nad ydynt wedi gallu ymgysylltu gyda'u cymunedau o wirfoddolwyr. Mae'r risg yn bodoli, felly, y gallai'r pandemig fod wedi bod yn rhy heriol i'r grwpiau sy'n gyfrifol am gynnal y gweithgareddau a'r lleoedd, neu y gallai'r gwaith o wneud hynny fod yn ormod o faich nawr. Gallai'r rhagolygon o gael mesurau rheoli estynedig ar gyfer y pandemig beryglu capasiti grwpiau gwirfoddolwyr ymhellach i gynorthwyo a chynnal y gweithgareddau a'r lleoedd dros y tymor canolig neu'r tymor hir. Efallai y bydd gofyn i'r grwpiau hyn

gael cymorth pellach er mwyn cynnal cyflawniadau'r prosiectau a'u heffaith yn y dyfodol.

3.46 Er hyn, nododd nifer o gydlynwyr, er bod prosiectau yn gynaliadwy i ryw raddau, bod angen parhaus i LPfN gynorthwyo LNPs hefyd. Deallwyd bod parhau'r cymorth yn fecanwaith da er mwyn gallu creu asedau, bod prosiectau yn gallu cynnal momentwm a bod modd cynorthwyo cymunedau, a deallwyd bod 'natur ar eich stepen drws' yn parhau i fod yn flaenoriaeth amlwg i awdurdodau lleol.

3.47 Roedd y diffyg eglurder ynghylch y cymorth ariannol ehangach ar gyfer yr LNPs a'r cydlynwyr yn rhwystr allweddol sy'n atal cynllunio ar gyfer y tymor hir:

> *'Nid oes gennyf unrhyw gynlluniau uniongyrchol am hynny gan fy mod yn gwybod ei fod yn gysylltiedig gydag adnodd cydlynwyr. Os bydd hwnnw'n dod i ben, nid ydw i'n siŵr pwy fyddai'n medru ymgymryd â hyn o fewn awdurdod lleol neu Barc Cenedlaethol, gan eu bod eisoes wedi'u llethu (yn ôl pob golwg). Nid ydw i'n siŵr sut y byddai modd ymgymryd â'r gwaith hwn. Efallai yr oedd gan rai* [awdurdodau lleol] *yr adnodd ta beth? Ond mae'r* [cyllid ehangach hwnnw ar gyfer LNPs] *wedi creu'r swydd honno er mwyn canolbwyntio ar y math hwn o waith. Mae'n eithaf allweddol bod yr adnodd hwnnw yn cael ei gadw yn ei le (o'n safbwynt ni).'* **(Cyfweliad gyda Rheolwr, 2021)**

3.48 Yn olaf, a chan ystyried datblygiadau posibl yn y dyfodol, yn ogystal â chynnal yr effaith y tu hwnt i oes y rhaglen, awgrymodd staff rheoli y byddai dwyn partneriaid ehangach i mewn er mwyn cynorthwyo'r ddarpariaeth yn cynnig amrediad o fuddion:

> '[Hoffwn fod yn eu hannog] *nhw i weithio'n fwy gyda phartneriaid. Oherwydd yr amserlenni, nid oeddent wastad yn gallu gwneud hynny. Byddai hynny'n dwyn syniadau newydd. Byddech yn cael mwy a gwahanol amrywiaeth o ran y ffyrdd o'i ystyried.'* **(Cyfweliad gyda Rheolwr, 2021)**

## 4. Canfyddiadau: Grantiau Cyfalaf Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol

*Disgrifiad*

4.1 Mae cynllun grantiau cyfalaf NLHF (£2.3m at ei gilydd) yn cynnig hyd at flwyddyn o gyllid ar ffurf grant ar gyfer prosiectau natur (sy'n werth hyd at £50,000, er y bydd y cynllun yn ystyried prosiectau sy'n werth hyd at £100,000). Mae'n grant cyfalaf y gellir ei wario ar eitemau megis:

- prynu coed, llwyni a phlanhigion eraill brodorol er mwyn creu Lleoedd Lleol ar gyfer Natur.
- prynu offer er mwyn adfer a gwella natur. Mae'r gwariant cyfalaf yn cynnwys hyfforddiant ynghylch defnyddio'r peiriannau a phrynu tanwydd i'w ddefnyddio yn ystod y prosiect hefyd.
- Paratoi safle, megis gwaredu strwythurau o waith dyn er mwyn creu lleoedd ar gyfer natur, gan greu ffensys newydd (ond nid disodli hen ffensys) a llwybrau hygyrch er mwyn diogelu natur, a gwaredu rhywogaethau ymledol.
- prynu tir er mwyn creu mannau ar gyfer natur a lleoedd gwyrdd hygyrch.
- cynllunio prosiect, caffael a rheoli costau ariannol y prosiect er mwyn dwyn yr ased cyfalaf i fodolaeth (hyd at 10 y cant o gyfanswm y gronfa); neu
- gost llafur sydd ynghlwm wrth unrhyw weithgareddau sy'n ymwneud gyda chreu'r ased naturiol.

Nid yw'r prosiectau hyn yn rhan o'r LNPs, ac nid ydynt wedi cael eu diffinio ymlaen llaw ychwaith. Yn wir, mae'r broses ymgeisio yn golygu dilyn proses o ddatblygu cynllun pwrpasol ar gyfer pob ardal/gweithrediad fel arfer. Mae Atodiad B yn cyflwyno crynodeb o brosiectau grantiau cyfalaf NLHF a gymeradwywyd.

4.2 Dechreuodd y cynllun grantiau cyfalaf dderbyn a chymeradwyo ceisiadau ym mis Gorffennaf 2020. O ganlyniad, mae'n dilyn gwahanol amserlen i'r ddau gynllun arall; mewn geiriau eraill, ni chaiff blwyddyn lawn gyntaf y gweithrediad ei gwblhau tan fis Gorffennaf 2021. O fis Chwefror 2021, roedd cynllun grantiau cyfalaf NLHF wedi cael 31 o geisiadau ac roedd wedi cymeradwyo 27, gan gymeradwyo gwerth £1,009,158 a 42 y cant o'r gronfa gyfan gwbl.

*Cyfansoddiad deiliaid grantiau*

4.3 Roedd tua hanner y deiliaid grantiau yn gynghorau tref neu gymuned. Awgrymodd staff rheoli bod y rhain yn ymgeiswyr addas iawn, gan eu bod yn credu bod ganddynt yr adnodd, trwy gyfrwng clercod, i weinyddu a rheoli'r grant. Yn ogystal, barnwyd bod cynghorau tref a chymuned yn arbennig o effeithiol wrth ymgysylltu gyda chymunedau lleol ac ennyn diddordeb a chefnogaeth ar lefel leol. Roedd staff rheoli yn cyferbynnu effeithiolrwydd cynghorau tref a chymuned wrth ymgysylltu gyda a chynnwys cymunedau lleol mewn penderfyniadau, gyda'r duedd i gynghorau sir gyfuno gweithgarwch ymgysylltu ac ymgynghori ar ôl y caiff penderfyniadau eu gwneud. Ym marn y staff rheoli, nid oedd y dull olaf yn bodloni eu dehongliad nhw o'r angen i gynnwys cymunedau lleol:

> *'Mae nifer fawr wedi darganfod ffyrdd* [o ymgysylltu gyda'r gymuned] *trwy ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol a defnyddio cyfarfodydd cyhoeddus dros Zoom. Nid yw'n wych, ond un o'r meini prawf yr ydym yn ei ddefnyddio mewn ceisiadau yw "sut" y maent wedi cynnwys y gymuned wrth gynllunio, nid* [a ydynt "wedi"] *ymgynghori. Credaf bod yr awdurdodau tref neu gymuned yn dda iawn, ond nid yw'r awdurdodau sirol yn dda. Yn fy marn i, dyma pam nad ydym wedi gweld llawer ganddynt – nid ydynt yn dda wrth gynnwys y gymuned. Gallant ymgynghori am benderfyniad. Ymgynghori ac ymgysylltu – mae rhai* [awdurdodau lleol] *yn ei chael hi'n anodd gweld y gwahaniaeth.'* **(Cyfweliad gyda Rheolwr, 2021)**

4.4 Yn ogystal, barnwyd bod sefydliadau o faint canolig neu fawr o'r trydydd sector, y maent fel arfer yn gysylltiedig gyda phrosiectau natur a chymunedol ar raddfa y byddai modd i'r grant eu hariannu, yn ymatal rhag ymgysylltu. Credwyd bod hyn yn bennaf o ganlyniad i'r ffaith na ellir adfer cost lawn y prosiect:

> *'Ni chaniateir i* [sefydliadau] *trydydd sector hawlio'r gost yn llawn ac mae hyn yn rhywbeth sy'n llesteirio sefydliadau mawr neu* [ganolig] *yn fawr, gan na allant dalu eu holl gostau wrth gyflawni prosiectau. I bob pwrpas, mae Llywodraeth Cymru yn gofyn iddynt roi cymhorthdal i'r rhaglen. O ganlyniad, nid ydym wedi gweld ceisiadau gan* [Y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar]*, Big Life, a'u tebyg. Gallwch gael rhai costau staffio ond mae'r costau'n llawer uwch na hynny – mae hynny'n rhwystr sy'n atal sefydliadau rhag cymryd rhan.'* **(Cyfweliad gyda Rheolwr, 2021)**

*Lleoedd i fanteisio ar a mwynhau natur*

4.5 Yn gyffredinol, roedd ymgeiswyr am grantiau cyfalaf o'r farn nad oedd yr ardaloedd yr oeddent yn cael eu datblygu trwy'r rhaglen yn lleoedd arbennig o ddifreintiedig er mwyn manteisio ar natur a'i fwynhau. Hyd yn oed os nad oedd y lle dan sylw yn hygyrch neu wedi cael ei ddatblygu fel lle natur, roedd hi'n gyffredin gweld ardaloedd gerllaw yr oedd modd cael mynediad iddynt:

> *'Mae'n hynod o hawdd yma. Yn gorfforol, mae'n eithaf hawdd yn* [golygwyd] *a* [golygwyd]*. I mi, mae natur yn bopeth bach, felly mae'n dibynnu ar eich diffiniad o natur, ond ceir llawer o natur hygyrch.'* **(Cyfweliad Grantiau Cyfalaf, 2021)**

4.6 Nododd staff rheoli bod eu diffiniadau o ardaloedd trefol ac ardaloedd o gwmpas trefi, yn ogystal ag amddifadedd, yn gymharol hyblyg. Yn aml, roedd y grwpiau neu'r cymunedau penodol o bobl yr oeddent yn cael eu targedu gan yr ymyrraeth yn ffactor a allai ddylanwadu ar benderfyniad i gymeradwyo cynnig, beth bynnag fo ei leoliad arfaethedig:

> *'Mae gennym ryw ychydig o sbin ar* [trefol/ardaloedd o gwmpas trefi]. *Ydym, rydym yn targedu'r ardaloedd hynny, ond nid yw rhai prosiectau mewn ardaloedd lle y gwelir amddifadedd trefol. Felly, er enghraifft, mae Mind Dyffryn Clwyd wedi cael caniatâd i gael gardd gymunedol ar safle canolfan gymunedol. Nid yw mewn ardal lle y gwelir amddifadedd ond, oherwydd y caiff ei defnyddio ar gyfer pryderon iechyd meddwl, rydym wedi ei chaniatáu,* [yn ogystal ag] *yng Nghriccieth (gydag ynysigrwydd cymdeithasol a phobl hŷn).'* **(Cyfweliad gyda Rheolwr, 2021)**

*Rhesymeg a ffit strategol*

4.7 I'r deiliaid grantiau, y rhesymeg a oedd yn gyrru'r rhaglen oedd creu rhagor o leoedd er mwyn cynorthwyo bioamrywiaeth, a chysylltu'r lleoedd hynny gyda'r gymuned. Ond roedd y prosiectau'n rhan o brif gynllun ehangach fel arfer. Mae hyn yn debygol o fod yn adlewyrchiad o'r prosiectau unigol, gyda'r mwyafrif yn rhan o brif gynllun ehangach. Yn aml, roedd y cyllid yn cynorthwyo cyfnod cychwynnol o ymgysylltu a gwella lleoedd, ond byddai'n cael ei ddilyn yn ddiweddarach gan weithgarwch ymgysylltu gyda'r gymuned mewn perthynas â chynnal a chadw'r lleoedd a'r defnydd a wneir ohonynt. Roedd un prosiect, er enghraifft, yn golygu contractio cwmni i baratoi rhandiroedd a phrynu offer. Ar ôl i'r gwaith a'r grant ddod i ben, byddai'r grŵp yn symud ymlaen i ymgysylltu gyda'r gymuned.

4.8 Dim ond un deiliad grant oedd yn ystyried bod cynnwys y gymuned yn y gwaith sy'n gysylltiedig â'r grant ei hun yn elfen allweddol. Roedd hyn yn adlewyrchiad o'r prosiect penodol dan sylw hefyd, a oedd yn ceisio denu ysgolion cyfagos i fod yn rhan o'r gwaith o gynnal a chadw y safle. Roedd y prosiect hwn eisoes wedi ymgysylltu â'r gymuned ac wedi ei chynnwys yn y cam o gynllunio'r prosiect:

> *'Rydw i'n teimlo'n arbennig o angerddol ynghylch cynnwys y gymuned, yn yr un modd ag y mae'r pwyllgor amgylcheddol a lles* [h.y. deiliad y grant]*. Rydym yn dymuno cael safle tyfu cymunedol* […] *byddwn yn rhoi'r cyfle i blant ysgol dyfu eu bwyd eu hunain. Nid yw'n ymwneud â gwneud gwaith uniongyrchol gyda'r adferiad – mae'n ymwneud â chydnabod y gwerth cymdeithasol i'r bobl leol. Gall fod yn agoriad er mwyn tanio brwdfrydedd ynghylch yr amgylchedd a bywyd gwyllt.'* **(Cyfweliad Grantiau Cyfalaf, 2021)**

4.9 I rai deiliaid grant, yn enwedig cynghorau tref a chymuned, roedd y fframwaith deddfwriaethol cenedlaethol ynghylch bioamrywiaeth a lles yn ffactor allweddol yn eu rhesymeg dros ymgysylltu â'r rhaglen:

> '[Mae Llywodraeth Cymru] *yn mynnu bod gan yr holl gynghorau cymuned gynllun bioamrywiaeth mewn grym. Fel rhan o'n camau gweithredu, bydd grant Lleoedd Lleol ar gyfer Natur yn helpu gyda'n cynllun bioamrywiaeth yn fawr. Ceir lefel uchel o dlodi, diweithdra ac afiechyd* [yn yr ardal hefyd], *felly mae cyfle i wirfoddoli ac uwchsgilio. Bydd y grant hwn yn ein galluogi i wneud hynny* […]. [Mae COVID-19 wedi] *pwysleisio'r angen am hyn* [a] *bron wedi ychwanegu ail haen; mae pobl hyd yn oed yn fwy ymwybodol o ba mor bwysig yw'r pethau hyn, gyda thwf amgylcheddol* [Llywodraeth Cymru] *a dymuniad y* [Prif Weinidog] *ynghylch natur.'* **(Cyfweliad Grantiau Cyfalaf, 2021)**

4.10 Yn ogystal, ym marn nifer o'r deiliaid grant, mae'n ymddangos bod effaith y pandemig ar unigolion a chymunedau wedi gwneud y prosiect yn un mwy perthnasol fyth. Credir bod y galw am leoedd natur awyr agored i'w mwynhau wedi cynyddu o ganlyniad i'r cyfnod clo, neu o leiaf yn ystod y cyfnod clo. At hynny, mae'n ymddangos bod y prosiect yn cyd-fynd yn dda gyda llwybr Llywodraeth Cymru ar gyfer adfer yn dilyn COVID-19:

> *'Mae'r mesurau cymedrol yn rhan o'r rhaglen, ac mae'n cyd-fynd gyda Choetiroedd Cymunedol* [prosiect ar wahân]*. Ond o ganlyniad i'r pandemig, ceir yr Adferiad Gwyrdd a rhwydweithiau natur, ac maent yn cyd-fynd â hi.'*
> **(Cyfweliad gyda Rheolwr, 2021)**

4.11 Nododd staff rheoli hefyd bod y cynllun yn cyd-fynd yn arbennig o dda gyda menter Coetiroedd Cymunedol, sy'n cynnig grantiau tebyg er mwyn datblygu coetiroedd. Yn wir, roedd hi'n brofiad cyffredin gweld ymgeiswyr i'r naill brosiect yn cael eu hargymell i'r llall, ac er bod hyn yn gorgyffwrdd rhyw ychydig, barnwyd ei fod yn gryfder a oedd yn sicrhau y byddai modd i unrhyw ailddatblygiad ar raddfa fach neu ganolig neu ymgais i ailosod diben lle ar gyfer byd natur, gael eu cynnwys yn y naill brosiect neu'r llall:

> *'Mewn gwirionedd, mae'n ei gwneud yn haws i ni ddweud wrth brosiectau Coetiroedd Cymunedol i fynd am Leoedd Lleol ar gyfer Natur, neu i'r gwrthwyneb, gan ddibynnu ar yr hyn y maent yn ei blannu. Os ydynt yn mynd am nifer fawr o goed, gallwn ddweud wrthynt i* [fynd am] *Goetiroedd Cymunedol. Os mai ambell i goeden sydd yn y cais, gallwn ddweud wrthynt i* [fynd am] *Leoedd Lleol ar gyfer Natur.'* **(Cyfweliad gyda Rheolwr, 2021)**

4.12 Yn olaf, roedd staff rheoli yn teimlo bod elfennau amrywiol rhaglen LPfN yn cyd-fynd â'i gilydd ac yn annog ymgysylltu parhaus gan grwpiau:

> *'Mae'n beth da ar gyfer grwpiau llai bod popeth yn cael ei ddarparu ar eu cyfer* [trwy gyfrwng pecynnau rhagdaledig KWT]*. Mae hynny'n dda oherwydd ein bod yn dechrau gweld bod sefydliadau sydd wedi mynd trwy'r cam hwnnw yn barod i ddod atom ni i gymryd y darn nesaf o waith. Mae'n meithrin eu sgiliau a'u galluoedd i ddarparu prosiectau amgylcheddol* […]*. Dros yr wythnosau diwethaf, rydym wedi cael ambell un o'r sefydliadau hyn yn gwneud ymholiadau* [am grant Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol]. *Yn ogystal, rydym wedi cyflawni darn o waith yn uniongyrchol gyda Chadwch Gymru'n Daclus er mwyn rhoi proc i'r sefydliadau hynny a dweud wrthynt: "Gallwch chi wneud hyn nawr." Rydym yn dechrau gweld rhywfaint o symudiad yno.'* **(Cyfweliad gyda Rheolwr, 2021)**

*Cynllunio ac ymgeisio*

4.13 Roedd y deiliaid grant a gyfwelwyd yn aml yn brofiadol wrth nodi cyllid ar ffurf grantiau ac ymgeisio amdanynt. Roedd nifer ohonynt yn gynghorau tref a chymuned hefyd ac o ganlyniad, roeddent yn meddu ar adnoddau da er mwyn gwneud hynny ac roeddent yn gysylltiedig gyda rhwydweithiau sy'n rhannu gwybodaeth ynghylch cyfleoedd cyllido sy'n dod i'r amlwg. Nodwyd hefyd bod staff rheoli Llywodraeth Cymru wedi bod yn rhagweithiol wrth hyrwyddo'r grant ac fe'u nodwyd mewn o leiaf un achos fel rhai allweddol wrth godi ymwybyddiaeth o'r grant ac annog cais.

4.14 Mynegwyd rhai pryderon ynghylch y broses gynllunio ac ymgeisio. Ystyriwyd bod yr hyblygrwydd sy'n rhan annatod o'r cynllun, ac sy'n caniatáu i brosiectau gael eu datblygu gyda lleoedd penodol a chynlluniau ehangach mewn golwg, yn gryfder allweddol. Fel y nodwyd, roedd nifer o brosiectau grant yn cyfrannu agweddau at ymdrechion ehangach i adfywio, ailddatblygu neu wella lle penodol mewn gwirionedd. Roedd y grant yn galluogi cyflawniad gwaith allweddol neu brynu offer er mwyn galluogi'r grwpiau symud ymlaen i ymgysylltu'r gymuned:

> *'I fod yn onest, o ran cryfder, mae'n braf ac yn amrywiol. Er mai cronfa dreftadaeth ydyw, mae'n cynnwys sawl cangen ac roedd y broses ymgeisio yn hawdd hyd at ryw fan. Nid oedd mor llym fel na fyddech yn gallu cynnwys nifer o feysydd pwnc o fewn y grant hwnnw.'* **(Cyfweliad Grantiau Cyfalaf, 2021)**

4.15 Canmolwyd y cymorth a gynigiwyd gan y swyddog NLHF cyn y cam ymgeisio yn eang, a nodwyd ei fod yn ffactor hwyluso allweddol. Awgrymodd y staff rheoli eu hunain bod hwn yn ddull bwriadol gan y tîm er mwyn ymgysylltu gyda darpar ymgeiswyr yn gynnar, gan eu cynghori a'u cynorthwyo yn y ffordd orau y gallent cyn y cam ymgeisio, yn ogystal â chodi ymwybyddiaeth o elfennau penodol proses gyllido NLHF:

> *'Byddwn yn dweud* [o ran] *y cymorth gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol,* [bod y rheolwr] *o gymorth mawr ac yn llwyr ddeall y problemau yr ydym yn eu hwynebu.* [Gydag] *unrhyw broblemau, gall fod o gymorth mawr.'*
> **(Cyfweliad Grantiau Cyfalaf, 2021)**

4.16 Er bod y gweithgarwch ymgysylltu gyda chymunedau lleol yn agwedd angenrheidiol ar y broses ymgeisio, ac yn agwedd a oedd yn cael ei dathlu, roedd y gweithgarwch ymgysylltu wedi cael ei gyfyngu gan natur dechnegol nifer o'r gweithgareddau a gefnogwyd gan y grant mewn gwirionedd. Fodd bynnag, trwy fod yn rhan o brif gynlluniau ehangach ar gyfer yr ardaloedd mewn sawl achos, roedd cymunedau lleol mewn sefyllfa i gyfrannu mewn ffordd adeiladol at rai agweddau ar y broses gynllunio. Fel y nodwyd yn flaenorol, ystyriwyd bod cynghorau tref a chymuned mewn sefyllfa well na darpar ymgeiswyr eraill i arwain ymarferion ymgysylltu effeithiol:

> *'Fi a chadeirydd y pwyllgor a'r ymgynghorydd ecolegol ac ambell i aelod arall o'r grŵp sydd â phrofiad aeth ati i lunio'r cynllun mewn gwirionedd. Maent yn cael eu hannog i ymwneud gyda* [grwpiau cymunedol ehangach] *hefyd. Fe'u hanogir i wneud sylwadau am y cynllun. Gan nad ydynt yn meddu ar wybodaeth o'r hyn a*

*ddylai fynd ble a'r hyn na ddylai fynd mewn mannau penodol, nid ydynt wedi dweud rhyw lawer. Gofynnodd un am westy pryfed ac mae hyn yn rhywbeth sydd ar ein hagenda ar gyfer y safle ar ôl ei gwblhau. Bydd plant ysgol yn dod i lawr ar y 24ain o'r mis hwn i weld gwaith cynnal a chadw yn mynd rhagddo.'* **(Cyfweliad Grantiau Cyfalaf, 2021)**

*'Rhoddom hysbysiad ar ein tudalen Facebook yn nodi ein bod yn gwneud, gan ofyn iddynt ddweud wrthym pa leoedd yn y gymuned y byddent yn cael budd o bersbectif bioamrywiaeth a ble y byddai modd i ni osod dysglau plannu. Roedd gennym glwb ieuenctid hefyd a buom yn trafod y cam o gymryd rhan yn y prosiect gyda nhw. Y bwriad oedd y bydden nhw yn gwneud rhywfaint o waith plannu, er bod y clwb ieuenctid ar gau ar hyn o bryd. O'r cyngor lleol* [rydym yn] *mynd i drefnu bod y swyddog bioamrywiaeth yn dod allan i drafod y manteision.'* **(Cyfweliad Grantiau Cyfalaf, 2021)**

4.17 Roedd yr unig feirniadaeth o'r cam cynllunio ac ymgeisio yn ymwneud â therfynau amser er mwyn cwblhau'r gwaith. Mae'r oedi sydd wedi digwydd o ganlyniad i'r pandemig wedi golygu ei bod yn annhebygol y caiff gwaith ei gwblhau erbyn rhai terfynau amser. Fodd bynnag, awgrymodd deiliaid grant yr oeddent wedi bod mewn cysylltiad ag NLHF bod y cyllidwr yn deall yr oedi a'i bod yn ymddangos eu bod yn teimlo'n eithaf ymlaciedig ynghylch cwblhau'r gwaith erbyn y dyddiadau cau y cytunwyd arnynt yn ystod y cam cynllunio ac ymgeisio.

4.18 Nodwyd bod y ffaith na all rhai sefydliadau trydydd sector o faint canolig a mawr hawlio'r costau llawn yn ôl yn rhwystr i sefydliadau o'r fath (fel y trafodwyd uchod). Rhwystr arall oedd y cyfyngiadau ynghylch ble y byddai modd datblygu a chael mynediad i leoedd. Nododd staff rheoli yn glir bod ysgolion yn lleoedd allweddol y byddent yn ychwanegu gwerth i gymunedau. Byddai gwaith ar leoedd o'r fath yn hwyluso cyfraniad ysgolion:

*'Byddai'n dda hefyd pe baem yn gallu rhoi pethau ar safleoedd ysgolion. Mae unrhyw beth y tu ôl i gât wedi'i chloi yn tueddu i fod y tu allan i'r gymuned. Rydym yn rhoi pethau ar randiroedd sydd ar glo, ond ni allwn wneud hynny ar safleoedd ysgolion. Efallai y byddai rhai ysgolion mewn ardaloedd trefol difreintiedig yn cael budd o gael cronfeydd ychwanegol er mwyn gwella'u lle gwyrdd.'* **(Cyfweliad gyda Rheolwr, 2021)**

*Cryfderau a gwendidau y gwaith cyflawni*

4.19 Roedd yr holl rai a gyfwelwyd yn teimlo'n obeithiol ynghylch cyflawniad eu prosiectau, er gwaethaf y ffaith y derbyniwyd yn eang bod y pandemig wedi bod yn her sylweddol ar gyfer sawl agwedd o'r hyn a gynlluniwyd. Yn ei hanfod, roedd deiliaid grant yn teimlo y byddai cyflawniad y prosiect yn parhau mewn ffordd gymharol effeithiol ar ôl i fesurau rheoli'r pandemig gael eu llacio neu eu diddymu. Roedd yr unig bryder yn ymwneud â chwblhau gwaith erbyn y terfynau amser a osodwyd yn wreiddiol, o ganlyniad i'r oedi a achoswyd gan y pandemig.

> '*Mae wedi mynd yn dda iawn. Bu rhywfaint o oedi, ond rydym wedi cyflawni popeth yr oeddem wedi bwriadu ei gyflawni – mae cyflenwyr lleol yn helpu. Rydym yn defnyddio llawer o'n gweithwyr ni ar gyfer hyn hefyd. Mae ein bechgyn yn eithaf prysur.* [Yr amseru] *oedd y brif her. Mae gennym nifer fawr o aelodau'r gymuned a gwirfoddolwyr sy'n fodlon helpu gyda'r gwaith plannu, ond oni bai bod unrhyw newidiadau* [i'r terfyn amser]*, byddwn yn ei chael hi'n anodd cwblhau popeth.'* **(Cyfweliad Grantiau Cyfalaf, 2021)**

4.20 Roedd y pandemig wedi arwain at oedi wrth gaffael asedau cyfalaf ac offer, yn ogystal ag oedi o ran prosesau ceisiadau cynllunio a rhestr contractwyr o'u gwaith heb ei gwblhau. Er bod hyn o ganlyniad uniongyrchol i'r pandemig a'r mesurau rheoli cysylltiedig i raddau helaeth, efallai y byddai rhai agweddau (megis ceisiadau cynllunio) wedi cael eu nodi fel risg posibl ar gyfer rhai prosiectau mewn unrhyw gyd-destun:

> *'Mae'n eithaf anodd. Nid yw pethau wedi cael eu cyflawni mor gyflym ag y byddem wedi dymuno. Mae pobl wedi cael eu cyfyngu oherwydd* [COVID-19]*. Mae'n arafach ac* [roedd] *wedi cychwyn ac yna wedi stopio. Dyfarnwyd prosiectau mewn mannau fel Merthyr, a aeth i mewn i gyfnod clo yn gynnar iawn ac nid ydw i'n credu eu bod wedi dod allan o hwnnw eto. Mae'r cyfalaf prynu yn iawn, ond nid yw'r gwaith plannu cymunedol (sy'n dibynnu ar wirfoddolwyr) wedi digwydd. Rydym yn gweld cynnydd, ond nid mor gyflym ag y byddai wedi bod heb bandemig. Nid yw methu cwblhau o fewn y cyfnod a bennwyd yn bwysig – yr hyn sy'n bwysig yw ei fod yn cael ei gyflawni.'* **(Cyfweliad gyda Rheolwr, 2021)**

4.21 Yr effaith fwyaf arwyddocaol, fodd bynnag, fu mewn perthynas â'r capasiti er mwyn cynnwys y gymuned a gwirfoddolwyr yn arbennig. Gyda mesurau aros gartref mewn grym ar gyfer rhan fwyaf o gyfnod y prosiectau, a mesurau cadw pellter cymdeithasol yn debygol o effeithio ar weithgarwch pellach am gryn amser eto, ni fu modd gwneud defnydd llawn neu unrhyw ddefnydd o wirfoddolwyr at ddibenion cyflawni:

> *'Bu cyfyngiadau oherwydd* [COVID-19]*. Fel arfer, byddai gennym nifer yn fwy o wirfoddolwyr, ond nid ydym wedi llwyddo i wneud hynny.'* **(Cyfweliad Grantiau Cyfalaf, 2021)**

4.22 Roedd yr holl rai a gyfwelwyd yn teimlo'n hyderus y byddai'r gwirfoddolwyr a ddisgwylir yn eu cynlluniau yn gallu ymgysylltu â'r prosiect pan fyddent yn gallu gwneud hynny. Yn wir, roedd nifer yn teimlo bod y brwdfrydedd a'r dymuniad i gynorthwyo'r prosiectau wedi tyfu yn ystod y cyfnod clo. Fodd bynnag, roedd hi'n anodd barnu capasiti grwpiau gwirfoddolwyr i ymgysylltu ac i gymryd rhan yn y gwaith parhaus o gynnal a chadw lleoedd yn y dyfodol yn dilyn yr oedi:

> *'Nid oes rhyw lawer* [wedi cael] *ei wneud eto a'r bwriad yw ei wneud ar y diwedd. Bydd y parc eco yn agos i'r ysgol leol a'r plant sydd yn y cyffiniau, ac mae'r ardd synhwyraidd gerllaw cartref yr henoed i fyny'r ffordd; byddan nhw yn mwynhau honno. Mae'r berllan gymunedol yn dymuno cymryd rhan. Rydym wedi gweld cryn frwdfrydedd. Mae'r fforymau cymunedol wedi bod yn rhan o'r cynllun hwn ers y cychwyn cyntaf* […] *nid oes cymaint o frwdfrydedd ag y byddwn yn hoffi ei weld, ond mae hynny oherwydd nad ydynt wedi gallu bod yno.'* **(Cyfweliad Grantiau Cyfalaf, 2021)**

### Effaith

4.23 Roedd yr holl rai a gyfwelwyd yn teimlo'n hyderus ynghylch y ffaith y byddai'r gwaith a gyflawnir yn creu lleoedd natur newydd y byddent yn hygyrch i'r gymuned. Roedd hyn wedi bod yn rhan greiddiol o'r cais ac yn un o amodau sicrhau'r cyllid, a phe byddai'r gwaith a gontractiwyd a'r asedau yn cael eu cyflawni, byddai'r lleoedd yn cael eu creu:

> *'Yn bendant.* [O ran] *un o'r prif ffyrdd sy'n dod trwy ein hardal, mae tipyn o'r strydoedd yn eithaf trefol ac mae perllan wedi'i gosod yn ei ganol nawr, ac mae'r un peth yn wir gyda'r ardd meddwlgarwch. Yn y berllan, mae pâr ifanc sy'n symud i mewn ar hyn o bryd ac y maent wedi bod yn datblygu dros y chwe mis*

*diwethaf yn teimlo'n gyffrous iawn. Dechreuont weithio ar eu tŷ ar yr un pryd ag y dechreuodd y gwaith ar y berllan, ac maent wedi gallu ei gweld yn tyfu. Maent mewn ardaloedd trefol a phocedi bach o fyd natur. Mae parciau cymunedol bychain yn cael eu creu.'* **(Cyfweliad Grantiau Cyfalaf, 2021)**

4.24 Efallai y bydd rhywfaint o oedi oherwydd y rhesymau a ystyriwyd uchod, ond roedd staff rheoli yn hyderus y byddai lleoedd 'natur ar y stepen drws' yn cael eu creu. Yn ogystal, roedd deiliaid grant a staff rheoli o'r farn y bydd sgiliau a gwybodaeth gwirfoddolwyr yn datblygu mewn ffordd naturiol o ganlyniad i'r gwaith, ar ôl ymgysylltu â nhw, a phan fo modd, bod dysgu a chodi ymwybyddiaeth eisoes yn digwydd:

*'Rydym wedi cael dau neu dri adroddiad cynnydd hyd yn hyn, ond (unwaith eto), mae'n cael ei fynegi yn nhermau "gallem fod wedi gwneud hyn, ond oherwydd cyfyngiadau, ni allem". Mae'r potensial i sicrhau effaith yno – mae angen i ni gael y rhyddid er mwyn cyrraedd y pwynt lle y gall ddigwydd. A bydd yn cyrraedd y pwynt hwnnw gan bod cynghorau tref a chymuned wir wedi ymgysylltu gyda phobl sy'n teimlo'n awyddus i fynd allan yno a chyflawni hynny. Ceir cryn alw cronedig, ond gwelir oedi o ran yr effaith.'* **(Cyfweliad gyda Rheolwr, 2021)**

*'Bydd yn cynyddu pan fydd yn rhedeg. Bu nifer fawr o drafodaethau am ddysgu am yr hyn yr oedd angen iddo fod yn ei le ar gyfer yr ardd synhwyraidd. Mae meddwlgarwch yn* [agwedd bwysig] *ac rydym wedi defnyddio'r amser i gael siaradwyr gwadd ac rydym wedi dysgu am y rhesymau dros gynnwys pethau mewn gardd meddwlgarwch.'* **(Cyfweliad Grantiau Cyfalaf, 2021)**

*'Mae'n drafodaeth wedi'i hysgogi. Rydym wedi* [siarad] *gyda phobl ifanc a thrwy gyfryngau cymdeithasol, ac wedi cael ymateb da gan bobl o bob oed a rhyw. Teimlwn ein bod wedi cyrraedd rhychwant. Mae gennym ganolfan ddydd i bensiynwyr hefyd, a chyn gynted ag y bydd honno'n rhedeg, byddan nhw yn cymryd rhan hefyd, felly* [rydym yn] *ceisio sicrhau bod pob* [grŵp] *oedran yn cymryd rhan lawn yn y prosiect.'* **(Cyfweliad Grantiau Cyfalaf, 2021)**

*'Mae'n newid argraffiadau pobl o'r hyn y mae blodyn gwyllt yn ei wneud. Byddai nifer o bobl yn ei alw'n chwyn. Bellach, maent yn gwybod mai blodyn sy'n dda i bryfed ydyw. Ac mae pobl yn gwerthfawrogi byd natur yn fwy. Mae hynny o ganlyniad i* [COVID-19] *yn bennaf gan bod pobl yn gweld ac yn gwerthfawrogi eu hamgylchedd lleol a byd natur yn fwy.'* **(Cyfweliad Grantiau Cyfalaf, 2021)**

4.25 Fodd bynnag, mynegwyd ansicrwydd gan rai deiliaid grant mewn perthynas â dangos tystiolaeth o'u heffaith ar gymunedau. Roedd rhai deiliaid grant, y cyfeirir atynt isod fel cydlynwyr, yn ansicr ynghylch pam a sut y dylid mesur yr effaith ar gymunedau:

> *'Ei enw yw Lleoedd Lleol ar gyfer Natur. Roeddem yn cael trafodaeth yr wythnos diwethaf. Mae nifer o'r cydlynwyr yn cael anhawster. Gallant brofi sut y mae'n cynnig budd i fyd natur, ond mae'r ffordd y bydd rhywbeth yn cynnig budd i bobl yn rhywbeth hollol wahanol. Gan mai ei enw yw Lleoedd Lleol ar gyfer Natur, bydd cydlynwyr weithiau yn ei chael hi'n anodd cyfiawnhau pam y dylent gyfiawnhau'r budd ar gyfer y cymunedau y tu hwnt i'r darn ynghylch natur* […] *mae angen cael dealltwriaeth well o'r ffordd y mae'r natur yn cynnig budd i'r cymunedau.'* **(Cyfweliad Grantiau Cyfalaf, 2021)**

4.26 Roedd staff rheoli o'r farn mai adborth anffurfiol, ansoddol oedd y ffordd yr oedd yr effaith yn cael ei holrhain, er bod hyn (unwaith eto) o fewn cyd-destun lle nad oes fawr iawn i'w adrodd neu ei gofnodi hyd yn hyn:

> *'Nid ydym yn gofyn i bobl lenwi asesiad lles ffurfiol cyn iddynt gychwyn* [...]*. Nid ydym yn gofyn iddynt fynd trwy asesiad ffurfiol. Rydym yn gofyn am adborth anffurfiol.'* **(Cyfweliad gyda Rheolwr, 2021)**

### Cynaliadwyedd ar ôl y cyllid

4.27 Caiff cynaliadwyedd a'r gwaith o gynnal a chadw'r lleoedd hyn ei gynnwys yn y ceisiadau ac mae'n un o'r amodau er mwyn cymeradwyo grant. Yn ogystal, fel y nodir uchod, mae'r grantiau fel arfer yn rhan o brif gynllun ehangach er mwyn ailddatblygu'r ardal ac ymgysylltu'r gymuned leol gyda byd natur. Felly, bydd grwpiau gwirfoddolwyr lleol yn cael y dasg o gynnal a chadw a gofalu am leoedd ar ôl y cyllid yn ddieithriad. Yn aml, nod cynghorau tref a chymuned sy'n arwain y grantiau yw parhau i ymgysylltu gyda'r lleoedd mewn ffurfiau amrywiol, gan gynorthwyo a monitro safleoedd:

> *'Byddwn yn cychwyn ar raglen o waith monitro. Cynhaliwyd rhai arolygon botanegol y llynedd ac yna eleni* [cynhaliom] *waith monitro botanegol ac o anifeiliaid di-asgwrn-cefn ar hyd lleiniau ac mewn gweirgloddiau. Felly byddwn yn gallu dangos yr effaith honno ac yna, gobeithio, os byddwn yn gallu cael gwirfoddolwyr allan, dylem fod yn gallu cofnodi blodau a phryfed yn eu hardal leol, yna byddaf i yn ceisio monitro deunydd ar gyfryngau cymdeithasol. Ar*

*Facebook, bydd pobl yn gwneud mwy o sylwadau. Bydd yr awdurdod lleol yn cynnal ymgyrch hyrwyddo pan fydd hi'n bryd torri'r porfa unwaith eto, er mwyn monitro adweithiau'r gymuned.'* **(Cyfweliad Grantiau Cyfalaf, 2021)**

4.28 Mae awdurdodau lleol yn cyflawni rôl hefyd wrth fonitro a chynorthwyo cynaliadwyedd a gwaith cynnal a chadw lleoedd a gweithgareddau. Yn ogystal, ceir achosion lle y gwelir ymrwymiad gan awdurdodau lleol, wrth iddynt ymrwymo i brynu offer ac asedau cyfalaf i gynorthwyo'r safleoedd yn y dyfodol:

*'Yn yr awdurdod lleol, maent wedi ymrwymo i wario mwy ar offer. Treial oedd yr offer* [a brynwyd gan NLHF] *ac mae'r adroddiadau a gafwyd yn ôl wedi nodi'r hyn sy'n gweithio'n dda iawn. Bydd yn costio £40,000 yr un, ond mae'n fuddsoddiad.'* **(Cyfweliad Grantiau Cyfalaf, 2021)**

4.29 Barnwyd bod y cyfnod ar ôl cyllido yn gyfnod mwy priodol er mwyn monitro a gwerthuso'r effaith hefyd, o ganlyniad i natur y gwaith a gyflawnwyd. Mae plannu a thyfu yn cymryd amser ac ni phrofir canlyniadau'r rhain neu arferion torri porfa nes y gwanwyn neu'r haf dilynol neu nes bydd y gymuned yn gallu ymgysylltu'n llawn gyda'r lleoedd. Er hyn, roedd rhai grwpiau eisoes yn nodi pa grwpiau i'w targedu gyda'u gweithgarwch casglu data gwerthuso:

*'Byddwn yn cynnal* [gwerthusiadau meintiol] *ac* [ansoddol] *ar ôl i'r gwaith ymgysylltu gychwyn, wrth iddynt fynd i mewn i blannu ac yna, mesur y defnydd a wneir o'r planhigion a faint sy'n ymgysylltu gyda nhw. Gan ein bod wedi cysylltu grwpiau penodol gyda phob safle, byddwn yn gallu mesur yn gyson.'* **(Cyfweliad Grantiau Cyfalaf, 2021)**

4.30 Roedd gan y sawl a gyfwelwyd ddealltwriaeth gadarn o'r hyn a reolir a chan bwy ar ôl i'r cyllid ddod i ben. Mae'n arfer cyffredin i randiroedd gael eu trosglwyddo i gymdeithasau rhandiroedd, tynnir ysgolion i mewn i wneud defnydd rheolaidd o leoedd, ac ymgysylltwyd gyda chartrefi nyrsio, a fydd yn sicrhau ymgysylltu parhaus gyda'r gymuned.

## 5. Canfyddiadau: Pecynnau Rhagdaledig Cadwch Gymru'n Daclus

*Disgrifiad*

5.1 At ei gilydd, gan gynnwys y gwaith cyflawni a gynlluniwyd yn ystod neu ar ôl adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, bydd 438 o becynnau cychwyn rhagdaledig KWT wedi cael eu dyfarnu i ymgeiswyr, yn ogystal ag 82 o becynnau datblygu, erbyn diwedd mis Mawrth 2021. Gwerth cyfan gwbl y pecynnau a gymeradwywyd yw £1,854,058. Er y bydd y gwaith o gyflawni'r prosiectau cymeradwy yn parhau, cofnodir y gwariant yn ystod blwyddyn ariannol 2020/21.

5.2 Bu'r galw am becynnau datblygu yn uwch na'r disgwyl. Fel y trafodir isod, bu hyn o ganlyniad i dderbynwyr y pecyn cychwyn yn gwneud cais am becynnau ychwanegol a/neu'n symud ymlaen i'r pecynnau datblygu mwy:

> *'Yn* [2020–2021] *ein nod gwreiddiol oedd gosod 66 o becynnau datblygu. Wrth i'r rhaglen ddatblygu, daeth yn amlwg bod mwy o alw, felly aethom ati i leihau nifer y pecynnau cychwyn er mwyn gallu cynnig cyfanswm o 83 o becynnau datblygu*.'
> **(Cynllun Busnes LPfN KWT, 2021–2022)**

**Tabl 5.1: Cyflawniad prosiectau, erbyn 28 Chwefror 2021**

| | Cyfanswm a gyflawnwyd hyd yn hyn | Bwriadir eu cyflawni erbyn Mawrth '21 | Cyfanswm y bwriadir eu cyflawni |
|---|---|---|---|
| **Pecynnau cychwyn a ddosbarthwyd** | 414 | 24 | 438 |
| **Pecynnau datblygu a ddosbarthwyd** | 38 | 44 | 82 |


Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, Chwefror 2021

*Cyfansoddiad a rhesymeg grwpiau*

5.3 Mae'r pecynnau wedi apelio i amrediad o grwpiau ac unigolion. Mae ffigurau 5.1–5.2 yn amlinellu proffil y grwpiau sydd wedi cael pecyn. Mae'r data hwn yn awgrymu bod y pecynnau'n denu grwpiau o hyd at 20 o unigolion yn bennaf (69 y cant), ond y ceir achosion hefyd lle y gwelir grwpiau mwy o dros 50 (13 y cant, y mae saith y cant ohonynt yn cynnwys dros 100) o bobl. Gallai'r olaf fod yn ymwneud â phecynnau a gyflawnwyd gan gynghorau cymuned neu ysgolion, yr oeddent yn manteisio ar gasgliadau arbennig o fawr o wirfoddolwyr lleol.


5.4 Yn fwy na dim, cyflawnir y pecynnau gan grwpiau o wirfoddolwyr y mae eu hoedrannau cyfartalog rhwng 45 a 75 (63 y cant). Mae ysgolion yn debygol o fod yn gyfrifol am nifer o blith yr 14 y cant o'r rhai dan 18 oed, ac mae cyfranogiad gan grwpiau y mae eu hoedran cyfartalog yn 19-44 yn cyfateb â 18 y cant o'r pecynnau. Gallai'r patrymau hyn adlewyrchu'r cyfyngiadau o ran amser ar y rhai yr oeddent yng ngrŵp oedran rhieni yn ystod y cyfnod clo, yn enwedig yn ystod y pandemig. Fodd bynnag, roedd darganfod ai hon oedd y sefyllfa mewn gwirionedd y tu hwnt i gwmpas y gwaith ymchwil hwn. Mae cyfweliadau gyda rheolwyr a chyflawnwyr yn awgrymu, hyd yn oed pan oedd unigolion 19-44 oed wedi cymryd rhan, y byddai'r rhain yn aml yn unigolion heb waith, a wahoddwyd neu a anogwyd i wirfoddoli yn rhannol fel ffordd o'u huwchsgilio. Gallai cyfraniad isel y rhai yn y grŵp 75+ oed fod oherwydd bod y grŵp hwn yn fwy tebygol o fod yn gwarchod neu'n osgoi cyswllt cymdeithasol yn ystod y pandemig. Fodd bynnag, roedd darganfod ai hon oedd y sefyllfa mewn gwirionedd y tu hwnt i gwmpas y gwaith ymchwil cyfredol. Efallai y disgwylir i broffiliau oed wahaniaethu yn y dyfodol os bydd effaith y pandemig yn lleihau.

**Ffigwr 5.1: Faint o bobl sy'n rhan o'ch grŵp cymunedol?**




N=109

**Ffigwr 5.2: Beth yw oedran cyfartalog aelodau'r grŵp?**




N=143

5.5 Dyfarnwyd dros 200 o becynnau i gynghorau tref a chymuned yn ystod 2021-2022. Cymeradwywyd y ceisiadau hyn yn awtomatig ac ni fu gofyn eu prosesu trwy banel dethol (yn yr un modd â'r holl geisiadau eraill).

5.6 Adroddodd staff rheoli bod tua 22 y cant o'r holl grwpiau y dyfarnwyd pecyn iddynt yn rhai lleiafrifol neu ddifreintiedig,[12] neu bod y grwpiau yn cynnwys unigolion difreintiedig neu o leiafrifoedd yn bennaf neu'n gyfan gwbl. Roedd staff rheoli yn credu y byddai hon yn gyfran uwch pe bai'r deiliaid pecyn yr oeddent yn gynghorau tref a chymuned yn cael eu hepgor o'u cyfrifiadau, gan na fyddai unrhyw un o'r rhain yn y dosbarth hwn. Er hyn, roedd staff rheoli yn awyddus i bwysleisio y bydd y cynllun yn ceisio targedu grwpiau lleiafrifol neu ddifreintiedig mewn ffordd fwy amlwg yn ystod blwyddyn 2021–2022.

5.7 Er mai'r rhain yw demograffeg y grwpiau dan sylw efallai, roedd ymatebion a gafwyd yn ystod y grŵp ffocws gyda derbynwyr pecyn KWT yn awgrymu, mewn gwirionedd, o ganlyniad i'r pandemig a'r cyfyngiadau cysylltiedig, y gallai oedrannau a meintiau grwpiau yr oeddent yn gallu ymgysylltu gyda lleoedd trwy gydol cyfnod y prosiect, fod yn wahanol i'r cyswllt a gynlluniwyd. Nododd cyfranwyr yn aml, er enghraifft, eu bod wedi llwyddo i ennyn diddordeb pobl na fu modd iddynt ymgysylltu

12 Defnyddiodd rheolwyr KWT y term “difreintiedig” er mwyn cyfeirio at grwpiau (neu unigolion) yn y wardiau mwyaf difreintiedig, fel y diffinnir gan Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru.

â'r safle yn y pen draw oherwydd cyfyngiadau'r pandemig, er eu bod yn cael eu hystyried yn rhan o'u grŵp o hyd:

> *'Mae'n siŵr gen i bod* [COVID-19]*, wrth gwrs, wedi atal y gwirfoddolwyr ehangach rhag gallu cymryd rhan, felly mae honno'n un elfen* […]*. Mae'n siŵr gen i mai cynnwys y gymuned yn y gwaith cyflawni* [yw'r] *brif* [her]*.'* **(Grŵp Ffocws Deiliaid Pecyn KWT, 2021)**

5.8 Mewn rhai achosion, roedd y grwpiau eisoes wedi cael eu sefydlu, ac mae rhywfaint o ddata yn awgrymu bod grwpiau hollol newydd wedi cael eu creu er mwyn ymgeisio am y pecynnau. Ni ellir cyfrif yr achosion diwethaf hyn gan ddefnyddio'r data sydd ar gael, ond efallai y bydd staff rheoli neu werthusiadau yn y dyfodol yn dymuno archwilio'r broses o greu grwpiau newydd, gan ei fod yn awgrymu bod y rhaglen yn ehangu'r seilwaith ehangach sy'n cynorthwyo byd natur a chynefinoedd lleol.

5.9 Roedd y sawl a gyfwelwyd yn awgrymu bod grwpiau sefydledig yn denu aelodau a diddordeb newydd ac roedd tystiolaeth hefyd bod grwpiau yn defnyddio'r pecynnau fel ffordd o ysgogi diddordeb yn eu grwpiau.


5.10 Mewn rhai achosion, roedd grwpiau sefydledig yn arbennig o weithgar ac yn ymgysylltu gyda phrosiectau amgylcheddol a natur, er y gwelwyd achosion hefyd lle nad oedd grwpiau wedi cael fawr iawn o brofiad blaenorol gyda phrosiectau natur neu amgylcheddol, ac yr oeddent yn cael cyswllt gyda'r pecynnau cychwyn. Efallai y byddai'n werth i werthusiadau yn y dyfodol, neu'r tîm rheoli wrth iddynt wneud eu gwaith monitro, ystyried yr agwedd olaf hon yn fanylach.

5.11 I grynhoi, bu'r galw yn uwch na'r disgwyl am y pecynnau datblygu, a dosbarthwyd 482 o becynnau cychwyn. Roedd grwpiau yn tueddu i fod yn fach (llai nag 20 unigolyn) ac yn fwyaf cyffredin, roeddent yn hŷn o ran eu proffil oedran, er ei bod yn debygol bod y pandemig wedi effeithio ar y sawl yr oeddent yn gallu ymgysylltu. Er bod tua 22 y cant o'r pecynnau a ddyfarnwyd wedi cael eu dyfarnu i grwpiau lleiafrifol neu ddifreintiedig, roedd y rheolwyr yn teimlo y byddai'r ffigwr hwn wedi bod yn uwch pe na bai ceisiadau cynghorau tref a chymuned am becynnau yn cael eu cymeradwyo'n awtomatig. Barnwyd bod grwpiau sefydledig a newydd wedi ymgysylltu â'r rhaglen, ac roedd tystiolaeth o rai grwpiau yn symud ymlaen o becynnau ffurfio a chychwyn i ragor o becynnau cychwyn a datblygu.

*Natur ar eich stepen drws*

5.12 Mae Ffigwr 5.3 isod yn dangos bod grwpiau'n teimlo bod y cynllun wedi helpu i greu lleoedd newydd er mwyn manteisio ar a mwynhau byd natur. Mae hyn yn ymwneud â nod craidd y rhaglen LPfN ehangach ac mae'n awgrymu bod gan y rhai sy'n ymwneud â hyn fwy o ymwybyddiaeth o natur ar eu stepen drws.

**Ffigwr 5.3: I ba raddau yr ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno bod y gwaith wedi helpu i greu lleoedd newydd i fanteisio ar, profi a mwynhau byd natur yn lleol?**




N=143


5.13 Fodd bynnag, fel y mae Ffigwr 5.4 yn awgrymu, roedd ymatebwyr o'r farn, ar y cyfan, bod digon o natur i fanteisio arno a'i fwynhau yn eu hardaloedd. Er bod y sgorio yn oddrychol, er hyn, mae'n hewristeg ddefnyddiol ac fe allai awgrymu nad yw'r pecynnau wastad wedi cael eu dyfarnu i grwpiau ac ardaloedd lle y mae lleoedd natur yn brin. Mae'n bwysig nodi, fodd bynnag, nad oes modd barnu ansawdd y lleoedd neu a yw'r pecynnau wedi helpu i wella'r ansawdd heb gael gwerthusiad mwy cynhwysfawr a manwl o'r lleoedd a'r ardaloedd lleol.

5.14 Yn wir, pan ystyriwyd hyn yn ystod y grŵp ffocws, nododd sawl ymatebydd bod eu pecynnau'n ychwanegu i leoedd natur sy'n bodoli eisoes megis parciau a rhandiroedd y mae'r ALI yn berchen arnynt:

> *'Gofynnodd Cadwch Gymru'n Daclus a fyddai gennym ddiddordeb mewn ymgymryd ag un o'r pecynnau Lleoedd Lleol ar gyfer Natur hyn, felly (wrth gwrs) dywedom: "Ie, byddem wrth ein bodd."* [Mae hwn yn] *rhywbeth sydd, heb os, yn gwella'r safle, er bod y safle eisoes yn safle gwarchodfa natur o ddiddordeb*

*gwyddonol arbennig ac yn barc Baner Werdd, felly mae'n ychwanegu i'r hyn sydd gennych chi yn barod (yn hytrach na dechrau o'r dechrau).'* **(Grŵp Ffocws Deiliaid Pecyn KWT, 2021)**

**Ffigwr 5.4: Gan ddefnyddio graddfa o 1 i 5 (lle y mae 1 yn cynrychioli "Heb fod yn bosibl o gwbl" a 5 yn cynrychioli "Digon o fyd natur i fanteisio arno a'i fwynhau"), pa mor hawdd yw hi i fanteisio ar a mwynhau byd natur lle'r ydych yn byw?**




N=146

5.15 Nododd staff rheoli y byddai cyffredinrwydd cynghorau tref a chymuned yn werth ei ystyried yn hyn o beth hefyd. Yn wir, awgrymodd staff rheoli y byddai cymeradwyaeth awtomatig i geisiadau cynghorau tref a chymuned yn sgiwio'r canlyniadau hyn. Gyda dros 200 o becynnau wedi cael eu dyfarnu i gynghorau tref a chymuned, y mae nifer ohonynt wedi'u lleoli mewn ardaloedd gwledig, roedd hi'n debygol na fyddai nifer o ymatebwyr yn ystyried bod eu hardal nhw yn un ddifreintiedig neu heb fod yn cynnwys lleoedd natur.

5.16 Roedd staff rheoli o'r farn bod y resymeg dros gymeradwyo pecynnau ar gyfer cynghorau tref a chymuned yn awtomatig yn deillio o'r gred y byddai'n cynorthwyo darpariaeth nifer fawr o becynnau. Yn ogystal, gallai'r staff rheoli deimlo'n hyderus am eu capasiti i gyflawni, o ganlyniad i'w rhwydweithiau a'u seilwaith sy'n bodoli eisoes.

5.17 Awgrymodd y rheolwyr cynllun KWT, fodd bynnag, bod y flwyddyn gyntaf wedi dangos prawf o'r cysyniad, a bod y pecynnau'n denu amrediad o grwpiau newydd hyd yn oed, yr oeddent yn gallu cyflawni a chwblhau'r gwaith. Felly, nid oedd y resymeg wreiddiol dros gymeradwyo ceisiadau cynghorau tref a chymuned yn awtomatig, yn berthnasol mwyach ym marn y rheolwyr cynllun.

*Cynllun*

5.18 Adleisiodd personél rheoli safbwyntiau deiliaid grant wrth awgrymu bod hwylustod y broses ymgeisio yn un o gryfderau penodol y cynllun. Byddai modd cymeradwyo pecynnau yn gyflym a'u darparu i grwpiau er mwyn iddynt gychwyn ar y gwaith. Barnwyd bod hon yn nodwedd bwysig, gan sicrhau na fyddai brwdfrydedd grwpiau, yn enwedig grwpiau sy'n rhai newydd i brosiectau natur, yn lleihau oherwydd proses ymgeisio hir neu lafurus.

5.19 Awgrymodd cyfranogwyr y grŵp ffocws bod statws a brand KWT yn fanteision penodol wth iddynt ddelio gydag awdurdodau lleol ac wrth geisio sicrhau caniatâd i gael mynediad i dir a gweithio arno. Ystyriwyd bod KWT yn sefydliad uchel ei barch ac a werthfawrogir, yr oedd ei gyswllt yn cynnig sicrwydd i awdurdodau lleol, gan gryfhau cynlluniau a cheisiadau'r grwpiau:

> '[…] *y cymorth ac efallai, y gydnabyddiaeth ar gyfer Cadwch Gymru'n Daclus fel sefydliad yng Nghymru – gallai'r cyngor droi ato a theimlo y gallai ymddiried ynddo. Rydw i'n* [amau] *bod hynny wedi ei gwneud yn fwy tebygol y byddent yn rhoi caniatâd i ni fwrw ymlaen ag ef.'* **(Grŵp Ffocws Deiliaid Grant KWT, 2021)**

5.20 Un o gryfderau pellach y cynllun oedd y rôl a'r cymorth a gynigiwyd gan swyddogion prosiect.[13] Roedd rheolwyr a chyfranogwyr yn barnu bod y cymorth a gynigiwyd i grwpiau yn hynod werthfawr, ac mewn rhai achosion, fel y nodir isod ac oherwydd y rhwystrau a oedd yn atal cyfraniad gwirfoddolwyr, dim ond gyda'r cymorth hwn y byddai modd ei gyflawni.

5.21 I ddeiliaid grant, roedd gwendid tybiedig (er yn un anochel) ar y cynllun, fodd bynnag, yn ymwneud â'r angen i brynu niferoedd uchel o becynnau ymlaen llaw. Arweiniodd hyn at orfod safoni'r pecynnau a wynebu'r risg na fyddai pecyn neu rannau o becyn yn addas i bob grŵp. Yn wir, nododd cyfranogwyr y grŵp ffocws nad oedd rhai rhannau o'u pecynnau yn addas. Er enghraifft, barnodd rhai bod meinciau

---

[13] Bu swyddogion prosiect yn cynorthwyo'r grwpiau wrth iddynt gyflwyno'r pecynnau. Yn wreiddiol, roedd y rôl yn cynnwys ymweliad safle a chynorthwyo gyda'r gweithgarwch cynllunio a chynnig canllawiau i'r grwpiau.

na fyddai modd eu gosod i'r llawr yn anaddas, oherwydd y tebygolrwydd y byddent yn cael eu dwyn. Nododd cyfranogwyr y grŵp ffocws hefyd y byddent yn dymuno cael y cyfle i ddewis cynnwys y pecynnau. Mae cynlluniau a gyflwynwyd ar gyfer blwyddyn 2021–2022 wedi ceisio rhoi sylw i hyn trwy nodi union gynnwys pob pecyn, ac roedd cronfa wrth gefn ar gael hefyd er mwyn gwneud mân addasiadau.

5.22 Er hyn, barnwyd bod y risg o gael rhannau anaddas o bryd i'w gilydd yn angenrheidiol er mwyn galluogi i'r pecynnau gael eu dosbarthu'n gyflym i ymgeiswyr. Nid oedd y staff rheoli yn barnu bod prynu dros 500 o becynnau pwrpasol yn ymarferol, ac oeddent yn rhagweld cynnydd sylweddol yn y gost a'r llwyth gwaith pe byddai'n rhaid teilwra pob pecyn. Gyda rheolwyr cynllun wedi prynu pecynnau ymlaen llaw, dim ond trefnu eu dosbarthu yr oedd yn rhaid i KWT ei wneud er mwyn cwblhau'r broses. Roedd y tirluniau amrywiol y darparwyd ar eu cyfer yn cynnig her anorfod i unrhyw ymdrechion i greu un pecyn a fydd yn gallu mynd unrhyw le hefyd:

> *'Mae'r hwylustod a'r rhestr pecynnau* [rhagdaledig] *wedi bod yn gryfder ond maent wedi bod yn wendid hefyd, gan nad yw pob pecyn yn edrych yn iawn ar bob safle. Er enghraifft, mae ein gwelyau uwch wedi'u gwneud o blastig wedi'i ailgylchu ond maent yn eithaf bas. Maent yn edrych yn wych ar ddaear feddal ond nid ydynt yn edrych gystal ar goncrid. Rydym wedi gwneud rhai newidiadau ar gyfer blwyddyn dau, ond weithiau, mae'n anodd llunio un pecyn sy'n addas i bawb.'* **(Cyfweliad gyda Rheolwr, 2021)**

5.23 Mae'r newidiadau a gynigir ar gyfer pecynnau trefol yng nghynllun busnes 2021-2022, fodd bynnag, yn dangos tystiolaeth o broses werthuso fewnol effeithiol o fewn rheolaeth y cynllun, yn ogystal â monitro'r adborth gan dderbynwyr pecynnau mewn ffordd ofalus. Nod y pecynnau newydd yw rhoi sylw i'r materion arwyddocaol, yn ogystal â chynnig darnau sy'n gallu gwrthsefyll fandaliaeth yn well ar gyfer ardaloedd trefol.

*"Ffit" strategol*

5.24 Roedd staff rheoli yn teimlo bod y cynllun yn cyflawni rôl pwysig o fewn rhaglen LPfN. Ystyriwyd bod gallu'r cynllun i ddenu grwpiau newydd ac amhrofiadol i weithio ar brosiectau natur yn unigryw, yn ogystal â bod yn allweddol er mwyn bwydo'r galw am gymorth, cyllid a gweithredu pellach ynghylch creu natur a chynorthwyo bioamrywiaeth.

5.25 Nododd y staff hefyd bod y pandemig wedi gwneud y cynllun yn fwy perthnasol ac wedi cynyddu'r galw am y cynllun. Credwyd bod gwirfoddolwyr a grwpiau yn fwy gwerthfawrogol o natur ar eu stepen drws yn ystod y cyfnod clo ac ers hynny, yn ogystal â bod yn fwy awyddus i ymgysylltu gyda phrosiectau sy'n diogelu cynefinoedd lleol.

5.26 Barnwyd hefyd bod y cynllun a'r rhaglen LPfN ehangach yn cyd-fynd â'r trywydd a ddilynir yng Nghymru o ran yr amgylchedd, natur, a manteisio ar yr hyn y gallant ei gynnig i bobl a chymunedau. Yn ogystal, roedd y pandemig a chyhoeddiad Llywodraeth Cymru am ei bwriadau am Adferiad Gwyrdd wedi gwneud y rhaglen yn fwy perthnasol fyth i amcanion strategol ehangach.

**Cyflawni**


*Hyrwyddo'r cynllun*

5.27 Nododd staff rheoli a chyflawni bod diddordeb yn y cynllun wastad yn uchel ac nad oedd annog ymgysylltu gyda'r cynllun fyth yn fater yr oedd gofyn ei ystyried rhyw lawer mewn perthynas â chyflawni targedau. Roedd y materion hyrwyddo ac ymgysylltu a drafodwyd yn fewnol yn ymwneud â thargedu grwpiau lleiafrifol a difreintiedig ar gyfer gweithgarwch ymgysylltu mewn ffordd fwy amlwg. O ganlyniad i'r trafodaethau hyn, teimlwyd bod gofyn gwneud ymdrech fwy clir ac unedig i ymgysylltu grwpiau penodol:

> *'Nid oedd ymgysylltu fyth yn broblem. Yn enwedig gyda COVID-19, mae pobl yn ysu i fynd allan ac ymgysylltu gyda byd natur. Y broblem oedd gallu cyflawni'r gwaith, oherwydd COVID-19. Cawsom tua 300 o geisiadau mewn wythnos, yna digwyddodd COVID-19.'* **(Cyfweliad gyda Rheolwr, 2021)**

5.28 Mae Ffigwr 5.5 isod yn awgrymu mai gwahoddiadau uniongyrchol gan Cadwch Gymru'n Daclus (34 y cant) a rhoi cyhoeddusrwydd trwy gyfrwng cylchlythyr Un Llais Cymru (22 y cant) oedd y prif ffyrdd o hyrwyddo'r cynllun, ynghyd â phobl yn sôn wrth ei gilydd amdano (21 y cant). Efallai bod natur yr ymatebwyr i'r arolwg yn esbonio'r categori olaf, fodd bynnag, ac er y byddent wedi bod yn rhan o'r grŵp, efallai nad nhw oedd yr unigolion a gyrhaeddwyd gan y gwaith hyrwyddo cychwynnol efallai. Mae'r rhain yn debygol o fod wedi cael gwybod gan aelod arall o'r grŵp.


**Ffigwr 5.5: Sut glywodd eich grŵp chi am raglen LPfN?**




N=128


5.29 Mae Ffigurau 5.6 a 5.7 yn awgrymu bod naw o bob 10 (90 y cant) o'r ymatebwyr yn teimlo ei bod yn hawdd iawn neu'n eithaf hawdd cael gwybod am y rhaglen, ac y bu'r deunydd hyrwyddo yn effeithiol i'r grwpiau hyn. At hynny, nid oedd rhan fwyaf yr ymatebwyr (78 y cant) o'r farn y bu'r broses ymgeisio yn un arbennig o heriol, os o gwbl.

**Ffigwr 5.6: Pa mor hawdd neu anodd oedd hi i'ch grŵp gael gwybodaeth am y rhaglen/pecyn?**




N=143

**Ffigwr 5.7: Pa mor heriol fu'r broses o wneud cais am y cyllid?**





N=143

*Cryfderau a gwendidau wrth gyflawni*

5.30 Pan ofynnwyd iddynt ystyried cyflawniad y rhaglen, roedd yr ymatebion yn gymharol gymysg. Mae Ffigwr 5.8 yn awgrymu, er nad oedd ychydig dros hanner (52 y cant) wedi canfod y cyflawni yn arbennig o heriol, os o gwbl, roedd bron i chwarter (24 y cant) wedi canfod y cyflawni yn heriol i ryw raddau neu i raddau mwy. Rhaid ystyried pryd y cyflawnwyd y pecynnau, fodd bynnag, wrth i gyfyngiadau'r cyfnod clo fod yn ffactor allweddol wrth ystyried pa mor heriol oedd y prosiectau i'w cyflawni/cwblhau (gweler Ffigwr 5.9).


**Ffigwr 5.8: Pa mor heriol fu cyflawni/cwblhau'r prosiect?**




N=143

5.31 Mae trafodaethau a gafwyd yn ystod y grŵp ffocws yn awgrymu'n gryf bod y prif sialensiau yn deillio o'r cyfyngiadau a'r rhwystrau a grëwyd gan y pandemig, ac yn fwyaf nodedig, yr anawsterau ynghylch cael (neu'r ffaith na fu modd cael) gwirfoddolwyr ar y safle er mwyn helpu gyda'r cyflawni. Yn wir, fel y mae Ffigwr 5.9 yn dangos, ystyriwyd yn eang bod cyfnod clo y coronafeirws ac effaith fwy uniongyrchol y feirws ar unigolion wedi effeithio ar allu prosiectau i gyflawni neu gwblhau.

**Ffigwr 5.9: Pa rai o'r materion canlynol, os o gwbl, oedd wedi effeithio ar eich gallu i gyflawni/cwblhau'r prosiect?**




N=138

5.32 Yn ogystal, roedd staff rheoli wedi cydnabod y cyfyngiadau ar ymgysylltu cymunedol o ganlyniad i'r pandemig, a gyda golwg ehangach o'r holl brosiectau, roeddent yn awgrymu y bu'n rhaid i swyddogion prosiect ymwneud yn fwy gyda'r gwaith cyflawni er mwyn sicrhau y byddai prosiectau yn cael eu cwblhau:

> *'Oherwydd* [COVID-19]*, mae hi wedi bod yn flwyddyn wallgof. Mae wedi rhoi sawl rhwystr o'n blaenau a bu'n rhaid i ni fod yn hyblyg a gweithio o'u cwmpas. Rydym wedi darparu'r lleoedd gwyrdd hynny ond mae'r ffordd yr ydym wedi gwneud hynny wedi newid.* [Roeddem] *yn dymuno iddynt fod yn ddigwyddiadau cymunedol mawr, gan ymgysylltu â'r ysgolion, ond* [weithiau] *dim ond ein swyddogion prosiect sydd wedi bod yn mynd i mewn i adeiladu yn ystod cyfnod*

*clo.* [Mewn] *nifer fawr o leoedd, rydym wedi gweithio gyda grwpiau cymunedol a chreu cynlluniau hirdymor.'* **(Cyfweliad gyda Rheolwr, 2021)**

5.33 Fodd bynnag, codwyd materion yn ymwneud â chaffael hefyd, gan gynnwys y tueddiad i rannau amrywiol o'r pecynnau gael eu dosbarthu ar wahanol adegau. Yn aml, roedd y rhain yn dod o Loegr, ac roedd yn ymddangos bod busnesau'n anymwybodol o'r gwahanol reoliadau yng Nghymru ynghylch y cyfnod clo. Arweiniodd hyn at rai grwpiau yn gorfod ceisio sicrwydd y gallent gasglu deunydd a ddosbarthwyd neu aildrefnu hynny.

5.34 Yn ogystal, mynegodd cyfranogwyr y grŵp ffocws rywfaint o anfodlonrwydd ynghylch y ffaith bod yr offer a'r deunyddiau yn y pecyn wedi cael eu sicrhau o Loegr neu'n rhyngwladol. Roedd cyfranogwyr yn teimlo bod digon o feithrinfeydd yng Nghymru y byddai modd eu defnyddio i sicrhau deunyddiau, ac y byddai gwneud hynny yn sicrhau bod y gwariant yn cynorthwyo economi Cymru:

*'Fy nghasbeth mwyaf oedd nad oedd arian wedi cael ei wario yng Nghymru. Roedd yr holl eitemau bron wedi* [dod] *o Blackburn, daeth y coed o Malvern, daeth siediau o Bradford. Ni phrynwyd y llyfrau yn lleol hyd yn oed. Mae'r* [tŷ gwydr yn tarddu] *o Israel. Nid ydw i'n gwybod ble y'i prynwyd, ond mae hyn yn wallgof. I mi, dylid gwario'r arian hwnnw yng Nghymru. Mae meithrinfeydd yng Nghymru. Ceir cwmnïau tai gwydr a siediau... rydw i'n gweithio gyda phobl y maent... ar lefel busnes bach iawn/microfusnes. Gallem fod wedi cael pobl i adeiladu rhywfaint o'r deunydd yna, gan greu cyflogaeth yng Nghymru a* [gwario'r] *arian hwnnw yng Nghymru er budd economi Cymru, felly hwn oedd un o'm casbethau mwyaf.'* **(Grŵp Ffocws Deiliaid Grant KWT, 2021)**

5.35 Nododd personél rheoli, fodd bynnag, y bu sialensiau arwyddocaol wrth gaffael deunyddiau ac offer. Bu'n rhaid chwilio am gyflenwyr a oedd yn meddu ar y capasiti i gyflenwi symiau sylweddol o offer a deunyddiau i Gymru gyfan. Yn ogystal, cafwyd problemau gyda'r cyflenwad ac argaeledd o ganlyniad i'r pandemig, wrth i fasnachwyr stopio masnachu, gan effeithio ar drefniadau dosbarthu, a gwelwyd cynnydd sylweddol yn y galw am ddeunyddiau ac offer garddio a garddwriaethol yn ystod y cyfnod clo yn arwain at brinder cenedlaethol:

*'Os ydym yn caffael ar gyfer rhaglen genedlaethol, rhaid i ni sicrhau cyflenwyr sy'n gallu cyflenwi ar lefel genedlaethol. Ni allwn gael 22 o wahanol gyflenwyr – byddai hynny'n ormod i'w reoli. Byddai'r gost yn amrywio'n sylweddol. Mae gennym rywfaint o amrywiad ac rydym yn ceisio defnyddio cyflenwyr lleol. Ond*

*ar gyfer rhai pethau, fel blychau nythu, rhaid i ni droi at gyflenwyr ar y raddfa hon sy'n gallu cyflenwi ar gyfer Cymru gyfan. Lle y gallwn, byddwn yn gwneud hynny. Ond rhaid i ni fod yn realistig o ran ble y byddwn yn caffael.'* **(Cyfweliad gyda Rheolwr, 2021)**

5.36 Roedd y pandemig wedi effeithio ar y gwaith o brosesu ceisiadau hefyd. Arweiniodd oedi estynedig ar ddechrau'r cyfnod gweithredol at gadw'r cyfnod ymgeisio ar agor trwy gydol rhan fwyaf y flwyddyn. Arweiniodd hyn at sialensiau a llwyth gwaith ychwanegol i staff, ynghyd ag amrywiadau yn nifer y ceisiadau a oedd yn cael eu gwneud ac yn cael eu prosesu. Roedd gofyn i bersonél rheoli newid o'u bwriad gwreiddiol i gymeradwyo pecynnau a rhestr wrth gefn yn ystod y misoedd cyntaf, yna canolbwyntio ar gynorthwyo'r gweithgarwch cyflawni:

*'Yn ddelfrydol, roeddem yn bwriadu cael rhai paneli yn ystod y misoedd cyntaf (a threfnu eu bod yn cael eu neilltuo) a rhestr wrth gefn* [ar gyfer gweddill y flwyddyn]*. Ond oherwydd* [COVID-19]*, cawsom don gyntaf enfawr, yna'r cyngor gan* [Lywodraeth Cymru] *ar gyfer y cyfnod clo oedd peidio'i hyrwyddo ac na ddylid cael unrhyw negeseuon y byddent yn gwrthdaro* [gyda chyfyngiadau'r cyfnod clo]*. Cawsom gyfnod anodd wrth i ni oedi pethau. Mewn gwirionedd, roedd yn golygu y bu'r cyfnod ymgeisio ar agor trwy gydol yr amser. Felly hyd yn oed ym mis Hydref, Tachwedd, roeddem yn cynnal ceisiadau ac yn cael paneli. Credaf yn gryf y byddem wedi parhau i gael cannoedd [*o geisiadau*] bob wythnos pe na bai* [COVID-19] *wedi dod, sef y cynllun ar gyfer blwyddyn dau.'* **(Cyfweliad gyda Rheolwr, 2021)**

### Rheolaeth

5.37 Mae'n ymddangos bod cymorth KWT wedi bod yn arbennig o ddefnyddiol i rai prosiectau, yn enwedig yng nghyd-destun y pandemig. Mae swyddogion prosiect wedi darparu cymorth ar lawr gwlad i brosiectau y maent wedi ei chael hi'n anodd cyflawni o ganlyniad i'r ffaith na allant ymgysylltu gwirfoddolwyr:

*'Heb os, nid wyf yn credu y byddem wedi gallu cwblhau hwn heb gymorth y swyddog prosiect. Felly mae hyn yn rhywbeth cadarnhaol, y bu modd i'r swyddog prosiect fod ar gael er mwyn ein helpu i wneud rhai pethau na fyddem wedi gallu eu gwneud fel arall oherwydd* [COVID-19]*.'* **(Grŵp Ffocws Deiliaid Pecyn KWT, 2021)**

5.38 Awgrymodd staff rheoli hefyd bod y swyddogion prosiect yn darparu llawer mwy o hyfforddiant anffurfiol a'u bod yn rhannu arfer da a gwybodaeth pan fyddant ar y safle gyda grwpiau na'r hyn a ragwelwyd yn wreiddiol.

5.39 Ym marn staff rheoli, mae'r sialensiau sydd wedi deillio o'r pandemig wedi arwain at lwyth gwaith llawer mwy, gan gynnwys cynnig mwy o gymorth i gyflawni'r gwaith. Mae sialensiau ehangach, megis yr amrywiad rhwng safleoedd, wedi golygu y bu gofyn gwneud mwy o waith ymgysylltu staff na'r hyn y bwriadwyd ei wneud ar y dechrau. Mae'r mater olaf wedi arwain at gynnig yn achos busnes 2021–2022 i gynllunio a chyllidebu am weithgarwch mwy hyblyg i neilltuo amser a chymorth i becynnau cychwyn.

*Gwersi a ddysgwyd a'r cylch gwerthuso mewnol*

5.40 Mae staff rheoli a'r cynllun busnes ar gyfer blwyddyn ariannol 2021-2022 yn dangos tystiolaeth o gylch gwerthuso mewnol ymwybodol ac effeithiol. Nodwyd gwersi allweddol a chynigiwyd newidiadau ar gyfer y flwyddyn gyflawni i ddod. Mae'r amrediad o fân newidiadau yn cynnwys rhai diwygiadau nodedig.

5.41 Yn gyntaf mae'r cynllun busnes yn bwriadu terfynu'r arfer o gymeradwyo ceisiadau cynghorau tref a chymuned yn awtomatig. Nododd staff bod mwyafrif y cynghorau o'r fath wedi'u lleoli mewn ardaloedd gwledig, nad oeddent heb leoedd natur nac o fewn diffiniad a mesuriadau Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC). Cyfeiriodd staff at Bowys yn gyson, sy'n cynnwys dros 100 o gynghorau cymuned y gallent gael cymeradwyaeth awtomatig i'w cais, waeth beth fo'r graddau y byddai modd eu hystyried yn ardaloedd difreintiedig, trefol neu ardaloedd o gwmpas trefi. Mewn cyferbyniad, mae gan Gaerdydd chwe chyngor o'r fath, y caiff eu ceisiadau eu cymeradwyo'n awtomatig.

5.42 Yn ogystal, mae'n ymddangos bod y cyfiawnhad dros gymeradwyo ceisiadau cynghorau tref a chymuned yn awtomatig yn mynd yn groes i resymeg ymgysylltu â grwpiau anghyfansoddiadol neu “dro cyntaf” gyda phrosiectau natur syml a hawdd manteisio arnynt. Mae awgrymiadau a archwiliwyd mewn perthynas â'r rhaglen grantiau cyfalaf yn nes ymlaen yn yr adroddiad hwn yn awgrymu hefyd bod cynghorau tref a chymuned, o ganlyniad i'r adnodd sydd ar gael trwy glercod, mewn sefyllfa dda i gael cynllun grant ac o ddelio gyda'r faich weinyddol o sicrhau cydymffurfiaeth ac adrodd.

5.43 Mae staff rheoli a'r cynllun busnes yn nodi hefyd y bydd ymdrech fwy pwrpasol i annog grwpiau difreintiedig a lleiafrifol i ymgysylltu â'r cynllun. Mae'r cynllun busnes ar gyfer 2021-2022 yn cynnig targed lle y bydd 10 y cant o ymgeiswyr yn perthyn i grwpiau anabl neu Du a Lleiafrifoedd Ethnig.

5.44 Yn olaf, mae rheolwyr wedi ceisio datblygu pecynnau a gynlluniwyd yn arbennig ar gyfer amgylcheddau trefol. Ar ôl ystyried adborth gan bersonél cyflawni a deiliaid grant, y bwriad ar gyfer 2021–2022 fydd cynnig 165 o becynnau cychwyn trefol wedi'u haddasu ar gyfer ardaloedd heb bridd a lle y mae deunyddiau ac offer yn gallu gwrthsefyll fandaliaeth yn well.

**Yr Effaith a Chynnal yr Effaith**

*Trafodaeth am yr effaith bosibl*

5.45 Yn gyntaf, rhaid ystyried y rhesymeg y gallai'r cynllun gyflawni'r effeithiau ehangach, cymunedol, lles a chaffael gwybodaeth y gobeithiwyd amdanynt. Mae'r cynllun, fel y'i gynlluniwyd, yn gynllun gosod cyfalaf er mwyn galluogi amrediad o grwpiau i fanteisio ar yr offer a'r deunyddiau sy'n angenrheidiol er mwyn dechrau datblygu eu taith ymgysylltu gyda byd natur. Y teithiau hynny fydd yn sicrhau effeithiau unigol, cymunedol, lles a chaffael gwybodaeth, nid y broses o gaffael a gosod yr offer a'r deunyddiau o reidrwydd. Byddai staff yn pwysleisio hefyd, fel y'i chynlluniwyd, nad rhaglen datblygu sgiliau neu lles yw hon, ond yn hytrach, cynllun gosod cyfalaf:

> *'Rhaglen cyfalaf yw hon – rhaid i ni gofio hynny. Rhaglen gosod cyfalaf ydyw. Rydym wedi creu rhaglen gosod cyfalaf, nid rhaglen sgiliau dros rhyw dymor hir. Hoffem iddi fod yn* [rhaglen datblygu sgiliau]*, ond nid yw hynny'n bosibl dan raglen cyfalaf.'* **(Cyfweliad gyda Rheolwr, 2021)**


5.46 O ganlyniad, mae'n realistig disgwyl gweld effaith ehangach y cynllun, y tu hwnt i greu lleoedd hygyrch ar gyfer byd natur, yn y tymor hwy ac o ganlyniad i ymgysylltu parhaus gyda'r lleoedd gan y grwpiau a'r cymunedau. Felly, efallai mai dim ond digon o gapasiti i sefydlu ac annog ymgysylltu parhaus o fewn ei hoes fydd gan y rhaglen a'i staff cyflawni. Mae'r adroddiad hwn wedi nodi eu bod yn bwriadu parhau i annog grwpiau i gynnal eu gweithgarwch ymgysylltu.

*Effaith*

5.47 Fel y mae Ffigwr 5.3 uchod yn awgrymu, mae derbynwyr pecynnau yn credu'n gryf bod y gwaith wedi helpu i greu lleoedd newydd er mwyn manteisio ar a mwynhau natur. Yn wir, roedd dros naw o bob 10 (93 y cant) o'r derbynwyr yn teimlo hyn i ryw raddau neu i raddau mwy.

5.48 Gofynnwyd cyfres o gwestiynau i ymatebwyr i'r arolwg ynghylch effaith y rhaglen arnyn nhw, ar eu grŵp ac ar y gymuned ehangach hefyd. Mae Ffigwr 5.10 isod yn cyflwyno'r ymatebion i gwestiynau ynghylch yr effaith ar unigolion. Mae'r data yn awgrymu bod ymgysylltu â'r prosiect yn sicrhau'r math o effaith y dymunir ei gweld ar y cyfan. Mae'r rhan fwyaf yn cytuno i ryw raddau bod cymryd rhan wedi cael effaith gadarnhaol ar eu lles meddyliol (84 y cant) neu gorfforol (80 y cant), a gwelwyd dim ond lleiafrif bach (un y cant) yn anghytuno.

**Ffigwr 5.10: Effaith ar unigolion**





N=142

5.49 Roedd y mwyafrif (84 y cant) yn teimlo hefyd eu bod bellach yn fwy tebygol o gefnogi prosiectau natur eraill yn lleol o ganlyniad i'w cyswllt gyda'r rhaglen. Mae hyn yn awgrymu bod pecynnau rhagdaledig yn llwyddo i sicrhau ymgysylltu a diddordeb, a hefyd, eu bod yn cynnal ymgysylltu gyda phrosiectau natur.

5.50 Roedd dros hanner yr ymatebwyr (61 y cant) i'r arolwg wedi honni hefyd eu bod yn fwy gwybodus am fyd natur bellach. Awgrymodd y grwpiau ffocws bod rhai grwpiau ac arweinwyr grŵp yn arddwriaethwyr profiadol, gan awgrymu na fyddai pecyn cymharol sylfaenol a lefel mynediad neu gychwyn yn gyfle dysgu arwyddocaol.

5.51 Mae Ffigwr 5.11 yn cyflwyno ymatebion ynghylch effaith y pecyn ar eu grŵp a'r gymuned. Yma, roedd yr ymatebion yn rhai cadarnhaol hefyd ynghylch effaith ymgysylltu â'r rhaglen.

**Ffigwr 5.11: Effaith ar y grŵp ac ar y gymuned**




N=142

5.52 Roedd y rhan fwyaf yn teimlo bod y gwaith wedi cael effaith gadarnhaol ar y grŵp (87 y cant) a bod y gymuned yn gryfach o ganlyniad i'r prosiect (78 y cant). A hefyd, mae'r data yn awgrymu bod y rhaglen wedi ymgysylltu grwpiau gyda phrosiectau natur ac y bydd yr ymgysylltu yn parhau. Awgrymodd y mwyafrif (91 y cant) y byddai eu grŵp yn parhau i weithio ar brosiectau natur ar ôl i'r pecyn ddod i ben.

*Cynnal yr effaith*

5.53 Dywedodd dros hanner (60 y cant) hefyd y byddant yn gwneud cais am (neu eu bod eisoes wedi gwneud cais am) gyllid neu gymorth pellach er mwyn cynnal eu gweithgarwch ymgysylltu gyda phrosiectau natur. Yn wir, soniodd y rhai a fu'n cymryd rhan yn y grŵp ffocws eu bod wedi gwneud cais am becynnau ychwanegol ar ôl yr un cyntaf, yn ogystal â symud ymlaen i'r pecyn datblygu neu hyd yn oed ymgysylltu gyda ffynonellau cyllid ehangach er mwyn cynnal gweithgarwch. Mae'r canfyddiadau o gyfweliadau gyda rheolwyr NLHF (isod) yn awgrymu hefyd bod deiliaid pecyn yn mynegi diddordeb yn y cynllun grantiau cyfalaf. Mae hyn yn awgrymu bod dymuniad clir ymhlith grwpiau sy'n cymryd rhan i barhau eu gweithgarwch ymgysylltu gyda phrosiectau natur:

*'I mi,* [euthum] *ymlaen i gael dau grant arall gan y loteri cod post. Rydw i'n credu fy mod i wedi cael dau. Y enw a roddom arno oedd o'r ddaear i'r ford. Felly rydym yn mynd i dyfu llysiau ac yna, coginio'r llysiau a rhoi llyfr ryseitiau ynghylch sut i dyfu a sut i fwyta'r llysiau. Felly roedd wedi ein cyflyru i wneud pethau eraill mewn ystyr ehangach. Ac mae'r Gymdeithas Tai yn dymuno datblygu llain wrth ein hymyl ni er mwyn cael rhandiroedd. Felly rydw i'n credu ei fod wedi cael ei gyflyru. Mae'n debyg i flaguryn bach yn troi'n llwyn mawr (neu rywbeth).'* **(Grŵp Ffocws Deiliaid Pecyn KWT, 2021)**

5.54 Yn ogystal, nododd cyfranogwyr y grŵp ffocws sut yr oedd eu gweithgareddau yn datblygu a sut y maent yn bwriadu cynnal eu gweithgarwch ymgysylltu gyda'r gymuned ehangach:

> *'Ie, rydym yn bwriadu cael rhai diwrnodau agored pan fydd hawl gwneud hynny. Bydd hyn er mwyn i ni allu cyfnewid hadau efallai, na fydd modd i ni ei wneud tan y flwyddyn nesaf efallai, ond rydym yn dymuno datblygu rhai o'r mathau hynny o syniadau hefyd.* [Rydym yn dymuno] *gadael y bobl leol i ddod i mewn i'r gymuned ac i'r rhandiroedd, edrych o gwmpas, dysgu pethau,* [ac] *efallai prynu llysiau dros ben neu rai blodau neu berlysiau y maent wedi'u tyfu. Felly ie, rydym yn bwriadu mynd ati fel hyn i agor cwmpas y rhandir allan i bobl leol.'* **(Grŵp Ffocws Deiliaid Pecyn KWT, 2021)**

5.55 Nododd y staff rheoli eu bwriad i gadw mewn cysylltiad gyda deiliaid y grant am o leiaf bum mlynedd. Yn ystod y cyfnod, maent yn bwriadu ymgysylltu gyda'r grwpiau er mwyn gwerthuso'r effaith arnynt dros gyfnod o amser, yn ogystal â monitro y graddau y mae'r grwpiau yn cynnal eu gweithgarwch ymgysylltu gyda'r lleoedd. Yn ogystal, bydd staff yn ceisio annog grwpiau i ddatblygu eu gweithgarwch ymgysylltu ymhellach a gwneud cais am grantiau eraill, gan gynnwys rhai cynlluniau o fewn LPfN:

> *'Flwyddyn nesaf, byddwn yn dychwelyd i'r pecynnau ardal trefol ac yn eu hannog i symud ymlaen o becyn cychwyn i becyn datblygu neu i gysylltu â'r* [Loteri Genedlaethol]. *Rhaid i ni gadw mewn cysylltiad gyda nhw ta beth, felly byddwn yn parhau i awgrymu hynny. Ar gyfer y rheiny, rydym yn bendant yn dymuno eu gweld yn parhau i wneud mwy.'* **(Cyfweliad gyda Rheolwr, 2021)**

## 6. Safbwyntiau Rhanddeiliaid

6.1 Roedd lefel gweithgarwch ymgysylltu rhanddeiliaid gyda rhaglen LPfN yn amrywio. Yn gyffredinol, ni fu rhanddeiliaid yn ymwneud yn uniongyrchol gyda'r gwaith cyflawni. Roedd y cyswllt a'r ymgysylltu yn tueddu i fod ar lefel polisi a/neu fel aelodau o banel ceisiadau. Bu rhai'n ymwneud â hwyluso a chynorthwyo elfen benodol o'r rhaglen, megis helpu i lunio elfennau o'r rhaglen a chefnogi'r cais i ariannu'r cynllun. Fodd bynnag, ni fu unrhyw gyswllt gyda gweithrediad manwl o'r cynllun “ar lawr gwlad”.

*Rhesymeg, amcanion a chynllun y rhaglen*

6.2 Cyflëwyd y rhesymeg mewn amrywiaeth o ffyrdd, gyda chonsensws cryf am y cyd-destun ar gyfer y rhaglen. Fodd bynnag, gwelwyd cyferbyniad amlwg mewn pwyslais rhwng ffocws cymunedol y rhaglen a'r ffocws ar natur/hinsawdd. I rai, er enghraifft, roedd y rhaglen *'[…] wrth wraidd ymateb i argyfwng natur/hinsawdd'* **(Cyfweliad gyda Rhanddeiliad, 2021)**. I eraill, fodd bynnag, roedd y nod pennaf fel a ganlyn:

> *'Gwella profiadau pobl o fyd natur yn y mannau lle y maent yn byw ac yn gweithio. Yn ogystal, mae ganddo ddiben hamdden* […] *gweithredu lleol ynghylch trysorau.'* **(Cyfweliad gyda Rhanddeiliad, 2021)**

6.3 Yn fwy cyffredinol, mynegwyd amheuaeth gan sawl rhanddeiliad ynghylch rhesymeg y dull a fabwysiadwyd gan LPfN. Awgrymodd nifer bod y rhaglen yn annhebygol o sicrhau unrhyw effaith arwyddocaol ar fyd natur a bioamrywiaeth, a bod gofyn cael rhaglen ar raddfa fawr *'y mae modd ei gweld o'r gofod'* **(Cyfweliad gyda Rhanddeiliad, 2021)** (yn hytrach na dull amrywiol ac ar raddfa lai LPfN).

6.4 Rhybuddiodd un rhanddeiliad, er enghraifft, mewn perthynas â chynllun KWT yn benodol, eu bod wedi gweld gweithgarwch plannu cymunedol yn mynd a dod a bod cyflwr y rhain yn aml yn dirywio. Yn ogystal, nid yw'r rhaglen plannu cymunedol yn gwneud fawr ddim i hyrwyddo cysylltedd. Teimlwyd bod gormod o bwyslais ar ddysglau plannu, sy'n *'bychanu maint y lle sy'n ofynnol'* **(Cyfweliad gyda Rhanddeiliad, 2021)**.

6.5 Fodd bynnag, efallai bod y sylwadau hyn wedi cymryd bod y pecynnau KWT bychain wrth wraidd LPfN, yn hytrach na bod yn rhan benodol a gynlluniwyd i ddenu ac annog ymgysylltu am y tro cyntaf. Yn fwy cyffredinol, mae'n bosibl bod y ffaith y caiff rhesymeg y rhaglen ei chyfleu mewn ffordd aneglur, ynghyd â'r ffaith na ellir

ymgysylltu gyda a chael profiad o ehangder y rhaglen, yn cyfyngu ar y graddau y gall rhanddeiliaid gynorthwyo a helpu i ddatblygu'r rhaglen.  Fodd bynnag, mae darganfod a yw hyn yn wir mewn gwirionedd y tu hwnt i gwmpas y gwaith ymchwil cyfredol.

*"Ffit" strategol a rhesymeg*

6.6 Roedd rhanddeiliaid wedi cysylltu'r rhaglen gyda'r Confensiwn Bioamrywiaeth,[14] yn ogystal â'r Cynllun Cenedlaethol i Gymru,[15] lle y mae'n ymwneud gyda blaenoriaethau sy'n ymwneud â lles a'r hinsawdd.  Amlygodd rhywun arall a gyfwelwyd y cysylltiadau cryf gyda Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, gan awgrymu ei bod yn amlygu ei hun yn elfennau partneriaeth lleol y rhaglen, gyda chysylltiadau gyda meysydd eraill.

6.7 Gwelwyd cydnabyddiaeth o'r ffaith bod yr argyfwng natur a'r argyfwng hinsawdd yn gysylltiedig.  O ran cael dealltwriaeth ehangach o'r cyd-destun, roedd y ffaith bod rhai awdurdodau lleol wedi cyhoeddi argyfwng hinsawdd yn cael ei ystyried yn gymhelliant allweddol ar gyfer y rhaglen.

6.8 Nodwyd hefyd bod awdurdodau lleol yn rheoli darnau sylweddol o dir, sy'n cynnig cyfle arwyddocaol i reoli newid mewn arferion.  O ganlyniad, cyflwynodd y rhaglen gyfleoedd i sicrhau newid ar draws Cymru.  Nid oedd hyn yn gysylltiedig mewn ffordd amlwg gyda gwaith LNPs trwy gyfrwng LPfN, gan awgrymu diffyg ymwybyddiaeth posibl o fanylion gweithredol y rhaglen ymhlith rhanddeiliaid.

6.9 O ran rhaglenni eraill Llywodraeth Cymru, cyfeiriodd yr holl rai a gyfwelwyd at raglen y Goedwig Genedlaethol[16] a'r angen i sicrhau gweithgarwch cydlynu.  Roedd y ffaith nad oedd rhaglen LPfN yn digwydd ar wahân, ond yn hytrach, ei bod yn gysylltiedig gyda rhaglenni cyflenwol eraill pan fo modd, yn allweddol i randdeiliaid.

6.10 Yn ogystal, nododd rhanddeiliaid bod y pandemig wedi bwrw goleuni newydd ar gyn lleied y cyllid a'r gweithredu sy'n bodoli ar gyfer argyfwng byd natur o'i gymharu  â'r argyfwng iechyd.

[14] Confensiwn ar Amrywiaeth Biolegol
[15] Cymru'r Dyfodol:  y Cynllun Cenedlaethol 2040 (Llywodraeth Cymru)
[16] Coedwig Genedlaethol i Gymru (Llywodraeth Cymru)

*Cynllun*

6.11 Cyfeiriodd un o'r rhai a gyfwelwyd at y cydlyniad rhwng y cynlluniau, gan amlygu'r ffordd y mae aelodau KWT, CGGC ac NLHF yn croes-gyfeirio ceisiadau, yn ceisio cyngor ac yn eistedd ar baneli ei gilydd. Tybiwyd bod hyn yn gryfder arbennig yng nghynllun y rhaglen.

6.12 Roedd rôl sefydliadau anllywodraethol (NGOs) a phartneriaethau lleol wrth alluogi'r rhaglen i weithredu yn ffactor allweddol. Yn ogystal, barnwyd bod rôl CGGC a KWT wrth gydlynu'r partneriaethau hyn yn ffactor allweddol wrth ganiatáu'r rhaglen i symud yn ei blaen.

6.13 Fodd bynnag, mynegwyd ofn gan rai o'r rhai a gyfwelwyd bod gorddibyniaeth ar y trydydd sector yn lleihau budd awdurdodau lleol. Yn eu barn nhw, roedd angen sicrhau cydbwysedd rhwng y sector cyhoeddus a'r trydydd sector. Awgrymodd un o'r rhai a gyfwelwyd bod perygl bod y rhaglen yn dibynnu ormod ar ewyllys da a chapasiti ar lawr gwlad, gan gysylltu hyn gyda siom ynghylch methiant rhai NGOs natur i fanteisio ar y cynllun.

6.14 Gwelwyd ychydig bryder hefyd ynghylch cynaliadwyedd rhai prosiectau o ran ôl-ofal, ac nad oedd rhai cynigion da wedi cael eu gwneud oherwydd pryderon ynghylch costau hyn. Yn fwy cyffredinol, gwelwyd tuedd i ffafrio'r cynaliadwy a'r diogel yn hytrach na chyllid prosiect tymor byr, a gwirfoddolwyr yn cael y dasg o sicrhau'r cynaliadwyedd.

*Cyflawni*

6.15 Roedd rhanddeiliaid, yr oedd pellter rhyngddynt a'r cyflawni gweithredol ac yr oedd eu hymgysylltu gyda'r lleoedd a oedd yn cael eu creu yn gyfyngedig oherwydd cyfyngiadau'r pandemig, wedi cyfyngu eu sylwadau ynghylch cyflawni.

6.16 Dywedodd un o'r rhai a gyfwelwyd ei bod yn gallu bod yn anodd hyrwyddo syniadau, gyda'r angen am 'guriadau' cyfathrebu yn hytrach na [sic] *‘bang mawr ar y dechrau’* **(Cyfweliad gyda Rhanddeiliad, 2021)**. Yn ogystal, awgrymodd y sawl a gyfwelwyd nad oedd rhoi'r un enw i'r tri chynllun wedi helpu, oherwydd efallai y byddai hyn wedi drysu rhai pobl ac nad oeddent wedi llwyddo i sicrhau'r cynllun a oedd fwyaf addas i'w hanghenion nhw. Fodd bynnag, ni chodwyd y broblem hon yn ystod y gwaith maes ehangach ar gyfer y gwerthusiad hwn.

6.17 Mae rhai safleoedd prosiect yn gosod codau QR ar fyrddau er mwyn hyrwyddo dealltwriaeth, cymorth a chysylltiadau ac annog gweithgareddau. Barnwyd bod hyn yn ddull arbennig o arloesol a defnyddiol er mwyn codi ymwybyddiaeth ac ehangu gwybodaeth.

6.18 Pwysleisiodd rhai rhanddeiliaid berthynas sy'n newid mewn ffordd ehangach gyda byd natur o ganlyniad i'r pandemig, gan awgrymu bod cyfle i raglen LPfN fanteisio ar y galw:

> '[Cyn COVID-19] *roedd cryn bwyslais ar bresgripsiynu cymdeithasol mynediad i natur ac iechyd meddwl, ond ceir anawsterau wrth ddarparu hyn i ardaloedd difreintiedig* […]. [Ond] *darganfu pobl y cysylltiad gyda byd natur oherwydd y cyfnod clo — rydym wedi cael llif o bobl yn teimlo'r angen i ymgysylltu gyda byd natur.'* **(Cyfweliad gyda Rhanddeiliad, 2021)**

*Effaith a gwaddol*

6.19 Yn ogystal, roedd trafodaethau ynghylch effaith y rhaglen yn tueddu i fod wedi'u gwreiddio mewn dadleuon damcaniaethol ynghylch rhesymeg a dull gweithredu y rhaglen. Roedd rhanddeiliaid yn honni, er enghraifft, nad yw lefel y gwaith gweithredu yn golygu y bydd yn ymateb i'r argyfwng hinsawdd a natur. Yn eu barn nhw, roedd Llywodraeth Cymru yn troi at yr her hon o'r pen anghywir. Gallai hyn awgrymu, fodd bynnag, nad yw rhanddeiliaid wedi llwyr werthfawrogi maint yr ymyrraeth, a'i bod yn ymddangos eu bod yn disgwyl rhaglen mwy o faint a mwy uchelgeisiol na'r hyn y mae LPfN yn ceisio bod. Fodd bynnag, nid oedd darganfod a oedd hyn yn wir o fewn cwmpas y gwaith ymchwil cyfredol.

6.20 Awgrymodd rhai hefyd, trwy integreiddio ffocws ar lesiant, cydlyniad cymunedol a gweithredu gyda ffocws ar yr hinsawdd, ecosystem a byd natur, bod y canlyniad yn debygol o fod yn ymateb llai effeithiol a gwannach i'r holl sialensiau, yn hytrach nag yn ymateb adeiladol i un.

6.21 O ran cynnal gweithgarwch ymgysylltu, gwelwyd cryn dipyn o hyder y byddai gwirfoddolwyr yn parhau i gefnogi ymdrechion ar ran byd natur, gan fynd yn groes i eraill a oedd wedi cwestiynu'r tebygolrwydd y byddai hyn yn digwydd. Fodd bynnag, nodwyd y byddai ewyllys da, tîm da o wirfoddolwyr, costau rhesymol, a rhywfaint o ddiogelwch tir yn cynorthwyo cynaliadwyedd hefyd.

6.22 Yn wir, roedd cynaliadwyedd yr effaith yn bryder allweddol i sawl rhanddeiliad. Awgrymodd rhai y dylai cynlluniau osgoi contractau tymor byr sy'n parasiwtio cymorth i ardal ac sy'n *'diflannu ar ôl dwy flynedd'* **(Cyfweliad gyda Rhanddeiliad, 2021)**:

> *'Trwy symud ymlaen, nid ydynt yn datblygu capasiti lleol. Mewn gwirionedd, dylid cael rheolau llymach, hyder mewn cynlluniau lleol ar gyfer* [y] *tymor hir, ac adnoddau amrywiol ar gyfer cynlluniau hirdymor.'* **(Cyfweliad gyda Rhanddeiliad, 2021)**

6.23 O ran sut y byddai modd rhedeg y rhaglen mewn ffordd wahanol, nododd rhai bod graddfa perchnogaeth tir yn ffactor hollbwysig, a bod cwmnïau preifat yn gallu bod yn ddylanwadwyr mawr, gan ddadlau bod angen cynghreiriau mwy o bartneriaid er mwyn adfer ecosystemau cyfan.

# 7. Casgliadau

## Trafodaeth am y Canfyddiadau a Themâu Cyffredin

*Rhesymeg a chynllun*

7.1 Cynlluniwyd y tri chynllun i gyrraedd grwpiau gwahanol ac mae'n ymddangos eu bod yn cyflawni canlyniadau ychydig yn wahanol. Roedd tystiolaeth i awgrymu, er eu bod yn wahanol, bod yr elfennau yn gydategol. Gyda'i gilydd, mae ganddynt y potensial i sicrhau newid o sawl maint, ac mewn perthynas ag amrediad o gymunedau ac unigolion, yn ogystal ag annog cynaliadwyedd ac ymgysylltu estynedig.

7.2 Barnwyd bod cefnogaeth CGGC ar gyfer LNPs wedi cael ei gynllunio mewn ffordd arbennig o dda er mwyn gwella'r gwaith o reoli lleoedd natur a chynyddu eu mynediad i'r cymunedau lleol. Gan eu bod yn LNPs ar draws Cymru, mae ganddynt y capasiti i sicrhau newid ar draws y wlad ac ar raddfa lle na all y pecynnau KWT neu'r cynlluniau grantiau cyfalaf ei wneud.

7.3 Barnwyd bod y ffocws ar ardaloedd trefol ac ardaloedd o gwmpas trefi yn llai perthnasol i'r LNPs. Cyfeiriodd cydlynwyr gwledig yn arbennig at natur fwy gwasgaredig amddifadedd ac at ddaearyddiaeth teithio a byw ehangach pobl wledig. Roedd hi'n anos cyfiawnhau lleoliadau gweithgarwch o fewn cwmpas llym y rhaglen.

**Argymhelliad 1:** Dylai Llywodraeth Cymru ystyried llacio'r diffiniad a ffocws daearyddol rhywfaint o waith LNPs. Bydd hyn yn galluogi'r LNPs i sicrhau newid ar draws ardal ehangach, y mae hon, er nad yw'n ardal drefol neu'n ardal o gwmpas tref ac yn ddifreintiedig, yn ardal (er hyn) a ddefnyddir gan breswylwyr ardaloedd difreintiedig.

7.4 Yn ogystal, dylid ystyried bod y cyd-destun deddfwriaethol yn ffactor allweddol sy'n cymell awdurdodau lleol. Mae'n ymddangos bod LPfN yn cyd-fynd gyda ac yn cynnig ffordd o fodloni gofynion statudol sawl darn allweddol o ddeddfwriaeth, megis Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015) a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) (2016), yn ogystal â blaenoriaethau strategol ehangach.

7.5 Mae'n ymddangos bod y risg i'r LNPs a'u staff os na chaiff cyllid ehangach ei gynnal yn wendid allweddol o fewn cynllun CGGC. Gyda'r disgwyliad i'w cyllid ddod i ben ar ddiwedd 2022, ceir amheuaeth ynghylch capasiti a rôl hirdymor yr LNPs. Er na ellir gwneud unrhyw argymhelliad penodol, dylai Llywodraeth Cymru, er hyn, barhau i

fod yn ymwybodol o'r risg i'r LNPs, y ddibyniaeth ar ffrydiau cyllid ehangach, a'r sialensiau y mae hyn yn ei achosi ar gyfer gweithgarwch cynllunio dros y tymor hwy.

**Argymhelliad 2:** Roedd y diffyg eglurder ynghylch y cymorth ariannol ehangach ar gyfer yr LNPs/cydlynwyr yn rhwystr allweddol ar gyfer cynllunio hirdymor. Roedd cyllid ar gyfer cydlynwyr LNP yn fygythiad i'r rhaglen, gyda risg ynghylch a fyddai darpariaeth barhaus yn bodoli trwy'r LNPs os na fydd y cyllid ehangach yn parhau. Dylai Llywodraeth Cymru archwilio ffyrdd o gynnig sicrwydd o ran y cyllid a pharhad i LNPs.

7.6 Barnwyd bod rhaglen grantiau cyfalaf NLHF yn arbennig o effeithiol wrth gynorthwyo prif gynlluniau ehangach er mwyn adfywio ardaloedd penodol mewn ffyrdd pwrpasol ac effeithiol iawn. Roedd hyblygrwydd y cynllun wedi caniatáu i nifer o ymgeiswyr, yn enwedig cynghorau tref a chymuned, fanteisio ar gyllid cyfalaf ar gyfer gwaith allweddol, er bod hyn yn waith a oedd yn aml yn waith paratoadol, ar safleoedd a gynlluniwyd er mwyn galluogi mynediad ac ymgysylltu gyda chymunedau.

7.7 Mewn egwyddor, roedd y grantiau'n gallu gweithredu fel ffordd o ddatblygu lleoedd yr oeddent wedi cael budd gan becynnau KWT rhagdaledig, er hyd yn hyn, dim ond ymholiadau a wnaethpwyd. Mae'r potensial hwn yn cynrychioli ffordd o gynorthwyo cynaliadwyedd gweithgarwch ymgysylltu grwpiau gyda byd natur.

**Argymhelliad 3:** Dylid deall y cyswllt rhwng cynlluniau KWT ac NLHF fel ffordd o gynorthwyo cynaliadwyedd y rhaglen ac ymgysylltu parhaus grwpiau gyda phrosiectau natur. Efallai y bydd o fudd archwilio'r ffordd fwyaf effeithiol o annog ymgeiswyr perthnasol am becyn KWT i symud at ddatblygiad pellach eu safleoedd trwy gyfrwng y cynllun grantiau cyfalaf. Gallai hyn gynnwys grantiau rhagflas llai, gan gynnwys rhai ar ffurf grant bach o fewn pecyn datblygu KWT, neu gymorth ehangach hyd yn oed mewn perthynas â chreu grŵp ac uwchsgilio aelodau i reoli grantiau.

7.8 Fodd bynnag, roedd y diffyg adfer costau llawn yn wendid allweddol yng nghynllun cynllun grantiau cyfalaf NLHF, a theimlwyd y byddai hyn yn galluogi sefydliadau mawr ac o faint canolig o'r trydydd sector i ymgysylltu â'r rhaglen. Teimlwyd bod ansicrwydd ynghylch y cyllid a gofyniad i roi cymhorthdal i'r rhaglen i bob pwrpas yn rhwystrau yr oeddent yn eu hatal rhag ymgysylltu.

**Argymhelliad 4:** Efallai y byddai Llywodraeth Cymru yn gwneud rhaglen NLHF yn fwy deniadol i sefydliadau mawr ac o faint canolig o'r trydydd sector, yn ogystal ag annog eu hymgysylltiad, pe bai'r sefydliadau yn gallu adfer y costau llawn o redeg prosiectau.

7.9 Roedd pecynnau KWT yn ceisio ymgysylltu grwpiau gyda phrosiectau natur, yn enwedig grwpiau newydd. Mae blwyddyn gyntaf y rhaglen wedi darparu prawf o'r cysyniad hwn, wrth i amrediad o grwpiau, gan gynnwys y rhai sydd newydd gael eu sefydlu, ymgysylltu gyda'r pecynnau. Yn fwy cyffredinol, mae'n ymddangos bod y cynllun yn cyflawni rôl gwerthfawr wrth ysgogi ymgysylltu gyda byd natur ac annog y grwpiau i ddatblygu eu gweithgareddau naill ai gyda phecyn datblygu neu thrwy droi at gynllun grantiau cyfalaf NLHF.

7.10 Fodd bynnag, cwestiynodd rhanddeiliaid raddau effaith y pecynnau KWT ar natur a bioamrywiaeth, o ystyried maint bach yr ymyriadau. Er y gellir deall yr amheuaeth ac nid yw'r effeithiau penodol ar fyd natur wedi cael eu mesur eto, mae'r gwerthusiad hwn yn awgrymu y dylid deall elfen KWT y cynllun law yn llaw â'r lleill. Dylid ei deall fel rhan y mae'n ymddangos ei bod yn canolbwyntio'n fwy ar bobl a chymuned, ac mai gosod asedau cyfalaf, darparu offer, a chynorthwyo grwpiau tro-cyntaf i gymryd eu camau cychwynnol yw ei phrif lwyddiannau.

7.11 Mae grwpiau sefydledig (y maent yn brofiadol ym maes prosiectau natur), yn ogystal â chynghorau tref a chymuned, yn manteisio ar y pecynnau hefyd. Roedd hyn yn bennaf o ganlyniad i'w hygyrchedd a'u natur deniadol fel ffordd hawdd o gael buddsoddiad mewn offer a deunyddiau. Mae'n ymddangos bod y grwpiau sefydledig yn defnyddio'r pecynnau er mwyn ychwanegu at a gwella lleoedd natur sy'n bodoli eisoes. Felly, nid yw'r rhaglen wastad yn cynorthwyo'r broses o greu lleoedd newydd ar gyfer byd natur, ond yn hytrach, mae weithiau yn gwella lleoedd sy'n bodoli eisoes neu'n denu grwpiau newydd i ymgysylltu gyda byd natur.

7.12 Mae data yn awgrymu bod cymeradwyaeth awtomatig ceisiadau cynghorau tref a chymuned wedi arwain at osod pecynnau mewn ardaloedd gwledig ac mewn ardaloedd difreintiedig nad ydynt yn rhai trefol/ardaloedd o gwmpas trefi mewn rhai achosion. Gan mwyaf, roedd ymgeiswyr am becyn o'r farn bod lleoedd natur yn gymharol hygyrch yn eu hardaloedd lleol nhw. Gallai hwn fod yn fater goddrychol sy'n ymwneud â thybiaethau ymatebwyr, ond mae'n parhau i fod yn wir bod y cynllun yn debygol o fod yn ymgysylltu gydag ystod ehangach o leoedd nag y cafodd ei sefydlu i'w targedu.

**Argymhelliad 5:** Byddai modd gwneud mwy i fanteisio i'r eithaf ar gryfderau tybiedig cynllun KWT, sef ei allu i ddenu grwpiau newydd mewn ardaloedd trefol ac ardaloedd o gwmpas trefi sy'n ddifreintiedig. Gallai rheolwyr KWT gael mwy o reolaeth a dylanwad dros natur grwpiau sy'n cael y pecynnau, yn ogystal â rhoi mwy o bwyslais ar ardaloedd difreintiedig trefol ac ardaloedd difreintiedig o gwmpas trefi, pe na bai ceisiadau pob cyngor tref a chymuned am becynnau yn cael eu cymeradwyo yn awtomatig.

7.13 Er bod y pecynnau yn ysgogi gweithgarwch ymgysylltu gyda byd natur ac maent eisoes yn arwain at effeithiau cymunedol ac unigol, cynllun gosod cyfalaf yw'r cynllun ei hun i bob pwrpas. Nid oes gan reolwyr KWT fawr iawn o ffyrdd, y tu hwnt i ymgysylltu cyfyngedig swyddogion prosiect ar y safle gyda gwirfoddolwyr, o ddatblygu sgiliau a chynorthwyo gweithgarwch ymgysylltu effeithiol gyda'r lleoedd er mwyn sicrhau'r manteision lles a chymunedol disgwyliedig. Fodd bynnag, er nad yw'r swyddogion prosiect wedi cael eu hariannu i wneud hynny ar hyn o bryd, mae ganddynt y potensial i gynnig rhagor o gymorth i wirfoddolwyr i feithrin sgiliau a rhannu arfer da y gallai helpu i sicrhau'r manteision lles a chymunedol disgwyliedig.

7.14 Ystyrir bod pob cynllun wedi elwa ar alw cynyddol i fanteisio ar ragor o leoedd natur. Gallai'r cyfnod yn dilyn y cyfnod clo fod yn gyfle unigryw i ymgysylltu pobl gyda gweithgarwch gwirfoddoli sy'n seiliedig ar fyd natur, bioamrywiaeth, yr amgylchedd a chadwraeth.

**Argymhelliad 6:** Dylai Llywodraeth Cymru ystyried y cyfle unigryw a'r cynnydd yn y galw a'r diddordeb a allai ddeillio o'r cyfnod clo. Efallai bod gan y camau gweithredu yn ystod y cyfnod ar ôl y cyfnod clo, yn enwedig os cânt eu cyfathrebu mewn ffordd effeithiol, y potensial i gael mwy o effaith ac i ddenu mwy o ddiddordeb nag y byddent yn ystod cyfnodau eraill. Dylai Llywodraeth Cymru fanteisio ar y cyfnod hwn i sicrhau mwy o werth i'r buddsoddiad mewn rhaglenni neu weithgarwch hyrwyddo rhaglenni (megis LPfN) sy'n ceisio ymgysylltu pobl gyda gwirfoddoli sy'n seiliedig ar fyd natur.

7.15 Yn ogystal, heriwyd pob cynllun gan derfynau amser llym. Er y gall y cynllun grantiau cyfalaf gynnig mwy o hyblygrwydd i'w ddeiliaid grant, mae'r ddwy gangen gyllido eraill wedi wynebu llwyth gwaith a baich gweinyddol cynyddol o ganlyniad i gyfnod byr y gronfa arddangos, ac mae angen iddynt baratoi cynlluniau ail blwyddyn law yn llaw gyda gweinyddu blwyddyn gyflawni anodd.

*Cyflawni*

7.16 Mae'r pandemig wedi effeithio ar bob cynllun mewn ffordd arwyddocaol. Mae'r effaith ar gaffael ac argaeledd deunydd i'w ddosbarthu, offer a deunyddiau, yn ogystal â'r gwaith sydd wedi cronni ac sy'n oedi ymgysylltiad contractwyr ar rai safleoedd, wedi oedi'r gwaith. Yn achos cynllun KWT, mae swyddogion prosiect wedi cynorthwyo'r gwaith cyflawni, a bu'n rhaid i gynlluniau eraill oedi gwaith dilynol.

7.17 Mae'n bwysig nodi y gallai'r niferoedd a demograffeg yr unigolion sy'n cymryd rhan fod yn wahanol os a phan fydd effaith y pandemig a'r mesurau rheoli cysylltiedig yn lleihau. Credir y gallai categorïau cyfranogwyr 18–44 a 75+ oed fod wedi wynebu rhwystrau sylweddol wrth gymryd rhan oherwydd eu bod yn gwarchod ac yn agored i niwed neu oherwydd cyfrifoldebau gofal plant a gofalu.

7.18 Y peth sydd wedi cael yr effaith fwyaf, fodd bynnag, yw'r cyfyngiad sylweddol ar weithgarwch gwirfoddoli ac ymgysylltu unigol neu gymunedol ar draws pob cynllun a safle. O ystyried nodau craidd y rhaglen, rhaid deall yr effaith y gwelwyd tystiolaeth ohoni yn yr adroddiad hwn o fewn y cyd-destun hwn, ac mae'n debygol iawn y byddai effaith ehangach ac ar raddfa fwy wedi bod yn bosibl efallai pe na bai'r cyfnodau clo wedi cyfyngu ar y gweithgarwch ymgysylltu gyda'r lleoedd i'r graddau ag y maent wedi gwneud hynny.

7.19 At hynny, mae'n debygol bod effaith y pandemig wedi cyfyngu ar allu rhanddeiliaid allweddol i ymgysylltu gyda'r rhaglen i ryw raddau neu i raddau mwy.

7.20 Awgrymodd rhai cydlynwyr LNP ei bod yn anodd sicrhau bod cymunedau difreintiedig yn ymgysylltu gyda rhaglenni natur. Roedd y tîm gwerthuso yn teimlo y dylid herio'r dybiaeth hon. Mae'r farn yn mynd yn groes i resymeg y rhaglen i ryw raddau, yn ogystal â phrofiadau a llwyddiannau cynllun KWT wrth ymgysylltu gyda chymunedau a grwpiau o'r fath. Yn ogystal, mae'r farn mewn cyferbyniad ag argraff rheolwyr cynllun grantiau cyfalaf NLHF, a awgrymodd bod cynghorau tref a chymuned yn ymgysylltu gyda chymunedau lleol mewn ffordd effeithiol.

**Argymhelliad 7:** Dylai'r rhaglen geisio hwyluso'r arfer o rannu profiadau ac arfer da mewn perthynas ag ymgysylltu â chymunedau difreintiedig. Yn fwy penodol, dylai cydlynwyr LNP geisio ymgysylltu gyda rheolwyr cynllun NLHF a KWT, yn ogystal â'r cynghorau tref a chymuned sy'n ymwneud â'r cynllun grantiau cyfalaf, neu ymgysylltu gyda gweithgarwch ehangach i fyfyrio am eu harferion ymgysylltu nhw.

7.21 Mynegodd deiliaid pecyn KWT anfodlonrwydd ynghylch ffynhonnell nifer o'r rhannau o fewn y pecynnau a gafwyd. Sicrhawyd nifer o eitemau o'r tu hwnt i Gymru oherwydd prinder a diffyg capasiti i fodloni archebion sylweddol. Mae rheolwyr cynllun KWT yn awgrymu y dylid sicrhau eitemau'n lleol pan fo modd. Er hyn, mae'r cynllun yn cynrychioli cyfle i fuddsoddi mewn economïau lleol, a pho fwyaf a gaiff ei wario yng Nghymru, y mwyaf y bydd cymunedau lleol yn elwa. Yn ogystal, gallai cost amgylcheddol pellteroedd cyflenwi pellach wrthbwyso rhai o'r manteision y cânt eu sicrhau gan y pecynnau ar ôl eu gosod.

**Argymhelliad 8:** Efallai y bydd Llywodraeth Cymru yn dymuno ystyried y gadwyn gyflenwi sy'n cynorthwyo'r cynllun. Gall rheolwyr cynllun KWT a Llywodraeth Cymru, er enghraifft, geisio rhoi rhybudd priodol i gyflenwyr allweddol yng Nghymru er mwyn annog gweithgarwch i ehangu'r capasiti er mwyn bodloni'r galw. Bydd sicrwydd ynghylch cynaliadwyedd y rhaglen dros y tymor hir, yn ogystal â gweithgarwch cydlynu gyda chynlluniau natur ehangach Llywodraeth Cymru, yn rhoi hyder pellach i gyflenwyr yng Nghymru i fuddsoddi mewn gallu cyflenwi'r galw parhaus.

Efallai mai un dewis arall fydd i reolwyr rhaglen gynnwys grant cyfalaf ar gyfer cyllid dewisol i'r grwpiau yn y pecynnau datblygu. Gallai'r dull olaf hwn gynorthwyo datblygiad pellach grwpiau, gan annog grwpiau ac unigolion i ddatblygu profiadau a sgiliau sy'n gysylltiedig gyda gwariant a rheolaeth grantiau, hyd yn oed ar raddfa fach. Mae'r gwariant hwn yn fwy tebygol o gael ei wario yn yr ardal leol, gan wrthbwyso'r pryderon ynghylch sicrhau deunyddiau. Yn ogystal, dylai rheolwyr rhaglen archwilio ac ystyried manteision cyflogi hwyluswyr i weithio mewn grwpiau.

*Effaith*

7.22 O ganlyniad i oedi wrth gyflawni'r rhaglen a'r ffaith y cynhaliwyd y gwerthusiad hwn yn gynnar, nid yw'n bosibl arsylwi effeithiau llawn y rhaglen eto. Er gwaethaf hyn, mae'r data yn awgrymu bod pecynnau KWT yn cael effaith gadarnhaol ar unigolion a chymunedau. Yn ogystal, mae'r data yn awgrymu bod grwpiau yn bwriadu cynnal eu gweithgarwch ymgysylltu gyda phrosiectau natur.

7.23 Barnwyd yn eang bod y swyddogion prosiect yn asedau gwerthfawr ar gyfer y cynllun. Ystyriwyd bod eu cymorth nhw wrth gyflawni rhai prosiectau oherwydd rhwystrau yr oeddent yn atal gwirfoddolwyr rhag ymgysylltu, yn hanfodol mewn rhai achosion. Yn y dyfodol, fodd bynnag, mae'n llai tebygol (os bydd effaith y pandemig yn lleihau) y bydd angen iddynt gynorthwyo gymaint wrth gyflawni prosiectau. Fodd bynnag, credwyd bod eu hymweliadau safle yn cynnwys rhannu arfer da a gwybodaeth gyda gwirfoddolwyr a grwpiau. Gallai'r elfen hon fod yn allweddol er mwyn datblygu sgiliau a gwybodaeth gwirfoddolwyr natur y maent yn aml yn gwneud hynny am y tro cyntaf. Ac yn fwy, efallai bod eu harbenigedd yn ffordd y gall y cynllun gynorthwyo grwpiau i gynnal eu gweithgarwch ymgysylltu a datblygu eu gwaith a'u prosiectau.

7.24 Mae swyddogion prosiect yn ffynonellau tebygol dirnadaeth ynghylch y grwpiau a'r unigolion sy'n ymgysylltu gyda'r rhaglen, yn ogystal â'r cymunedau sy'n cael eu targedu. O ganlyniad, maent yn cynrychioli ffynonellau gwybodaeth a phrofiad allweddol.

**Argymhelliad 9:** Dylai rheolwyr rhaglen a rheolwyr cynllun KWT archwilio ac ystyried manteision cynyddu'r adnodd a'r amser sydd ar gael i swyddogion prosiect weithio gyda grwpiau. Yn ogystal, dylai rheolwyr geisio manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i rannu gwybodaeth ac arferion ymgysylltu gydag ac ymhlith swyddogion prosiect a chynlluniau eraill.

7.25 Teimlwyd yn eang, fodd bynnag, oherwydd yr oedi wrth gyflawni, yn ogystal â'r ffaith na fydd nifer o effeithiau cymunedol y lleoedd yn weladwy nac yn fesuradwy tan o leiaf gwanwyn 2021, y tu hwnt i gwblhau gwaith a sefydlu arferion newydd, ei bod yn anodd mesur gwaith yr LNPs. Mae'r data monitro yn awgrymu, fodd bynnag, bod yr agweddau olaf hyn yn cael eu cyflawni.

7.26 Er ei bod yn debygol o fod yn rhy gynnar ar yr adeg hon, er hyn, mynegwyd pryder ac ansicrwydd ynghylch y dulliau a'r offerynnau y gallent gael eu defnyddio er mwyn mesur a monitro effaith gwaith yr LNPs ar unigolion a chymunedau.

**Argymhelliad 10:** Dylai Llywodraeth Cymru ystyried cynorthwyo'r LNPs a'u staff gydag offer a hyfforddiant er mwyn iddynt allu casglu data a fydd yn galluogi gwerthusiad effeithiol o effaith eu gweithgareddau ar gymunedau. Mewn gwirionedd, gallai hyn olygu rhannu arfer da ac offerynnau fel arolygon neu enghreifftiau o astudiaethau achos rhwng cydlynwyr. Pe byddai modd datblygu offerynnau safonol, byddai hyn yn cynorthwyo ymdrechion i gymharu'r effaith ar draws LNPs yn y dyfodol yn fawr.

*Cynnal yr effaith*

7.27 Mae'r data yn awgrymu bod deiliaid pecyn KWT yn bwriadu cynnal eu gweithgarwch ymgysylltu gyda phrosiectau natur ar y cyfan. Ceir tystiolaeth bod rhai deiliaid pecyn yn gwneud cais am becynnau ychwanegol ac yn symud ymlaen i'r pecynnau datblygu. Mae rôl KWT wrth gynorthwyo'r datblygiad hwn yn allweddol ac fe allai olygu bod gofyn cael adnodd ychwanegol os bydd maint y dilyniant yn tyfu gydag amser; mewn geiriau eraill, os bydd rhagor o grwpiau pecyn cychwyn yn ceisio symud ymlaen i becynnau datblygu, mae'n debygol y bydd angen i KWT gynnig rhagor o gymorth ac arweiniad.

7.28 Gwelwyd tystiolaeth hefyd o ddeiliaid pecyn KWT yn mynegi diddordeb mewn datblygu eu lleoedd mewn ffordd fwy pwrpasol a thrwy wneud hynny, ceisio manteisio ar y cynllun grantiau cyfalaf. Mae'r adroddiad hwn wedi argymell y dylai Llywodraeth Cymru geisio datblygu'r cysylltiad rhwng y cynlluniau a chynorthwyo'r gweithgarwch pontio o un i'r llall (gweler Argymhelliad 2).

7.29 Yn y cyfamser, mae cynlluniau LNPs ac NLHF wedi cynnwys eu cynlluniau cynaliadwyedd yn eu cynlluniau a'u gwaith cynllunio. Yn ogystal, mae'r awdurdodau lleol a'r (i nifer o ddeiliaid grant cyfalaf) cynghorau tref a chymuned yn cynnig adnodd er mwyn cynorthwyo gweithgarwch ymgysylltu parhaus gyda'r lleoedd.

7.30 Fodd bynnag, nid oes rhyw lawer yn hysbys am effaith y pandemig ar grwpiau gwirfoddolwyr, ac er eu bod yn parhau i fod mewn cysylltiad ag arweinwyr prosiect mewn nifer o achosion, mae graddau'r effaith ar gapasiti grwpiau i ymgysylltu ac i ymgymryd â'r gwaith o gynnal a chadw safleoedd yn ansicr. Mae risg yn bodoli felly y gallai'r pandemig fod wedi bod yn rhy heriol i'r grwpiau sy'n gyfrifol am gynnal

gweithgareddau a lleoedd, neu y gallai'r gwaith o wneud hynny fod yn rhy feichus nawr. Gallai'r posibilrwydd o weld mesurau rheoli'r pandemig dros gyfnod hir beryglu gallu grwpiau gwirfoddolwyr ymhellach i gynorthwyo a chynnal y gweithgareddau a'r lleoedd yn y tymor canolig neu'r tymor hir.

**Argymhelliad 11:** Dylai deiliaid grant cyfalaf LNPs ac NLHF ystyried monitro neu archwilio capasiti grwpiau gwirfoddolwyr, yn enwedig y rhai y disgwylir iddynt ymgymryd â chyfrifoldeb dros gynnal a chynnal a chadw lleoedd.

7.31 O ran datblygiadau posibl yn y dyfodol, yn ogystal â chynnal yr effaith y tu hwnt i oes y rhaglen, awgrymodd cyfranwyr y byddai dwyn partneriaid ehangach i mewn i gynorthwyo'r gwaith cyflawni yn cynnig amrediad o fanteision. Gallai'r rhain fod yn sefydliadau o faint canolig neu fawr o'r trydydd sector, neu'n bartneriaid o'r sector preifat y gallent gynnig ffordd o roi cymhorthdal i weithgareddau.

7.32 Yn fwy cyffredinol, ac yn enwedig ynghylch newid arferion megis torri porfa, tocio gwrychoedd, neu annog blodau gwylltion a bioamrywiaeth, gallai'r rhaglen sicrhau effaith ehangach a mwy arwyddocaol ar fyd natur os rhennir arferion o'r fath yn eang. Mae potensial dros y tymor hwy yn bodoli ynghylch dylanwadu ar weithgarwch rheoli cynllunio neu weithgarwch ymgysylltu llai ffurfiol gyda thirfeddianwyr preifat er mwyn annog arferion buddiol tebyg i gael eu mabwysiadu.

7.33 Yn olaf, ac mewn perthynas â rheoli'r tri chynllun a'r rhaglen, ceir tystiolaeth sylweddol bod y gronfa arddangos wedi annog proses ddysgu hollbwysig ac adeiladol. Gwelwyd tystiolaeth o gylchoedd gwerthuso mewnol effeithiol trwy gydol y rhaglen. Law yn llaw â'r profiad ymarferol sylweddol o gyflawni o fewn cyd-destun arbennig o heriol, mae'n ymddangos bod y timau rheoli a chyflawni mewn sefyllfa dda ac yn wybodus er mwyn gwella a mireinio'r rhaglen yn ystod blwyddyn 2021–2022.

7.34 Fodd bynnag, efallai y bydd yr angen i ymgysylltu gyda rhanddeiliaid ehangach y mae'n ymddangos eu bod yn amheus o'r rhaglen, yn ogystal â rhesymeg ei dull gweithredu ar raddfa fach, ond eang, yn gallu helpu i sicrhau cymorth a gweithgarwch ymgysylltu pellach gyda'r rhaglen a'i hamcanion.

**Cwestiynau Ymchwil Allweddol**

*A yw'r rhaglen wedi helpu i greu 'natur ar eich stepen drws' mewn ardaloedd trefol ac mewn ardaloedd o gwmpas trefi. Ac os felly, ym mha ffyrdd?*

7.35 O ganlyniad i oedi wrth gyflawni'r rhaglen a'r ffaith y cynhaliwyd y gwerthusiad hwn yn gynnar, nid oes modd arsylwi effeithiau llawn y rhaglen eto. Er hyn, mae'r data yn awgrymu'n gryf bod y tri chynllun neu y bydd y tri chynllun, er eu bod wedi cael eu hoedi o ganlyniad i effaith y pandemig, wedi creu neu y byddant yn creu lleoedd newydd 'natur ar eich stepen drws'. Mae'r tri chynllun wedi cyflawni hyn. O ganlyniad i natur pecynnau KWT, mae mwy o ddata ar gael ar gyfer hyn, sy'n awgrymu y defnyddir pecynnau KWT er mwyn gwella a datblygu'r lleoedd sy'n bodoli eisoes.

7.36 Nid yw'r lleoedd a grëwyd, fodd bynnag, mewn ardaloedd trefol neu ardaloedd o gwmpas trefi yn unig. Gallai'r ffaith bod dros 200 o becynnau KWT wedi cael eu cymeradwyo'n awtomatig ar gyfer cynghorau tref a chymuned, y mae nifer ohonynt mewn ardaloedd gwledig, gyfyngu ar y gallu i ganolbwyntio ar ardaloedd trefol neu ardaloedd o gwmpas trefi yn unig. Mae cynlluniau arfaethedig KWT ar gyfer cyfnod 2021–2022 fodd bynnag yn ceisio canolbwyntio'n fanylach ar yr ardaloedd hyn, yn ogystal â thargedu grwpiau difreintiedig a lleiafrifoedd penodol.

7.37 Yn ogystal, nid oedd y data a oedd ar gael yn caniatáu unrhyw safbwynt mewn perthynas ag ansawdd y lleoedd natur, nac ynghylch a oedd y pecynnau'n gwella'r lleoedd natur (neu eu graddau). Hyd yn oed pan geir digonedd o leoedd natur hygyrch, felly, efallai bod (neu efallai nad yw) y cynllun yn gwella ansawdd y lleoedd hynny. Efallai y bydd gwerthusiadau neu dimau rheoli yn y dyfodol yn dymuno archwilio'r elfen hon, oherwydd y gallai gynrychioli gwerth pwysig ac ychwanegol.

7.38 Mae cydlynwyr LNP a chynlluniau grantiau cyfalaf yn diffinio ardaloedd gwledig difreintiedig ac ardaloedd difreintiedig o gwmpas trefi mewn ffordd fwy llac, gan ystyried y grwpiau y byddant yn manteisio ar ac yn cael budd o'r safleoedd, nid eu lleoliad daearyddol yn unig. Dylid cynnal y dehongliad mwy ymatebol hwn o ardaloedd trefol ac ardaloedd o gwmpas trefi er mwyn galluogi'r cynlluniau i fanteisio ar gryfder allweddol eu cynllun, sef eu hyblygrwydd.

*Pa effaith y mae'r rhaglen wedi'i chael ar unigolion a grwpiau a fu'n cymryd rhan?*

7.39 Mae'r data yn awgrymu bod y pecynnau KWT wedi cael effaith gadarnhaol ar unigolion a grwpiau sydd wedi cael cyswllt gyda'r gwaith a'r lleoedd. Cadarnhaodd ymatebwyr resymeg y rhaglen trwy adrodd am les corfforol a meddyliol gwell o ganlyniad i'r gweithgareddau.

7.40 Nodwyd effeithiau ehangach gan ymatebwyr hefyd, megis eu dymuniad i barhau i ymgysylltu â phrosiectau natur a chynorthwyo rhaglenni natur lleol a chenedlaethol eraill.

7.41 Fodd bynnag, mae'r pandemig wedi cyfyngu ar y gweithgarwch ymgysylltu gyda'r lleoedd, ac o ganlyniad, maint yr effaith. Mae'n rhesymegol tybio felly y gallai'r rhaglen sicrhau'r effaith trwy gael rhagor o bobl a grwpiau ar ôl i gyfyngiadau'r cyfnod clo gael eu codi, ac y gall y lefelau ymgysylltu godi.

7.42 Fodd bynnag, roedd y pandemig wedi effeithio'n fawr ar yr LNPs a'r cynlluniau grantiau cyfalaf, a'u hoedi yn fawr. Nid oedd gweithgarwch ymgysylltu gyda grwpiau gwirfoddolwyr wedi cychwyn i raddau helaeth, y tu hwnt i gynnwys cymunedau mewn cynlluniau a dyluniadau ar gyfer y lleoedd. Felly, mae'r effaith ar unigolion a grwpiau mewn perthynas â'r cynlluniau hyn yn fwy tebygol yn y tymor hir.

*Pa mor gynaliadwy yw ymgysylltiad y grwpiau gyda byd natur lleol?*

7.43 Gwelwyd tystiolaeth bod yr holl wirfoddolwyr a'r grwpiau yn anelu i gynnal eu gweithgarwch ymgysylltu gyda rhaglenni natur, os nad rhaglen LPfN yn benodol. Roedd rhai deiliaid pecyn KWT yn symud ymlaen i ragor o becynnau cychwyn ac weithiau, y pecyn datblygu.

7.44 Roedd staff KWT, fodd bynnag, yn anelu i fonitro'r grwpiau am bum mlynedd bellach er mwyn olrhain a chasglu data ynghylch cynaliadwyedd eu gweithgarwch ymgysylltu. Bydd y ddirnadaeth a geir yn galluogi KWT i amlygu gofynion cymorth a phroblemau gyda chapasiti yn y dyfodol.

7.45 Roedd LNPs wedi cynllunio y byddai grwpiau penodol ac (mewn rhai achosion) yr awdurdod lleol yn cynorthwyo'r gwaith o gynnal a chadw lleoedd ac arferion. Yn y cyfamser, roedd grantiau cyfalaf yn aml yn rhan o'r camau cychwynnol mewn prif gynllun ehangach ar gyfer cynghorau cymuned neu grwpiau sy'n arwain y gwaith. Roedd y cynlluniau ehangach hyn yn cynnwys dwyn gwirfoddolwyr a grwpiau i gynorthwyo'r gwaith o gynnal a chadw safleoedd, neu ymgysylltu ag ysgolion a chartrefi nyrsio er mwyn sicrhau defnydd rheolaidd o'r lleoedd.

7.46 Fodd bynnag, er eu bod mewn cysylltiad gyda thimau rheoli cynllun a chydlynwyr LNP, mae'n aneglur pa effaith y mae'r pandemig wedi'i chael ar grwpiau gwirfoddolwyr a'u capasiti i ymgysylltu yn dilyn y pandemig. Yn ogystal, mae'n aneglur pa effaith y bydd mesurau parhaus i reoli'r pandemig, megis cadw pellter cymdeithasol, yn eu cael ar gapasiti grwpiau gwirfoddolwyr i gynnal eu gweithgarwch ymgysylltu a'u cymorth ar gyfer y safleoedd. Argymhellir yn yr adroddiad hwn (Argymhelliad 11) bod LNPs ac arweinwyr grant cyfalaf yn monitro a hyd yn oed yn arwain capasiti a gofynion grwpiau gwirfoddolwyr, yn enwedig y rhai hynny y rhoddir y dasg iddynt o gynnal a chynnal a chadw y safleoedd.

## Atodiad A: Crynodeb o Gynlluniau LNP

| Cynlluniau LNP 2020–2021 | Twf Amgylcheddol ar Eich Stepen Drws | Gwyrddio'r Ystad Gyhoeddus |
|---|---|---|
| **Ynys Môn** | Prynu tractor bychan a pheiriant ffustio er mwyn rheoli cadwraeth ar ymyl y ffordd a rheoli glaswelltir. | Sefydlu ardaloedd o weirgloddiau blodau gwylltion brodorol a choed/llwyni brodorol o gwmpas swyddfeydd Cyngor Ynys Môn a'r lyfrgell yn Llangefni. |
| **Blaenau Gwent** | Plannu gwrychoedd a rheoli gwrychoedd eraill ar draws Blaenau Gwent. Rheoli gweirgloddiau blodau gwylltion ym Mlaenau Gwent. | Rheoli ymylon ffordd a chyfathrebu gyda'r cyhoedd ynghylch ardaloedd blodau gwylltion a glaswellt hir a'r manteision cysylltiedig i beillwyr ym Mlaenau Gwent. |
| **Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog** | Gwaredu rheolaeth clymog Japan ar hyd 9 cilomedr ACA a SoDdGA Afon Wysg er mwyn gallu adfer cynefinoedd arbennig. Lleihau trwch Crassula ar Fynydd Illtyd. | Prynu cynaeafwr hadau er mwyn casglu hadau brodorol. Prynu coed ffrwythau er mwyn creu perllannau bychain. Plannu llwyni sy'n blodeuo o gwmpas a than y coed sy'n bodoli eisoes. Sefydlu amrediad o blanhigion plygiau blodau gwylltion. |
| **Pen-y-bont ar Ogwr** | Rheoli cynefin, adfer a phlannu yng Ngolchfeydd Ogwr er mwyn iddo ddod yn safle meta-boblogaeth glöynnod byw. | Amh |
| **Caerffili** | Lleoedd Gwyrdd Trefol ar gyfer Bywyd Gwyllt; Creu, Rheoli ac Adfer Gwrychoedd; Gwyrddio Adeiladau Cyhoeddus, Mynedfa(mynedfeydd) Porth Strategol Gwyrddio. | Nod y prosiect yw gwella'r Seilwaith Gwyrdd strategol ar draws Bwrdeistref Sirol Caerffili trwy dargedu llu o welliannau mewn parciau gwledig, llwybrau beicio a thir arall a reolir gan yr awdurdod lleol. |
| **Caerdydd** | Gwella cyflwr gweirglodd 20ha a chreu 1875m$^2$ o gynefin peillwyr newydd trwy reoli gweirglodd a chynyddu'r gweithgarwch plannu planhigion sy'n addas i beillwyr mewn safleoedd amrywiol. | Gosodir waliau gwyrdd ar ddau adeilad y cyngor, mewn ardaloedd lle y gwelir bod ansawdd yr aer yn wael. |
| **Sir Gaerfyrddin** | Amh | Caiff cynefinoedd nas rheolwyd/anodd eu rheoli yn flaenorol ar dir y mae'r cyngor yn berchen arno neu'n ei reoli, eu hadfer neu eu gwella trwy brynu peiriant ffustio arbenigol y gellir ei reoli o bell. |
| **Ceredigion** | Gwella cynefin coediog nant ar hyd 2 cilomedr o Afon Ystwyth ac 1 cilomedr o weithgarwch ffensio a phlannu coed ar hyd Afon Teifi. Trefniant pori gwell ar Fferm Denmarc a rheolaeth well o'r weirglodd. | Amh |

| Cynlluniau LNP 2020–2021 | Twf Amgylcheddol ar Eich Stepen Drws | Gwyrddio'r Ystad Gyhoeddus |
|---|---|---|
| **Conwy** | Caiff trefniadau torri porfa presennol eu diwygio er mwyn creu ardaloedd o weirgloddiau blodau gwylltion sy'n gyfoethog o ran rhywogaethau a “pharciau” peillwyr ar safleoedd glaswelltir mwynder presennol yn ystad y cyngor. Byddai newid y trefniadau rheoli yn cynyddu amrywiaeth y blodau a bydd creu'r safleoedd yn gwella cysylltedd | Caiff ardaloedd o wal werdd fyw bioamrywiol ac sy'n gyfoethog o ran rhywogaethau eu creu mewn man cyhoeddus. Creu micro-ecosystem weithredol lle y gwelir concrid a tharmac/gwaith tirlunio anhydraidd ar du allan yr adeilad ar hyn o bryd. |
| **Sir Ddinbych** | Meithrinfa goed newydd i Sir Ddinbych, gan dyfu coed brodorol i'w plannu ar safleoedd ar draws y sir gan Gyngor Sir Ddinbych, grwpiau cymunedol lleol, ac aelodau Bionet sy'n gweithio yn Sir Ddinbych. | Creu o leiaf 10 gweirglodd blodau gwylltion newydd ar draws Sir Ddinbych. Creu safleoedd newydd sy'n addas ar gyfer gwenyn. Trosi glaswelltiroedd mwynder nad ydynt yn cael eu defnyddio ddigon ar hyn o bryd (nad ydynt yn cynnwys rhyw lawer o rywogaethau ac y maent yn cael eu torri bob pythefnos) yn weirgloddiau blodau gwylltion. Darparu ffynonellau neithdar a safleoedd dodwy wyau ar gyfer creaduriaid di-asgwrn-cefn. |
| **Sir y Fflint** | Bydd Peillwyr ar gyfer Lleoedd yn creu dau safle enghreifftiol a 10 perllan ar draws safleoedd y mae aelodau LNP yn berchen arnynt a/neu'n eu rheoli yn Sir y Fflint trwy wneud newidiadau i'r gyfundrefn reoli. | Lleihau'r defnydd a wneir o chwynladdwyr cemegol, y maent yn niweidiol i fioamrywiaeth. Prynu deunydd rheoli chwyn Foamstream, nad yw'n gemegol, er mwyn paratoi safleoedd lle y plennir blodau gwylltion arnynt yn y dyfodol. |
| **Gwynedd** | Adfer cynefin (gan gynnwys gwaredu clymog Japan) ar hyd afon Barlwyd. Creu gweirgloddiau blodau gwylltion a chynefinoedd eraill. Gwneud gwelliannau i adeiladau yn y Gwaith Powdwr er mwyn cynnig budd i ystluod a bywyd gwyllt arall. | Creu ac adfer tua 15ha o weirgloddiau, glaswelltir a chynefinoedd bywyd gwyllt ar laswelltiroedd amrywiol y mae Cyngor Gwynedd yn berchen arnynt ac yn eu rheoli. |
| **Merthyr Tudful** | Ymestyn y mynediad i a'r defnydd a wneir o ddarn o dir nas gwneir defnydd digonol ohono, a arferai gynnwys offer chwarae nas defnyddiwyd, ac yr oedd yn rhy wlyb i'w groesi. Mân warchodfa natur, gwlypdir/cors gyda chuddfannau adar, a llwybrau cerdded. Bydd y safle yn “fan amlwg ar gyfer byd natur”. | Prynir peiriannau torri a chasglu er mwyn rheoli ardaloedd glaswelltir mwynder mewn ffordd newydd, gan greu glaswelltiroedd sy'n gyfoethog o ran rhywogaethau, y byddant yn gwella bioamrywiaeth ac yn darparu Gweoedd Blodau Gwylltion Lles. |

| Cynlluniau LNP 2020–2021 | Twf Amgylcheddol ar Eich Stepen Drws | Gwyrddio'r Ystad Gyhoeddus |
|---|---|---|
| **Sir Fynwy** | Adfer glaswelltiroedd a esgeuluswyd. Gwella safleoedd ysgol gyda choed, camau gwella glaswelltir, a gwaith plannu peillwyr. Plannu coed yn Castle Meadows (Y Fenni) er mwyn creu coedlan. | Prynu offer er mwyn trawsnewid gweithgarwch rheoli glaswelltir mewn trefi a phentrefi er mwyn gwella strwythur y pridd a'i allu dal dŵr. Mae'r ardaloedd hyn wedi dod yn fannau agored pwysig iawn i'r cymunedau y'u lleolir ynddynt yn ystod argyfwng COVID-19. |
| **Castell-nedd Port Talbot (NPT)** | Newid dull rheoli ardaloedd er mwyn caniatáu i fflora brodorol ffynnu. Gwaith plannu gweithredol yn cael ei wneud ar hyd o leiaf 5000m$^2$ o ymyl ffyrdd a hadu llystyfiant sy'n addas i beillwyr mewn ardaloedd y mae eu gwerth natur yn isel. Cynyddu llystyfiant sy'n addas ar gyfer peillwyr ar draws NPT. Ôl-osod to gwyrdd enghreifftiol. | Bydd prosiect Coed sy'n Siarad yn hwyluso gweithgarwch i blannu rhywogaethau coed/llwyni/gwrychoedd ar safleoedd priodol ar draws ystad y cyngor, y nodwyd bod angen eu gwyrddio, y maent o werth natur isel a/neu lle y bydd pobl leol yn cael budd. |
| **Casnewydd** | Newid trefniadau torri ardaloedd o laswelltir ar draws y ddinas er mwyn annog blodau gwylltion brodorol i ffynnu. Bydd y rhain yn cynnwys gweirgloddiau, ymylon ffyrdd, mynwentydd a pharciau. | Mae Barrack Hill yn safle SINC, ond mae'r coetir yn fan lle y gwelir llawer iawn o dipio anghyfreithlon. Cynorthwyo adferiad natur trwy gyfrwng trefniadau rheoli cadwraeth weithredol ac ymgysylltu gyda phreswylwyr lleol. |
| **Sir Benfro** | Cynyddu bioamrywiaeth Mill Pond (rheoli cyrs, trapiau silt a gwaredu gordyfiant algâu/planhigion dŵr ymledol). Platfform dipio newydd er mwyn galluogi gweithgarwch monitro ansawdd dŵr a gwyddor dinasyddion. Trelar y mae modd ei gloi, cyfarpar ac offer ar gyfer “Tîm Gwyrdd” newydd o wirfoddolwyr wedi'u cydlynu gan y cyngor sir mewn partneriaeth gyda chynghorau tref. | Trawsnewid sawl daliad tir PCC gyda chynnydd mewn bioamrywiaeth, yn enwedig peillwyr, creaduriaid di-asgwrn-cefn eraill, a mamaliaid bychain. Dad-ddofi tir Neuadd y Sir trwy gyfrwng 200m$^2$ o laswelltir sy'n gyfoethog o flodau a bocsys balconi. Gwelliannau i Goetir Parêd trwy wneud gwaith plannu a bondocio. Clirio Jac y Neidiwr a phrysgwydd ar safle saith erw a chreu Parc Poced Glan Afon. |
| **Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro** | Ffensio o gwmpas gweirglodd wlyb a rhos wlyb 5ha er mwyn adfer cynefin britheg y gors. 60 o amrywiadau coed ffrwythau treftadaeth er mwyn creu perllan newydd ar St. Brides Green ac ysgolion. Ar Gae Riverside, dôl, pwll a phwll bas newydd, llwybr pren 70m a llwybr cerrig gan greu cynefinoedd newydd sy'n gyfoethog o fywyd gwyllt. Llai o bla INNS ar y ddau safle. | Adfer gweirglodd blodau gwylltion 0.25ha ym Maenorbŷr (sydd mewn cyflwr gwael oherwydd ei maint bach a llethr lletchwith) gan ddefnyddio peiriant ffustio bach.<br><br>Casglwyr peiriant ffustio bach. Gwaredu llystyfiant a dorrwyd er mwyn helpu i leihau llwyth y maethynnau a gwella amrywiaeth y planhigion. |
| **Powys** | Rhostir pori ychwanegol trwy adfer cynefin sydd wedi dirywio mewn dau safle. Mae rhostir pori yn cynnal ystod eang o rywogaethau ond mae'n gynefin hanfodol ar gyfer glöyn byw britheg y gors. | Bydd gwyrddio tir cyhoeddus a esgeuluswyd yn flaenorol a chreu gardd gymunedol drefol sy'n addas ar gyfer y rhai sydd â dementia yn gwyrddio waliau a phentyrrau cynefin. Mae'r lleoliad yn amlwg iawn ac yn hygyrch i'r gymuned. |

| Cynlluniau LNP 2020–2021 | Twf Amgylcheddol ar Eich Stepen Drws | Gwyrddio'r Ystad Gyhoeddus |
|---|---|---|
| **Rhondda Cynon Taf** | Gwella byd natur ar o leiaf 70ha o weirglodd blodau gwylltion, gwlypdir, lle agored, ac ymylon porfa, gan gynnwys 10ha o laswelltir, y mae nifer ohonynt yn lleoedd glaswelltir bychain, trefol neu ar ymyl ffordd, y maent yn anos eu cyrraedd gan ddefnyddio peiriannau traddodiadol. | Bydd prosiect Coed ar gyfer Parciau yn hwyluso plannu coed mewn 17 o fynwentydd a pharciau priodol ar draws RCT. |
| **Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri** | Trawsnewid pedair mynwent eglwys yn lleoedd natur cymunedol. Adfer adeiladau clwydo ystlumod Gwarchodfa Natur Gwaith Powdwr (e.). | Cyflawni prosiect rheoli mynediad a rheoli rhywogaethau ymledol. Prynu peiriant asglodi â thraciau er mwyn asglodi deunydd prennaidd o'r coetir. |
| **Abertawe** | Adfer, gwella a chreu cynefinoedd newydd ac sy'n bodoli eisoes. Cryfhau cysylltedd a chydnerthedd ecosystemau a gwella'r buddion gwasanaeth ecosystem y maent yn eu darparu ar gyfer y gymuned leol. | Creu coedwig drefol newydd, plannu coed brodorol a lled-frodorol, gwrychoedd a choetiroedd newydd ar nifer o safleoedd y mae'r ALI yn berchen arnynt, a sefydlu meithrinfa coed o stoc frodorol. |
| **Torfaen** | Plannu a rheoli gwrychoedd. Rheoli gweirgloddiau blodau gwylltion. Bydd cael rhagor o weirgloddiau blodau gwylltion cydgysylltiedig ac sy'n gyfoethog o rywogaethau sy'n cael eu rheoli'n well yn cynnig budd i greaduriaid di-asgwrn-cefn, adar a mamaliaid. | Coridorau glaswelltir er mwyn cyfuno cynefinoedd a lleihau darnio. Newid trefniadau rheoli cyfredol o laswelltir mwynder i raglen torri a chasglu flynyddol. Plannu plygiau blodau gwylltion. Rheolir rhagor o ymylon porfa mewn ffordd well er mwyn cael blodau gwylltion, gan gynnig budd i beillwyr yn ogystal ag ystod eang o fywyd gwyllt arall. |
| **Wrecsam** | Gwella seilwaith gwyrdd yng nghanol tref Wrecsam, gan gynyddu'r brigdwf trwy blannu chwe choeden stryd fawr, cyflwyno mwy o waith plannu sy'n addas ar gyfer peillwyr a chael prif ased fawr (wal neu ardd law) a bennir ar ôl cynnal astudiaeth ddichonolrwydd. | Sefydlu trefniadau rheoli glaswelltir gwell sy'n werthfawr ar gyfer bywyd gwyllt ar draws y sir. Gwella amrywiaeth blodau gwylltion trwy reoli glaswelltir mewn ffordd well a sefydlu safleoedd enghreifftiol gyda hadu ychwanegol. Defnyddio llai o chwynladdwyr trwy wneud defnydd ehangach o beiriant Foamstream. |
| **Bro Morgannwg** | Partneriaid LNP i ddiwygio trefniadau rheoli cynefinoedd gweirgloddiau er mwyn gwella bioamrywiaeth. Rheoli glaswelltir 35ha a chreu tair ardal fach 350m$^2$ o flodau gwylltion mewn meysydd parcio yn Cosmeston, Porthceri a Bae Dwn-rhefn. | Bydd y prosiect yn cynnwys adeiladu strwythur Wal Fyw Werdd 3.5m x 15m ar dŵr mynediad canolog adeilad BSC2. Lleolir yr adeilad mewn hen ardal ddiwydiannol lle na cheir fawr iawn o seilwaith gwyrdd. |

## Atodiad B: Holl Brosiectau NLHF a Gymeradwywyd

a. *Bywyd gwyllt a thyfu cymunedol:* Cyngor Tref Pen-bre a Phorth Tywyn i drawsnewid pedwar safle yn lleoedd natur (£50,000, Gorffennaf 2020).

b. *Arferion torri porfa:* Partneriaeth Natur Leol Torfaen a Blaenau Gwent er mwyn prynu peiriant torri porfa ar gyfer ymylon ffordd ar draws y bwrdeistrefi (£47,500, Gorffennaf 2020).

c. *Lle tyfu cymunedol a thrawsnewid safleoedd:* Cyngor Cymuned Bedlinog a Threlewis (£50,000, Medi 2020).

d. Lle tyfu cymunedol hygyrch a gardd goetir yn Nyffryn Clwyd, Mind (£22,000, Medi 2020).

e. *Lleoedd tyfu naturiol gan Gyngor Tref Llanelli er mwyn ymestyn a gwella natur ym Mharc y Goron* (£20,000, Medi 2020).

f. *Gweirglodd blodau gwylltion, gardd synhwyraidd a llwybr bywyd gwyllt*: Pwyllgor Cae Dolwen, Llanwrtyd (£17,600, Medi 2020).

g. *Arferion torri porfa:* Partneriaeth Leol Sir Fynwy er mwyn prynu peiriannau torri porfa i hwyluso newid arferion torri porfa mewn lleoedd agored ac ar ymylon strydoedd mewn cymunedau difreintiedig dynodedig (£94,000, Medi 2020).

h. *Peillwyr: bydd Canolfan Ray (Aberaeron) yn trawsnewid iard tarmac a lle ar do yn fan ar gyfer byd natur* (£35,200, 1 Hydref 2020).

i. *Tyfu cymunedol: bydd Pwyllgor y Clwb (Yr Wyddgrug) yn darparu lle tyfu cymunedol* (£29,400, 1 Hydref 2020).

j. *Arferion torri porfa: bydd Cyngor Cymuned Tŷ-du (Casnewydd) yn trawsnewid lle agored a dorrwyd at ddefnydd cymunedol a byd natur* (£21,300, 1 Hydref 2020).

k. *Peillwyr a pherllannau:* Porth Tywi yng Ngerddi Esgob. Adfer gardd gyda phlanhigion ar gyfer peillio, adfer coetir lled-hynafol, plannu coed afalau brodorol, diogelu gwâl y dyfrgwn (£22,900, 29 Hydref 2020).

l. *Peillwyr:* Amgylchedd Tyfu Natur Y Fenni (£15,200, 29 Hydref 2020). Dolydd y Castell. 197 metr o goridorau gwyrdd newydd. Dysglau plannu sy'n cynnwys

planhigion deniadol i'r llygad ac sy'n addas ar gyfer peillwyr.

m. *Bywyd gwyllt:* Gwaredu Crassula yn Johnstown (£49,900, 29 Hydref 2020). Gwaredu Crassula anfrodorol o warchodfa natur Stryt Las a gwarchodfa natur Aberderfyn er mwyn diogelu bywyd gwyllt, gan gynnwys madfallod dŵr cribog.

n. *Tyfu cymunedol, peillwyr, a bywyd gwyllt:* Cyngor Tref Pwllheli: Datblygu rhandir yn y ganolfan hamdden, creu lle dysgu yn yr awyr agored, plannu blodau gwylltion, a rheoli rhywogaethau ymledol. Mae'r safle yn cael ei esgeuluso ar hyn o bryd ac mae'n dioddef ymddygiad gwrthgymdeithasol (£15,000, 29 Hydref 2020).

o. *Peillwyr:* Gardd Synhwyraidd Parc Bryn Bach (£11,100, 29 Hydref 2020). Tir a arferai fod yn dir diffaith rhwng llyn a lle chwarae i blant, a adferwyd.

p. *Tyfu cymunedol a pheillwyr:* Cricieth (£20,800, 29 Hydref 2020). Creu lle gwyrdd hygyrch 2752.89m$^2$ (gan gynnwys rhandir cymunedol (25 llain) a gardd glöynnod byw er mwyn creu coridor cynefin).

q. *Tyfu cymunedol a pheillwyr:* Cyngor Cymuned Y Mwmbwls; bydd Lleoedd Gwyrdd Trefol Y Mwmbwls yn adfer ac yn gwella 1200m$^2$ o dir sydd wedi tyfu'n wyllt gerllaw Castell Ystumllwynarth er mwyn cynorthwyo i uno coridor peillwyr Margam i'r Mwmbwls. Mae'r cynnig yn cynnwys rhandir cymunedol hefyd er mwyn annog a chynorthwyo'r rhai ar incwm isel, defnyddwyr banciau bwyd, aelodau'r gymuned sy'n agored i niwed, a phreswylwyr lleol (£39,927, Tachwedd 2020).

r. *Seilwaith gwyrdd:* Llwybrau Gwyrdd Trafnidiaeth Cymru. Cydweithio gyda phartneriaid cymunedol, cyflwyno mesurau i wella bioamrywiaeth, ac ailgysylltu teithwyr a chymunedau lleol gyda byd natur. Gwella 22 gorsaf er mwyn creu mwy o leoedd gwyrdd, gan gynnwys toeon gwyrdd, waliau gwyrdd, dysglau plannu, basgedi crog, tai adar, gwestai pryfed, a thai glöynnod byw. Creu pum lle gwyrdd cymunedol (pob un ohonynt o fewn 1 cilomedr i orsaf). Bydd gerddi cymunedol yn cynnwys rhandiroedd, perllannau, a gerddi blodau, perlysiau a synhwyraidd er mwyn denu peillwyr (£100,000, Tachwedd 2020).

s. *Peillwyr*: Dyffryn Aman: Gardd Ddŵr ar gyfer Pentref Tai'r-gwaith. Creu gardd ddŵr ar hen safle rwbel pwll glo sy'n safle tir llwyd gerllaw pentrefi Tai'r-gwaith a

Gwauncaegurwen (£13,400, Tachwedd 2020).

t. *Peillwyr*: Gardd therapiwtig ar gyfer plant y mae eu bywydau wedi cael ei gyfyngu yn Nhŷ Hafan. Gardd therapiwtig/synhwyraidd i blant sy'n sâl iawn ac y mae ganddynt anableddau/anghenion cymhleth yn Hosbis Plant Tŷ Hafan. Bydd y prosiect yn trawsnewid lle nas defnyddir yn ardd synhwyraidd a lle coetir, a fydd yn hygyrch i blant mewn cadeiriau olwyn a gwelyau (£72,400, Tachwedd 2020).

u. *Peillwyr:* Gerddi Temple, Tref Llandrindod. Mae'r hen ardd rhosod yng Ngerddi Temple wedi dirywio ac wedi cael ei hesgeuluso, ac mae ysbwriel yn cronni yno. Bydd plannu gardd synhwyraidd a bywyd gwyllt a gosod gwestai adar, ystlumod a phryfed yn cynorthwyo peillwyr ac yn cynyddu amrywiaeth cynefinoedd a rhywogaethau (£16,000, Rhagfyr 2020).

v. *Perllan gymunedol a newid arferion torri porfa:* Safle o gwmpas tref o fewn yr ardd gegin furiog o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg ym Mharc Gwledig Margam. Creu perllan gymunedol a fydd yn cynnwys rhywogaethau brodorol o goed ffrwythau. Newid peiriannau ac arferion torri er mwyn creu gweirglodd sy'n addas ar gyfer bywyd gwyllt (£35,800, Rhagfyr 2020).

w. *Peillwyr*: Pori Cadwraeth Bryn. Adfer a gwella bioamrywiaeth a chynefin 23ha yng Ngwarchodfa Natur Leol Tomen y Bryn. Mae Bryn ymhlith y 30-50 y cant o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru (£31,200, Rhagfyr 2020).

x. *Peillwyr, tyfu cymunedol:* Tŷ Croes yn Tyfu gyda'n Gilydd, Llanedi. Datblygu coridor blodau gwylltion ar gyfer glöyn byw britheg y gors. Creu perllan gymunedol (gwella'r gwaith draenio o gwmpas neuadd sgowtiaid) a datblygu lle tyfu cymunedol (£48,900, Rhagfyr 2020).

y. *Tyfu cymunedol a pherllan gymunedol:* Project Datblygu Gardd Cymunedol Tref Caernarfon. Datblygu safle Canolfan Hamdden Arfon yn erddi cymunedol. Datblygu rhandiroedd i'w defnyddio gan Gaffi Byw'n Iach Arfon a Thimau Anableddau Dysgu er mwyn paratoi prydau ar glud yng ngheginau'r caffi yn y ganolfan hamdden. Perllan gymunedol a gardd synhwyraidd (£33,300, Ionawr 2020).

z. *Newid arferion torri porfa:* Prosiect newid trefniadau torri Glaswelltir Gwell Cwmaman. Uned tractor a pheiriant torri a chasglu er mwyn cynorthwyo tri chyngor tref a chymuned (Cwmaman, Llan-non, Llanedi) i wneud newidiadau i arferion torri porfa. Set o bladuriau er mwyn caniatáu i aelodau'r gymuned ymgysylltu gyda gweithgarwch rheoli glaswelltir/gweirgloddiau (£76,700, Chwefror 2021).

aa. *Peillwyr:* Cwmaman: Cadwraeth Cymunedol. Bydd y prosiect yn adfer gweirglodd blodau gwylltion, gan roi sylw penodol i damaid y cythraul, sy'n hanfodol i gylch oes britheg y gors. Creu blychau nythu wedi'u cynllunio'n benodol (gwybedog brith, tylluan wen, a phathew) a blychau draenogod i'w gosod mewn parciau, coetiroedd a gerddi ar draws y dyffryn (£19,600, Chwefror 2021).